sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)



2il Gynllun Adneuo
Chwefror 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Tabl Cynnwys


**1. Rhagarweiniad ........ 4**

1.1 Gofynion Deddfwriaethol ........ 5
1.2 Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a Phroses y CDLl ........ 5
1.3 Sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau ........ 7
1.4 Cysylltiadau â Strategaethau ac Asesiadau eraill ........ 10
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 10
Y Gymraeg ........ 12
Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ........ 12
Asesiad o'r Effaith ar Iechyd ........ 12
Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ........ 13
Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019 ........ 13
Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC) ........ 14

**2. Methodoleg ........ 15**

2.1 Dull ........ 15
2.2 Ymgymryd â'r ACI ........ 15
2.3 Y Fframwaith Cynaliadwyedd Integredig ........ 15
2.4 Pennu Arwyddocâd Effaith ........ 18
2.5 Amserlenni ........ 20
2.6 Senario Sylfaenol ........ 20
2.7 Matricsau Effaith ........ 21
2.8 Camau Lliniaru ac Argymhellion ........ 23
2.9 Cyfyngiadau ac Ansicrwydd Technegol ........ 23

**3. Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol ........ 24**

3.1 Crynodeb Rhyngwladol ........ 24
3.2 Crynodeb Cenedlaethol ........ 25
3.3 Crynodeb Lleol ........ 25

**4. Effeithiau a Ragwelir a Rhai Sylfaenol ar yr Amgylchedd heb Weithredu'r CDLl diwygiedig ........ 26**

**5. Asesiad iteraidd: Gwaith AC blaenorol ........ 30**

5.1 Trosolwg ........ 30
5.2 Manylion y broses ........ 30
5.3 AC blaenorol o Weledigaeth y CDLl diwygiedig ........ 31
5.4 AC blaenorol o Amcanion y Strategaeth ........ 32

5.5 AC blaenorol ar yr Opsiynau Twf ..... 34
5.6 AC blaenorol o'r Opsiynau Gofodol ..... 39
5.7 AC blaenorol o Bolisïau Strategol a Phenodol ..... 46
5.8 Cyfyngiadau Technegol ac Ansicrwydd a nodwyd yn flaenorol ..... 47
5.9 Crynodeb o'r AC Cychwynnol Blaenorol a'r Adroddiad AC ..... 48

**6. Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yr Ail GDLl diwygiedig Adneuo ..... 49**

6.1 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun Adneuo ..... 49
6.2 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Strategaeth Dwf a Ffefrir ..... 53
6.3 ACI o'r Opsiwn Gofodol a Ffefrir ..... 58
6.4 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Polisïau Strategol ..... 58
6.5 Lliniaru ac Argymhellion – Polisïau Strategol ..... 60
6.6 Polisïau Penodol ACI ..... 63
6.7 Lliniaru ac Argymhellion – Polisïau Penodol ..... 74
6.8 ACI o'r Dyraniadau Arfaethedig ..... 74
6.9 Crynodeb o'r Safleoedd a Ddyrannwyd ..... 88
6.10 Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergaidd ..... 89

**7. Crynodeb ACI ..... 95**

**8. Fframwaith Monitro ..... 97**

**9. Ymgynghori a'r Camau Nesaf ..... 114**

## Atodiadau (ar gael fel dogfennau ar wahân)

**Atodiad A: Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol**

**Atodiad B: Gwybodaeth Sylfaenol**

**Atodiad C: Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig**

**Atodiad D: Amcanion Strategol ACI**

**Atodiad E: Opsiynau Twf ACI**

**Atodiad F: Polisïau Strategol ACI**

**Atodiad G: Polisïau Penodol ACI**

**Atodiad H: Asesiad o'r Effaith ar yr iaith Gymraeg (AEIG)**

**Atodiad I: Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG)**

# Talfyriadau

| | |
|---|---|
| **AAS** | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| **AC** | Arfarniad Cynaliadwyedd |
| **ACA(au)** | Ardal(oedd) Cadwraeth Arbennig |
| **ACI** | Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig |
| **ACLI** | Awdurdodau Cynllunio Lleol |
| **AEG** | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| **ARAR** | Ardal Rheoli Ansawdd Aer |
| **ARC** | Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
| **AS** | Amcan Strategol |
| **CDLI diwygiedig** | Cynllun Datblygu Lleol (diwygiedig) (y cyfeirir ato fel y Cynllun) |
| **CMCC** | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| **CNC** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **CSC** | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **MAS** | Methodoleg Asesu Safleoedd |
| **PCC** | Polisi Cynllunio Cymru |
| **SP** | Polisïau Strategol |
| **TAN** | Nodyn Cyngor Technegol |

# 1. Rhagarweiniad

1.0.1 Y ddogfen hon yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ar gyfer 2il Gynllun Datblygu Lleol Adneuo Diwygiedig (CDLI) Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC). Mae'n cynnwys yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (AC) a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) ar y cyd, ochr yn ochr ag ystyriaeth i strategaethau ac asesiadau eraill fel yr amlinellir ym mharagraff 1.4. Mae'r AC/AAS yn broses gyfunol sy'n bodloni'r gofynion rheoliadol.

1.0.2 Diben yr asesiad hwn yw nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol arwyddocaol sy'n debygol o ganlyniad i'r CDLI, ac awgrymu mesurau lliniaru perthnasol. Mae'r broses hon yn cynnwys tegwch cymdeithasol, datblygu economaidd, gwarchodaeth amgylcheddol, a chynaliadwyedd diwylliannol ym mhob cam o'r gwaith o baratoi CDLI, ac yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn y pen draw. Mae hyn yn meithrin proses gynhwysol a thryloyw o lunio CDLI, ac yn helpu i sicrhau bod y CDLI wedi'i integreiddio â pholisïau eraill. Cyfeirir at y broses gyfunol hon o hyn ymlaen fel yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

1.0.3 Mae cwmpas daearyddol yr asesiad hwn yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin gyfan (~ 2,370 $km^2$), fodd bynnag, mae hefyd yn ystyried effeithiau traws-ffiniol gydag Awdurdodau Lleol cyfagos Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe, yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae hefyd yn ystyried y targedau a'r polisïau hynny a osodir ar Awdurdodau Lleol o lefel genedlaethol a rhyngwladol, i sicrhau y cydymffurfir â chynaliadwyedd ar bob graddfa ofodol. Nid yw'r CDLI diwygiedig yn berthnasol i'r rhan o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog sydd wedi'i lleoli yn Sir Gaerfyrddin (~ 230 $km^2$), ond mae'r asesiad hwn yn ystyried yr effeithiau ehangach posibl ar yr ardal hon a thu hwnt.

1.0.4 Yn ystod y gwaith o baratoi'r CDLI diwygiedig, y mae sawl fersiwn ohono wedi bod, mae'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd/Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig atodol wedi asesu'r holl opsiynau a ddewiswyd a dewisiadau amgen rhesymol ar gyfer eu heffeithiau tebygol ar gynaliadwyedd. Mae'r CDLI diwygiedig yn gynllun defnydd tir sy'n amlinellu lleoliad a maint y datblygiadau yn Sir Gaerfyrddin am gyfnod o 15 mlynedd rhwng 2018 a 2033. Mae'r un amserlen wedi cael ei hadlewyrchu drwy gydol yr Adroddiad ACI hwn. Mae'r Adroddiad ACI hwn yn cyd-fynd â'r Ail fersiwn Adneuo o'r CDLI diwygiedig, a dylid eu darllen ar y cyd.

1.0.5 Cyhoeddwyd yr adroddiad ACI hwn i ymgynghori yn ei gylch ym mis Chwefror 2023 ochr yn ochr â'r Ail fersiwn Adneuo o'r CDLI diwygiedig, ac mae'n disodli fersiwn flaenorol a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020. Mae'n darparu cofnod angenrheidiol o'r gwaith AC/AAS cyfunol a wnaed fel rhan o'r broses o baratoi'r Cynllun rhwng 2018 a 2023, ac mae'n cyfeirio at y dogfennau cysylltiedig a luniwyd fel rhan o'r broses ailadroddol. Mae'r dogfennau a gyhoeddwyd yn flaenorol ac a grynhoir yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Adroddiad Cwmpasu'r AC–AAS (Gorffennaf 2018)
- Adroddiad Cychwynnol yr AC–AAS (Rhagfyr 2018)
- Adroddiad AC (1af) CDLI diwygiedig (gan gynnwys atodiadau) (Ionawr 2020)

1.0.6 Gan ddilyn y dull a gymerwyd yn y dogfennau uchod, mae dull *integredig* (ACI) bellach yn amlygu'n glir y gorgyffwrdd sy'n bodoli eisoes rhwng y gofynion a'r ystyriaethau corfforedig a drafodwyd ymhellach ym mharagraff 1.4. Nodir y dull hwn yn bennaf ar ôl Pennod 5 o'r Adroddiad ACI hwn.

1.0.7 O ystyried mai un o brif ddibenion unrhyw CDLI yw cynorthwyo'r rhai fydd yn gwneud penderfyniadau yn y dyfodol i benderfynu ar ganlyniad cynigion cynllunio, mae'r un

mor bwysig bod y canfyddiadau yn yr Adroddiad ACI presennol yn cael eu defnyddio fel un o ystod o gymhorthion penderfyniadau i sicrhau datblygu cynaliadwy.

## 1.1 Gofynion Deddfwriaethol

1.1.1 Mae cwblhau Arfarniad Cynaliadwyedd yn ofyniad statudol ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol o dan Adran 62(6) o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*[1], *Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLl) (Cymru) 2005* [2]a chanllawiau cysylltiedig.

1.1.2 Mae'r *Gyfarwyddeb AAS Ewropeaidd 2001/42*[3], wedi cael ei throsi yng Nghymru drwy *Reoliadau Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004*[4] (y Rheoliadau), sy'n nodi gofyniad gorfodol i ymgymryd ag AAS ar bob cynllun datblygu. Mae'r Gyfarwyddeb yn nodi proses asesu gyfreithiol y mae'n rhaid ei dilyn. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn nodi bod yn rhaid i Arfarniad Cynaliadwyedd integreiddio gofynion Rheoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol.

1.1.3 Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn ystyried sut y caiff pedair cydran datblygu cynaliadwy (economaidd, lles cymdeithasol, diogelu/gwella'r amgylchedd a chadwraeth adnoddau) eu hintegreiddio mewn cynllun. Mae proses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar effeithiau amgylcheddol cynllun, gan gynnwys yr amgylchedd adeiledig a'r effaith ar boblogaethau ac iechyd lleol.

1.1.4 Mae Polisi Cynllunio Cymru[5] (PCC) yn pwysleisio'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol sicrhau bod y cynllun a'r cynigion yn gwireddu datblygiadau cynaliadwy. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn rhan annatod o wneud cynlluniau da ac mae'n broses ailadroddol, sy'n nodi effeithiau arwyddocaol y Cynllun ac yn adrodd arnynt ac yn dangos bod y CDLl yn gadarn drwy sicrhau ei fod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy. Trwy hynny mae'n cyfrannu at gyfiawnhau polisïau yn rhesymegol.

## 1.2 Yr Arfarniad Cynaliadwyedd a Phroses y CDLl

1.2.1 Mae canllawiau ar sut i gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd ar gyfer CDLl wedi'u cynnwys yn *Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru Argraffiad 3 (2020)*,[6] lle diffinnir Arfarniad Cynaliadwyedd fel offeryn i arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy.

1.2.2 Mae'r Llawlyfr hwn yn amlinellu pum prif gam wrth gynnal Arfarniad Cynaliadwyedd (gweler Tabl 1). Mae’r Arfarniad Cynaliadwyedd yn broses ailadroddol, sy’n arwain at sylwadau ac adborth ym mhob cam o’r CDLl, ac sy'n golygu bod modd rhoi ystyriaeth i'r goblygiadau posibl o safbwynt cynaliadwyedd yn sgil opsiynau/polisïau arfaethedig ac am broses dryloyw. Os oes angen, gellir mireinio’r CDLl diwygiedig drwy gydol y gwaith o’i baratoi i sicrhau ei fod yn ddogfen gynaliadwy.

---

[1] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
[2] Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005
[3] Cyfarwyddeb 2001/42/EC o Senedd Ewrop ac o'r Cyngor 27 Mehefin 2001 ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd
[4] Rheoliadau yr Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004
[5] Polisi Cynllunio Cymru (PCC) - Argraffiad 11 | Chwefror 2021
[6] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020

**Tabl 1 - Camau ym mhroses yr AC a'u cysylltiad â'r Cynlluniau Datblygu Lleol. Addaswyd o'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020.**

| Cam yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol | Cam y CDLl |
|---|---|
| **Cam A: Cwmpasu** | Casglu Tystiolaeth ac Amcanion |
| A1 Amlinellu cynnwys a phrif amcanion y cynllun.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC Atodiad I (a). | |
| A2: Nodi ac adolygu cynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd perthnasol eraill a fydd yn llywio'r cynllun.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC Atodiad I (a) ac (e). | |
| A3 Casglu gwybodaeth sylfaenol ar yr amodau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol, llesiant ac amgylcheddol presennol a thebygol yn y dyfodol ar y raddfa ofodol berthnasol ar gyfer y cynllun.<br>Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol i'r data sylfaenol gwmpasu *'datblygiad tebygol y cynllun hwnnw heb ei weithredu'* (Atodiad I (b)); a *'nodweddion yr ardaloedd sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol'* (Atodiad I (c)). | |
| A4 Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd sy'n berthnasol i'r cynllun.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS 2001/42/EC Atodiad I (d). | |
| A5 Datblygu fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd y gellir arfarnu'r cynllun yn ei erbyn. | |
| A6 Paratoi Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd ac ymgynghori yn ei gylch.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS Erthygl 5(4) a 6(3). | |
| **Cam B: Asesu dewisiadau amgen** | Dewisiadau Strategol a'r Strategaeth a Ffefrir |
| B1 Asesu a lliniaru effeithiau amcanion y cynllun gan ddefnyddio'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. | |
| B2 Datblygu dewisiadau amgen rhesymol.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS Erthygl 5(1) ac Atodiad I (h). | |
| B3 Asesu a lliniaru effeithiau'r dewisiadau amgen gan ddefnyddio'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I (f) and (g). | |
| B4 Dewis y dewisiadau amgen a ffefrir a rhoi amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis y dewisiadau amgen a ffefrir.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I (h). | |
| **Cam C: Asesiad o'r Cynllun Adneuo a Pharatoi'r Adroddiad Amgylcheddol** | Paratoi ac Adneuo'r CDLl |
| C1 Asesu a lliniaru effeithiau'r Cynllun Adneuo gan ddefnyddio'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Atodiad I (f) and (g). | |

| | |
|---|---|
| C2 Cynnig mesurau i fonitro'r effeithiau arwyddocaol o weithredu'r cynllun.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(c), Erthygl 10, Atodiad I (i). | |
| C3 Ymgynghori ynghylch y Cynllun Adneuo a'r Adroddiad Amgylcheddol.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 6. | |
| **Cam D : Ymgynghori, Archwilio a Mabwysiadu'r Cynllun** | Cyflwyniad Archwiliad a Mabwysiadu |
| D1 Asesu effeithiau newidiadau sylweddol a wnaed i'r cynllun Adneuo gan y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 5(2). | |
| D2(i) Wedi i'r cynllun gael ei fabwysiadu, rhaid i'r awdurdod sy'n gwneud y cynllun gyhoeddi Datganiad Ôl-fabwysiadu.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(1). | |
| **Cam E : Monitro'r effeithiau arwyddocaol o weithredu'r CDLl** | Monitro ac adolygu |
| E1 Datblygu'r nodau a'r dulliau monitro.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 9(1) (c), Erthygl 10, Atodiad I (if). | |
| E2 Ymateb i effeithiau andwyol.<br>Yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb AAS, Erthygl 10 (1). | |

## 1.3 Sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau

### Cam A

1.3.1 Cwblhaodd y Cyngor Gam A yr Arfarniad Cynaliadwyedd ym mis Gorffennaf 2018 drwy gyhoeddi Adroddiad Cwmpasu drafft yr AC i ymgynghori yn ei gylch. Roedd Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys:

- **A1: Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion y cynllun**
  Roedd Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn amlinellu gwybodaeth am Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin, ei raddfa ofodol a'i amserlen a'i brif amcanion.

- **A2 Adolygu Cynlluniau/Polisïau/Rhaglenni ac Amcanion Cynaliadwyedd**
  Archwiliwyd nifer o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni a allai fod wedi effeithio ar y CDLl diwygiedig, gan gynnwys y rheiny ar lefel ryngwladol, genedlaethol, ranbarthol a lleol, yn ogystal â Chynlluniau Datblygu Lleol awdurdodau cyfagos. Cyflwynir fersiwn wedi'i diweddaru o'r rhestr yn Atodiad A.

- **A3 Coladu Gwybodaeth Sylfaenol**
  Roedd yr adroddiad cwmpasu yn cynnwys casgliad diweddaraf o gyflwr yr amgylchedd, yr economi a'r gymdeithas yn Sir Gaerfyrddin. Mae hefyd yn ffurfio'r llinell sylfaen ar gyfer monitro canlyniadau'r CDLl diwygiedig ar ôl ei fabwysiadu. Cyflwynir fersiwn wedi'i diweddaru o'r llinell sylfaen yn Atodiad B.

- **A4 Nodi materion a phroblemau perthnasol**
  Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at faterion cynaliadwyedd, a phroblemau ond hefyd gyfleoedd y gellir mynd i'r afael â hwy drwy'r CDLl diwygiedig. Adroddir am hyn o fewn y llinell sylfaen yn Atodiad B.

- **A5 Datblygu'r Fframwaith Cynaliadwyedd**

Mae'r Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn darparu ffordd o allu disgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau cynaliadwyedd a chafodd ei ddatblygu gan ystyried y materion a'r cyfleoedd a godwyd. Mae'r Fframwaith hwn yn darparu sail y gellir ei defnyddio i brofi cynaliadwyedd y CDLI diwygiedig, ac fe'i cyflwynir yn Atodiad C.

- **A6 Ymgynghori ynghylch Cwmpas yr Arfarniad Cynaliadwyedd**
  Ar 18 Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd i ymgynghori yn ei gylch am gyfnod o chwe wythnos. Roedd ar gael i'w weld ar wefan Cyngor Sir Gaerfyrddin ac anfonwyd negeseuon e-bost a llythyron i roi gwybod am hyn i gyrff ymgynghorol a phobl a oedd wedi cofrestru i gael diweddariadau ar broses y CDLI. Cafwyd sylwadau gan nifer o randdeiliaid, a adroddwyd fel Atodiad o fewn yr Arfarniad Cynaliadwyedd cychwynnol. Gwnaed newidiadau i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (bellach) yn sgil y sylwadau hyn, lle bo hynny'n briodol, a chafodd unrhyw sylwadau yr ystyriwyd eu bod yn ymwneud i raddau mwy â'r CDLI eu nodi a'u trosglwyddo i'r swyddogion cynllunio er mwyn eu hystyried.

### Cam B

1.3.2 Cwblhaodd y Cyngor Gam B y broses Arfarnu Cynaliadwyedd ym mis Rhagfyr 2018 drwy gyhoeddi Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir. Crynhoir yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol ym Mhennod 5, ac mae'n cynnwys:

- **B1 Asesu a lliniaru effeithiau amcanion y cynllun gan ddefnyddio'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd**
  Roedd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol yn profi ac yn arfarnu amcanion Strategaeth a Ffefrir y CDLI o'u cymharu â'r Fframwaith Cynaliadwyedd.
- **B2 Datblygu dewisiadau amgen rhesymol**
  Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol wedi datblygu nifer o opsiynau strategol, ar gyfer twf a dosbarthiad gofodol, o ddealltwriaeth o'r prif faterion a nodwyd yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd.
- **B3 Asesu a lliniaru effeithiau dewisiadau amgen**
  Cafodd Gweledigaeth, Opsiynau Twf Strategol, Opsiynau Gofodol a Pholisïau Strategol Strategaeth a Ffefrir y CDLI eu hasesu yn erbyn amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Nodwyd mesurau lliniaru hefyd yn ogystal â chyfleoedd.
- **B4 Gwerthuso effeithiau dewisiadau'r CDLI**
  Trafodwyd a chyfiawnhawyd y rhesymau dros ddewis y dewis amgen a ffefrir a gwrthod y dewisiadau amgen eraill.

DS: Er nad yw geiriad yr Amcanion ACI yn newid, mae *dull* integredig yn dilyn y cam hwn bellach yn tynnu sylw at y gorgyffwrdd sy'n bodoli eisoes rhwng strategaethau ac asesiadau eraill. Mae dylanwadau ar wneud penderfyniadau wedi'u diweddaru.

### Cam C

1.3.3 Mae'r adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig hwn ar y CDLI Adneuo wedi cael ei baratoi i gydymffurfio â Cham C y broses Arfarnu Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, a chaiff ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Ail Gynllun Adneuo ar gyfer y CDLI diwygiedig.

- **C1 Asesu a lliniaru effeithiau'r CDLI Adneuo**

Bydd yr adroddiad hwn yn gwerthuso'r effeithiau arwyddocaol yn sgil polisïau'r CDLl Adneuo a'r safleoedd datblygu, yn rhai cadarnhaol a negyddol fel ei gilydd. Pan ganfyddir bod polisi neu safle yn cael effaith negyddol, caiff mesurau lliniaru eu nodi. Cofnodir hyn ym Mhenodau 6.5 a 6.7 yr adroddiad hwn yn ogystal ag Atodiadau 5 a 7.

- **C2 Cynnig mesurau i fonitro'r effeithiau arwyddocaol yn sgil gweithredu'r cynllun.**
  Trafodir hyn ym Mhennod 8 yr adroddiad hwn.
- **C3 Ymgynghori ynghylch y Cynllun Adneuo a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig.**
  Ymgynghorir ynghylch yr adroddiad ACI hwn ochr yn ochr â Chynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig am gyfnod o chwe wythnos.

## 1.4 Cysylltiadau â Strategaethau ac Asesiadau eraill

1.4.1 Mae'r Adroddiad AC/ASS hwn yn cynnwys y gofynion dan *Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol 2015*[7], *Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*[8], *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20* [9][10], ac ystyriaethau o dan *Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017*, [11]mewn un ACI unigol, nad yw'n gynhwysfawr, sy'n galluogi asesiad mwy tryloyw a chyfannol o oblygiadau cynaliadwyedd yr opsiynau twf, amcanion, polisïau, a chynigion a gynhwysir yn y CDLl diwygiedig.

1.4.2 Cafodd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC) ei gynnal yn gyfochrog â'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig ond nid yw wedi'i integreiddio â'r adroddiad hwn gan ei fod yn defnyddio mecanwaith profi rhagofalus gwahanol. Serch hynny, bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn yn crynhoi canfyddiadau'r ARC fel rhan o'i asesiad o effeithiau ar fioamrywiaeth.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.4.3 Fel yr amlinellir yn *Neddf Cynllunio (Cymru) 2015* [12], rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ac Awdurdodau Cynllunio Lleol hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol at ddibenion sicrhau bod datblygu a defnyddio tir yn cyfrannu at wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn diffinio datblygu cynaliadwy fel y *'broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant'*. Roedd y nodau llesiant (Ffigur 1) yn rhan annatod o baratoi'r Fframwaith ACI.




**Ffigur 1 Saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**

[7] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[8] Deddf Cydraddoldeb 2010
[9] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[10] Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg
[11] Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017
[12] Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

1.4.4 Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae'n nodi pum ffordd o weithio sydd eu hangen er mwyn i Gyrff Cyhoeddus gyflawni'r saith nod llesiant, sef:

- Edrych i'r *tymor hir* i sicrhau nad ydynt yn amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion;
- Deall achosion sylfaenol problemau er mwyn eu hatal rhag codi neu waethygu;
- Mabwysiadu *dull integredig* fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant;
- *Cynnwys* amrywiaeth y boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt; a
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd *gydweithredol* i ganfod atebion cynaliadwy cyffredin.

1.4.5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, y mae'n ofynnol iddynt asesu cyflwr llesiant ar lefel leol, gosod amcanion, a llunio cynllun a ddyluniwyd i wella llesiant yn lleol. Cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gâr ei gynllun[13] llesiant yn 2018 a gosod y pedwar amcan canlynol:

- Arferion Iach: Mae gan bobl ansawdd bywyd da, ac maent yn gwneud dewisiadau iach ynglŷn â'u bywydau a'u hamgylchedd;
- Ymyrraeth Gynnar: Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth iawn ar yr adeg iawn; pan fydd ei angen arnynt;
- Cysylltiadau Cryf: Pobl, lleoedd a sefydliadau sydd â chysylltiadau cryf rhyngddynt ac sy'n gallu addasu i newid; a
- Pobl a Lleoedd Ffyniannus: Gwneud y gorau o gyfleoedd i bobl a lleoedd mewn rhannau trefol a gwledig o'n sir fel ei gilydd.

1.4.6 I gefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau llesiant, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi '*creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol'*[14]. Mae'r adnodd hwn yn canolbwyntio ar chwe maes blaenoriaeth o'r amgylchedd adeiledig a naturiol a all effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a llesiant, a'r rhain yw:

- Seilwaith cerdded a beicio;
- Mannau agored a seilwaith glas gwyrdd;
- Tyfu bwyd a'r amgylchedd manwerthu;
- Y gwasanaethau cymunedol, iechyd, a gofal cymdeithasol a ddarperir o gyfleusterau lleol;
- Lefelau isel o lygredd aer; a
- Dylunio adeiladau cynaliadwy.

1.4.7 Rhaid i gyfraniad tuag at gyflawni'r nodau a'r amcanion llesiant cenedlaethol, ochr yn ochr â'r pum ffordd o weithio a chynnwys Cynllun Llesiant Sir Gâr, fod yn gynhenid drwy gydol cyfnod datblygu'r CDLl diwygiedig ac asesiadau cysylltiedig (e.e. ACI, ARC ac ati) er mwyn cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ogystal, bydd y CDLl diwygiedig yn ystyried amcanion [15]llesiant y Cyngor ei hun.

---

[13] Asesiad Llesiant Sir Gaerfyrddin 2017 a Chynllun 2018-2023

[14] Creu lleoedd a mannau iachach ar gyfer cenedlaethau heddiw a'r dyfodol I Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2018.

[15] Amcanion llesiant I Cyngor Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire County Council

## Y Gymraeg

1.4.8 Mae bellach yn ofyniad deddfwriaethol bod rhaid i'r Arfarniad Cynaliadwyedd gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg (Adran 62(6A) o *Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004*[16] fel y'i mewnosodwyd gan adran 11, PWA 2015). Y broses Arfarnu Cynaliadwyedd yw'r mecanwaith ar gyfer ystyried sut y mae graddfa a lleoliad twf, y weledigaeth, yr amcanion, y polisïau a'r cynigion yn unigol ac yn gyfunol, yn effeithio ar y Gymraeg. Lle mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd effaith andwyol ar y defnydd o'r Gymraeg, gall yr ACLl asesu a ddylid newid y strategaeth a/neu a ddylid nodi mesurau lliniaru.

1.4.9 I ategu'r gwaith o asesu'r Gymraeg yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, mae Asesiad manylach o'r Effaith ar y Gymraeg hefyd wedi'i gynnal i gefnogi'r dystiolaeth ac i asesu'r effaith ar strategaethau a pholisïau cysylltiedig. O asesu'r CDLl Adneuo Cyntaf, gwnaed newidiadau polisi penodol sy'n effeithio ar y Gymraeg ar sail canfyddiadau'r Asesiad blaenorol a gynhaliwyd gan Iaith a Burum[17]. Parhaodd dull ailadroddol rhwng proses yr ACI a'r Asesiad ar gyfer yr ail GDLl diwygiedig Adneuo. Unwaith eto, cafodd y gwaith ei wneud gan Iaith a Burum, a bydd casgliadau'r asesiad diweddaraf hwn, lle bo hynny'n berthnasol, yn cael eu mabwysiadu yn yr ACI, a dylid cyfeirio at yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y dystiolaeth gefnogol a'r sylwebaeth o ran yr effaith ar y Gymraeg[18].

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

1.4.10 Mae *Deddf Cydraddoldeb 2010* yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Cyhoeddus asesu effaith polisïau ar wahanol grwpiau poblogaeth i sicrhau nad yw gwahaniaethu yn digwydd a, lle y bo'n bosibl, hyrwyddo cyfle cyfartal (y cyfeirir atynt fel y Ddyletswydd Cydraddoldeb – Adran 149) a sicrhau canlyniadau gwell i'r rhai sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol (Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol – Adrannau 1 i 3). Mae'r Ddeddf yn gofyn am roi *sylw dyledus* yn ystod y broses o wneud penderfyniadau, ac, felly, sgrinio'r naw nodwedd[19] warchodedig i nodi pa nodweddion y gall y CDLl ddylanwadu arnynt. Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar gyfer y CDLl diwygiedig hefyd yn cynnwys y Gymraeg.

1.4.11 Mae'n bwysig hefyd nodi fod awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddyletswydd Gydraddoldeb yn debygol hefyd o fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau o dan y *Ddeddf Hawliau Dynol 1998*[20], ac felly mae ystyriaeth hefyd wedi'i rhoi i gynnwys yr effaith bosibl gallai penderfyniadau ei chael ar hawliau dynol fel rhan o'r un broses.

## Asesiad o'r Effaith ar Iechyd

1.4.12 Mae *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017* yn amlinellu'r amgylchiadau pan fo rhaid i Gorff Cyhoeddus gynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd. Mae'r Ddeddf yn diffinio Asesiad o'r Effaith ar Iechyd fel *"asesiad o'r effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, o gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol a meddyliol pobl Cymru neu o rai o bobl Cymru".* Mae'r Gyfarwyddeb AAS (Atodiad I (f)) yn ei gwneud yn ofynnol i iechyd dynol gael ei ystyried fel rhan o'r asesiad o effeithiau amgylcheddol. Felly, er nad oes gofyniad penodol i gyflawni Asesiad o'r fath, mae'r elfen iechyd o'r

---

[16] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
[17] Asesiad o Effaith CDLl Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg. Rhagfyr 2019.
[18] Asesiad o Effaith CDLl diwygiedig Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg. 2023.
[19] Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol (Deddf Cydraddoldeb 2010).
[20] Deddf Hawliau Dynol 1998

AAS wedi cael ei hehangu i gynnwys amcanion iechyd meddwl a chorfforol yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

1.4.13 Fel yr amlinellir gan Ganllawiau'r UE (2022), dylid ystyried y cysyniad o iechyd dynol yng nghyd-destun y gydberthynas rhwng yr holl ffactorau AAS a nodir yn Atodiad I (f) [21]ac felly, mae'n rhaid i faterion anuniongyrchol sy'n deillio o weithredu polisïau hefyd ystyried materion iechyd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd megis dod i gysylltiad â sŵn traffig, llygryddion aer, a halogi dŵr.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

1.4.13 Mae adran 6 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016* yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Cyhoeddus sy'n arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru feddu ar ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau (cyfeirir at hyn fel Dyletswydd Adran 6). Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon, mae Canllawiau Llywodraeth Cymru[22] yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Cyhoeddus gynnwys yr ystyriaeth o fioamrywiaeth ac ecosystemau ar y dechrau ac wrth gynllunio busnes, gan gynnwys mewn unrhyw bolisïau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal â'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

1.4.14 Dan Ran 1 o *Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016*, lluniwyd Datganiadau Ardal gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n cwmpasu'r ardal Forol a chwe rhanbarth tirol yng Nghymru. Mae Datganiad Ardal De-orllewin Cymru (SWWAS) yn cynnwys awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, ac Abertawe, sy'n cynrychioli 22% o boblogaeth y wlad a 23% o'r tir.

1.4.15 Cynhyrchwyd y SWWAS yn 2020 yng nghyd-destun datganiad argyfwng hinsawdd a natur Llywodraeth Cymru. O'r herwydd gwnaed newidiadau i'r CDLl diwygiedig, sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Datganiad a natur gysylltiedig y ddau argyfwng hyn sydd ynddynt eu hunain yn symptomau o reoli adnoddau a datblygiad naturiol anghynaladwy, ar draul cenedlaethau'r dyfodol. Mae angen dull systemau cyfan er mwyn addasu i'r argyfyngau hinsawdd a natur, ac o'r herwydd mae'r ddau fater yn rhan o holl themâu SWWAS sy'n lleihau anghydraddoldebau iechyd; Sicrhau dulliau cynaliadwy o reoli tir; Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a'i gwella; a thema drawsbynciol: Addasu i newid yn yr hinsawdd a'i leihau.

## Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019

1.4.16 Mae *Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru 2019* [23] (CMCC) yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer datblygu moroedd Cymru mewn modd cynaliadwy. Fe'i mabwysiadwyd o dan *Ddeddf Mynediad Morol ac Arfordirol (MCAA) 2009* yn unol ag Adran 51 ac Atodlen 6 o'r Ddeddf, a chan gydymffurfio â *Datganiad Polisi Morol y DU*[24]. Defnyddir y CMCC i lywio penderfyniadau'r Awdurdod Lleol, ac, felly, mae'r Cynllun Morol wedi cael ei ystyried wrth adolygu polisïau.

[21] Canllawiau ar weithredu Cyfarwyddeb 2001/42/EC ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd
[22]Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 I Canllawiau ar gyfer Adran 6 I Llywodraeth Cymru
[23] Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru I Llywodraeth Cymru
[24]Canllawiau statudol I Datganiad Polisi Morol

## Yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARC)

1.4.17 O dan y *Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC)* [25], rhaid asesu'r CDLl diwygiedig i weld a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Ewropeaidd neu safle morol Ewropeaidd (EMS), naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, ac yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Trosir y Gyfarwyddeb i gyfraith Cymru drwy'r *Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau, 2017* [26]. Os bernir bod y CDLl yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd, rhaid iddo fod yn destun *asesiad priodol* o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

1.4.18 Mae'r Sir yn cynnwys deuddeg safle a warchodir gan Ewrop. Ystyriwyd yr effeithiau posibl ar safleoedd Ewropeaidd o gamau cynharaf y broses o wneud y cynllun a chynhaliwyd gwaith sgrinio rhagarweiniol ar y Strategaeth a Ffefrir ym mis Rhagfyr 2018. Mae'r Cynllun Adneuo wedi bod yn destun gwaith sgrinio o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a chyhoeddir yr adroddiad ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo. Casgliadau'r ymarfer sgrinio hwn, a'r asesiad priodol dilynol, yw na fydd y Cynllun Adneuo yn cael unrhyw effaith arwyddocaol debygol, naill ai'n unigol neu'n gyfunol, ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd.

1.4.19 Mae gwaith sgrinio anffurfiol o'r ARC wedi bod yn ddylanwadol o ran gallu dod i gasgliad ffafriol ynghylch sgrinio'r Cynllun Adneuo. Mae'r ymagwedd ailadroddol tuag at ARC wedi hwyluso'r broses o nodi materion posibl fel bod modd i'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Adneuo gael ei lywio gan risgiau posibl i safleoedd Ewropeaidd.

[25] Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC o 21 Mai 1992 ar warchod cynefinoedd naturiol ac anifeiliaid a phlanhigion gwyllt
[26] Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd)

# 2. Methodoleg

## 2.1 Dull

2.1.1 Mae methodoleg yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi cyfeirio at ganllawiau a ddarparwyd mewn nifer o ddogfennau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru, Argraffiad 3 (2020) [27]
- *Sustainability Appraisal of Regional Spatial Strategies and Local Development Documents ODPM (2005)* [28]
- *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive ODPM (2005)* [29]
- *Improving the Effectiveness and Efficiency of SEA/SA for Land Use Plans,* Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (2018) [30]
- Canllawiau'r UE ar Integreiddio Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth i Asesiad Amgylcheddol Strategol (2013) [31]
- Canllawiau'r UE ar weithredu Cyfarwyddeb 2001/42/EC ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd (2022) [32]
- Asesiad amgylcheddol yr UE o gynlluniau a rhaglenni penodol: Cyfarwyddeb 2001/42/EC (Cyfarwyddeb 'AAS') dyfarniadau Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (2022) [33]

## 2.2 Ymgymryd â'r ACI

2.2.1 Mae Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig yn broses ailadroddol ac mae canlyniadau'r arfarniadau wedi helpu i lywio fersiwn derfynol yr Ail CDLI diwygiedig Adneuo a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Lle nad yw elfennau o'r CDLI diwygiedig wedi newid o'r Strategaeth a Ffefrir Cyn-Adneuo (a gyhoeddwyd i ymgynghori yn ei gylch ym mis Rhagfyr 2018) a'r CDLI diwygiedig Adneuo Cyntaf (a gyhoeddwyd i ymgynghori yn ei gylch ym mis Ionawr 2020), mae'r arfarniad AC blaenorol yn parhau i fod yn ddilys a chyfeirir pobl ato neu fe'i atgynhyrchir yn yr Adroddiad ACI hwn – fel yr amlinellir ymhellach ym Mhennod 5. Mae Pennod 6 yn adlewyrchu arfarniad o'r elfennau hynny yn yr Ail CDLI diwygiedig Adneuo sy'n newydd, wedi'u newid o ganlyniad i ymgynghori, ac neu yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol oherwydd y data gwaelodlin wedi'i ddiweddaru.

## 2.3 Y Fframwaith Cynaliadwyedd Integredig

2.3.1 Mae Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn darparu sail gyson ar gyfer disgrifio, dadansoddi a chymharu effeithiau amcanion, opsiynau, polisïau penodol a chynigion y CDLI diwygiedig ar gynaliadwyedd. Caiff y Fframwaith ei arwain gan amcanion, ac felly caiff yr amcanion ac opsiynau strategol eu hasesu o ran eu cyfraniad at gyflawni amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig.

2.3.2 Mae'r fframwaith yn nodi amcanion cynaliadwyedd sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn ac sy'n adlewyrchu'r heriau a wynebir ym maes y cynllun. Datblygwyd yr

[27] Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) Mawrth 2020 | LLYW. CYMRU
[28] Sustainability appraisal of regional spatial strategies and local development documents, Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog - Mynegai Cyhoeddi | NBS (thenbs.com)
[29] A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive (publishing.service.gov.uk)
[30] RTPI | Asesiad Amgylcheddol Strategol: AAS/AC ar gyfer Cynlluniau Defnydd Tir
[31] Canllawiau ar integreiddio newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth i asesiad amgylcheddol strategol - Swyddfa Cyhoeddiadau'r UE (europa.eu)
[32] Canllawiau AAS (europa.eu)
[33] Asesiad amgylcheddol o gynlluniau a rhaglenni penodol - Swyddfa Cyhoeddiadau'r UE (europa.eu)

amcanion wrth ystyried y cyfraniadau canlynol, ac mae pob un wedi'i nodi yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd:

- Adolygu Cynlluniau, Rhaglenni a Pholisïau
- Gwybodaeth Sylfaenol
- Materion a chyfleoedd cynaliadwyedd a nodwyd
- Ymatebion ac adborth yn sgil ymgynghori â chyrff ymgynghorol a'r cyhoedd

2.3.3 Darperir y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd llawn yn Atodiad C. I grynhoi, mae'r amcanion yn adlewyrchu'r pynciau a nodir yn Atodlen 2 o'r *Gyfarwyddeb AAS* yn ogystal ag amcanion ychwanegol ynglŷn ag elfennau integredig, newid yn yr hinsawdd a ffactorau economaidd-gymdeithasol, ymysg eraill. Dangosir 15 Amcan yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig sy'n ffurfio'r fframwaith yn Nhabl 2, yn ogystal â'r mater cyfatebol yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol a'r elfennau integredig sy'n ymwneud â nhw.

2.3.4 I gynorthwyo'r broses asesu cefnogir pob amcan gan nifer o is-amcanion a 'meini prawf gwneud penderfyniadau' cysylltiedig, a fydd yn hwyluso'r broses asesu ac o gymorth i ddehongli'r prif amcan. Er yn parhau'n gyfannol o ran cwmpas a heb fireinio'n gyfan gwbl ystyriaeth elfennau integredig (ac effeithiau posibl cysylltiedig hynny) i is-amcanion penodol, mae integreiddio gofynion o dan y Gymraeg yn eglur o fewn is-amcanion 10-1, 10-2, 10-3, 11-1; ac ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) (yn cynnwys dyletswyddau cysylltiedig) drwy 6-3, 10-1, 10-2, 10-3, 11-1, 13-1, 13-2, 13-3, 14-2, 15-2, 15-3, 15-4; ymysg eraill. Yn ogystal, mae ystyriaethau a amlinellir ym mharagraff 1.4 yn cael eu cwmpasu ar y cyd ym meini prawf gwneud penderfyniadau ACI1, trwy'r drafodaeth ynghylch a fydd y CDLI yn annog anghenon i gael eu bodloni'n lleol. Felly, yn hyn o beth, ni ellir cyflawni datblygiad gwirioneddol gynaliadwy oni bai bod y CDLI diwygiedig yn debygol o gael effaith gadarnhaol a chytbwys gyfannol ar y Sir, fel y penderfynir trwy'r arfarniad hwn a'r elfennau sy'n rhan annatod ohono.

**Tabl 2 – Amcanion ACI a'u perthynas â Materion Cyfarwyddeb AAS a rhannau o'r elfennau integredig. * = gan gynnwys y Dyletswyddau Cydraddoldeb ac Economaidd-gymdeithasol.**

| | Amcan yr ACI | ACI1 – Datblygu Cynaliadwy | ACI2 – Bioamrywiaeth | ACI3 – Ansawdd Aer | ACI4 - Ffactorau Hinsoddol | ACI5 – Dŵr | ACI6 - Asedau Materol | ACI7 - Pridd | ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | ACI9 – Tirwedd | ACI10 – Poblogaeth | ACI11 Y Gymraeg | ACI12 – Iechyd a Llesiant | ACI13 - Addysg a Sgiliau | ACI14 – Yr Economi | ACI15 - Gwead Cymdeithas |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Materion Cyfatebol yr AAS | | Bioamrywiaeth, ffawna, fflora | Aer | Ffactorau hinsoddol | Dŵr | Asedau materol | Pridd | Treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol…. | Tirwedd | Poblogaeth | | Iechyd dynol | | | |
| | **Elfennau Integredig Amcan ACI** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Cydlynol | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X |
| | Diwylliant / Iaith | X | | | | | X | | X | X | X | X | X | X | | X |
| | Cyfrifol | X | X | X | X | X | X | X | X | X | X | | | | X | |
| | Llewyrchus | X | | | | | X | | X | X | X | | | X | | X |
| | Gwydn | X | X | X | X | X | X | X | | X | X | | X | X | X | X |
| | Iachach | X | X | X | X | X | X | X | | X | X | | X | | | X |
| | Cyfartal | X | | X | X | X | X | | | X | X | | X | X | X | X |
| | Y Gymraeg | X | | | | | | | | X | X | X | | | | X |
| | AEG* | X | | | | | X | | | | X | X | X | X | X | X |
| | Iechyd Meddwl | X | | | | | X | | | | X | | X | | | X |
| | Datganiad Ardal | X | X | X | X | X | | X | | X | X | | X | | X | X |
| | Dyletswydd Adran 6 | X | X | X | X | X | | X | | X | | | | | | |

## 2.4 Pennu Arwyddocâd Effaith

2.4.1 Mae rhagfynegi effeithiau yn cynnwys nodi newidiadau i'r llinell sylfaen amgylcheddol y rhagfynegir y byddant yn codi yn sgil gweithredu'r cynllun, gan gynnwys unrhyw ddewisiadau amgen. Mae Atodiad II o'r *Gyfarwyddeb AAS* yn nodi meini prawf ar gyfer pennu effeithiau arwyddocaol tebygol. Maent yn gyfuniad o:

- **Maint** effeithiau'r cynllun, gan gynnwys i ba raddau mae'r cynllun yn gosod fframwaith ar gyfer prosiectau, i ba raddau mae'n dylanwadu ar gynlluniau eraill, a phroblemau amgylcheddol sy'n berthnasol i'r cynllun.
- **Sensitifrwydd** yr amgylchedd dan sylw, gan gynnwys gwerth yr ardal a pha mor agored ydyw i niwed, safonau ansawdd amgylcheddol y rhagorwyd arnynt, ac effeithiau ar ardaloedd neu dirweddau dynodedig.
- **Nodweddion yr effaith**, gan gynnwys tebygolrwydd, hyd, amlder, y gallu i'w gwyrdroi, effeithiau cronnus, effeithiau traws ffiniol, risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd, a maint a graddau gofodol yr effeithiau.

2.4.2 O gofio cwmpas eang cynigion y cynllun a pha mor anodd yw gwahanu achosion eraill yr effeithiau, mae'n bosib mai dull ansoddol yw'r dull mwyaf ystyrlon a chwmpasog. Fodd bynnag, nid yw ansoddol yn golygu 'wedi'i ddyfalu' ac mae angen i ragfynegiadau gael eu cefnogi gan dystiolaeth. Pan fydd y dystiolaeth wedi cael ei hystyried, mae'n rhaid ffurfio barn ynghylch a yw'r effaith a ragwelir yn un arwyddocaol ai peidio. Mae Ffigur 2 yn darparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i farnu arwyddocâd yn gyson a chan sicrhau bod rhagfynegi, pendantrwydd, gwerthuso a lliniaru wedi'u cynnwys yn yr arfarniad.




**Ffigwr 2 – Y Broses ACI yn asesu effeithiau'r CDLI diwygiedig a'i elfennau (wedi'i addasu o *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive ODPM (2005)).***

## 2.5 Amserlenni

2.5.1 Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i'r dadansoddiad o effeithiau gynnwys *'effeithiau tymor byr, tymor canolig a thymor hir, parhaol a thros dro'* (Atodiad I(f)). Gall effeithiau amrywio dros wahanol amserlenni, e.e. effeithiau tymor byr andwyol o ganlyniad i darfu ar gynefinoedd ond effeithiau buddiol tymor hir ar ffurf gostyngiadau mewn llygredd aer neu nwyon tŷ gwydr. Felly, bydd yr ACI yn ystyried effeithiau dros dair amserlen.

- Tymor Byr: 0 - 5 mlynedd;
- Tymor Canolig: 6 - 10 mlynedd;
- Tymor Hir: 11 - 20 mlynedd.

2.5.2 Er mwyn hwyluso cymharu, cafodd amserlenni eu safoni ac maent, felly, yn gyson drwy gydol yr asesiad hwn. Fodd bynnag, er gwaethaf yr amserlenni diffiniol a nodir uchod, mae'r effeithiau hynny a allai fod yn fwy nag 20 mlynedd yn cael eu cynnwys fel Tymor Hir (yn hynod berthnasol ar gyfer llygredd aer a newid yn yr hinsawdd).

## 2.6 Senario Sylfaenol

2.6.1 I fodloni gofynion yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (Rheoliadau AAS – Rheoliad 12 ac Atodlen 2(2)) mae angen nodi datblygiad tebygol ardal y cynllun pe na byddai cynllun diwygiedig yn cael ei weithredu. Mae sefydlu beth gallai'r sefyllfa fod heb y CDLl diwygiedig (h.y. y senario busnes fel arfer) yn cynnwys gofyn sut y gallai polisïau, arferion a thueddiadau presennol newid yn y dyfodol heb unrhyw ymyrraeth weithredol trwy'r CDLl. Dylid defnyddio'r sefyllfa busnes fel arfer fel llinell sylfaen i gymharu goblygiadau a pherfformiad opsiynau eraill. Gan fod hyn yn ddiwygiad o'r CDLl presennol, y llinell sylfaen a ddefnyddir wrth ystyried yr holl opsiynau a pholisïau yw sut y byddai'r ardal yn newid o dan y cynllun datblygu presennol heb gyflwyno polisïau newydd. Byddai'r cynllun presennol yn rhedeg rhwng 2006 a 2021, ac ar ôl hynny, ni fyddai cynllun ar waith oni bai bod y CDLl diwygiedig wedi'i fabwysiadu ac, felly, dyma'r senario sylfaenol.

2.6.2 Cynhaliwyd yr arfarniad hwn drwy ystyried cynlluniau, rhaglenni a pholisïau presennol sydd ar waith yn rhan o'r senario sylfaenol. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol ei bod yn bosibl y bydd rhai o'r cynlluniau, y rhaglenni a'r polisïau hyn eisoes yn lliniaru rhai o'r effeithiau negyddol a all ddigwydd o ganlyniad i'r CDLl diwygiedig ac ystyriwyd hyn yn rhan o'r asesiad. Ceir rhestr lawn o gynlluniau, rhaglenni a pholisïau perthnasol yn Atodiad A. Rhoddir ystyriaeth i bolisi cynllunio cenedlaethol presennol gan gynnwys Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) cysylltiedig.

## 2.7 Matricsau Effaith

2.7.1 Er mwyn profi i ba raddau y mae'r opsiynau strategol a'r polisïau o fewn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig yn cyd-fynd, defnyddiwyd matricsau i grynhoi'r arfarniad trwy ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir yn Nhabl 3. Nodir y modd y mae'r amcanion, y polisïau, a'r safleoedd yn cyfrannu at gyflawni amcanion y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig gan ddefnyddio'r symbolau canlynol:

**Tabl 3 - Mae meini prawf asesu yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar gyfer polisïau drafft a dewisiadau amgen rhesymol, fel y'u haddaswyd o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru Rhifyn 3 (2020).**

| Symbol | Effaith a Ragfynegir | Camau/ymateb a awgrymir |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol iawn – byddai testun yr arfarniad o help mawr i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol iawn ymhellach |
| + | Effaith gadarnhaol – byddai testun yr arfarniad yn helpu i gyflawni'r amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol ymhellach |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o'r amcan Cynaliadwyedd ond yn llesteirio elfennau eraill. | Ystyried camau lliniaru ar gyfer yr effeithiau negyddol ac a ellir gwella'r effeithiau cadarnhaol |
| - | Effaith negyddol – byddai testun yr arfarniad yn amharu ar yr amcan Cynaliadwyedd. | Ystyried camau lliniaru fel dileu/ailystyried/diwygio y polisi neu'r dyraniad safle; ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig. |
| -- | Effaith negyddol iawn – byddai testun yr arfarniad yn amharu'n sylweddol ar yr amcan Cynaliadwyedd. | Dulliau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith; ailystyried y polisi neu'r defnydd arfaethedig |
| I | Bydd effaith ar yr amcan Cynaliadwyedd yn dibynnu ar sut y gweithredir y polisi a'r dyraniad | Awgrymiadau ar gyfer gweithredu |
| 0 | Effaith niwtral o gymharu â'r sefyllfa bresennol | Ystyried a allai ymyrraeth ddod ag effeithiau cadarnhaol |
| ? | Effaith ansicr - mae angen rhagor o wybodaeth | Ystyried o ble bydd hyn yn dod – gan bwy mae'r wybodaeth? Sut y caiff ei chasglu? Pryd y caiff ei chasglu? |

2.7.2 Datblygwyd meini prawf asesu ar wahân i asesu meini prawf penodol i'r safle, yn ogystal â'r dewisiadau twf a ffefrir a Fframwaith Monitro yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Mae'r dull hwn wedi'i amlinellu yn Adran 6.8, Adran 6.2, a Phennod 8. Er eglurder, oni nodir matricsau gwahanol fel arall, roedd y canlyniadau asesu a geir trwy gydol y ddogfen hon yn defnyddio'r meini prawf a amlinellir yn Nhabl 3. Lle bo'n briodol, mae atodiadau'n cynnwys eu matricsau effaith priodol er hwylustod pellach.

2.7.3 Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i ddadansoddi *'effeithiau eilaidd, cronnus, synergyddol,......parhaol a thros dro, cadarnhaol a negyddol"* (Atodiad I(f). Mae Tabl 4 yn amlinellu'r diffiniad o effeithiau eilaidd (neu anuniongyrchol), cronnol a synergaidd, fel y'u hystyrir yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig hwn. Mae'r rheiny a nodwyd yn yr asesiad hwn yn cael eu crynhoi yn Adran 6.9, er eu bod wedi tarddu o sylwebaethau perthnasol.

**Tabl 4 - Diffiniadau o Effeithiau Eilaidd, Cronnol a Synergaidd. Addaswyd o *A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive, ODPM (2005).***

| | |
|---|---|
| Eilaidd (neu anuniongyrchol) | Effeithiau nad ydynt yn ganlyniad uniongyrchol i'r cynllun ond sy'n digwydd i ffwrdd o'r effaith wreiddiol neu o ganlyniad i lwybr cymhleth |
| Cronnol | Mae effeithiau'n codi, er enghraifft, lle mae gan sawl datblygiad effeithiau ansylweddol ond sydd gyda'i gilydd yn cael effaith arwyddocaol; neu lle mae gan nifer o effeithiau unigol o'r cynllun (e.e. sŵn, llwch a gweledol) effaith gyfunol. |
| Synergaidd | Mae effeithiau yn rhyngweithio i gynhyrchu cyfanswm effaith sy'n fwy na swm yr effeithiau unigol. |

## 2.8 Camau Lliniaru ac Argymhellion

2.8.1 Lle tybir bod hynny'n briodol, argymhellir mesurau lliniaru sy'n cyd-fynd â'r hierarchaeth liniaru (i osgoi, lleihau, neu wrthbwyso, mewn trefn ddilynol) i fynd i'r afael ag effeithiau andwyol tebygol yr opsiynau/polisïau arfaethedig a gynhwysir yn y CDLl diwygiedig. Yn ogystal, nodwyd cyfleoedd gwella posibl hefyd, a gwnaed argymhellion pellach (fel yr amlygwyd yn Ffigwr 2). Nodir y rhain yn bennaf yn y priod sylwebaethau o'r pwnc a arfarnwyd. O ystyried y datblygiad ailadroddol rhwng y CDLl diwygiedig a'r broses ACI, adroddwyd mesurau lliniaru a gwella ar sail ad hoc parhaus, a chafwyd cydweithio rhwng y rhai oedd yn gyfrifol am ymgymryd â'r CDLl diwygiedig/ACI, er mwyn unioni yn y modd gorau y materion andwyol tebygol.

## 2.9 Cyfyngiadau ac Ansicrwydd Technegol

2.9.1 Fel y nodir yng Nghanllawiau'r UE ar Integreiddio Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth i Asesiad Amgylcheddol Strategol (2013)[34], mae newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth yn cynnwys systemau cymhleth sy'n cael eu plethu ag ystod o agweddau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol eraill ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Felly, nid yw'r cymhlethdod hwn o faterion cysylltiedig a pherthynas achos-effaith yn gyfyngedig i ACI4 ac ACI2. Mae dylanwadau gwneud penderfyniadau o fewn Fframwaith ACI yn cynnwys y rhai a argymhellir o fewn y Canllawiau UE hyn (h.y. a yw gweithredu'r cynllun/polisi arfaethedig yn debygol o gael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol uniongyrchol sylweddol ar gyflwr disgwyliedig yr amgylchedd yn y dyfodol yn ardal yr astudiaeth?; a yw gweithredu'r cynllun/polisi arfaethedig yn debygol o newid ysgogwyr neu dueddiadau yn sylweddol yn y materion allweddol?) i gynorthwyo yn yr arfarniad a helpu i nodi effeithiau posibl. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau pan gânt eu nodi yn cael eu dogfennu a'u trafod.

2.9.2 Gall rhywfaint o ansicrwydd barhau o ran rhagweld effeithiau a phenderfynu ar arwyddocâd. Ochr yn ochr â'r amrywiad cymhleth mewn systemau naturiol a sut mae'r amgylchedd dynol yn dylanwadu arnynt, ystyrir absenoldeb data digonol a bennir i'r cyd-destun lleol a/neu'r ddealltwriaeth wyddonol gyfredol i benderfynu ar achos effeithiau canfyddedig. Felly, derbynnir bod lefel y risg a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag effeithiau cronnus yn cynyddu ar y lefel strategol oherwydd bod y cwmpas yn ehangach, a'r materion fel arfer yn fwy. Lle mae hyn wedi digwydd, nodir yr ansicrwydd o fewn y matricsau arfarnu (fel y dangosir yn Nhabl 3) ac, er mwyn bod yn ofalus, mae mesur lliniaru yn cyd-fynd â/r matrics i adfer effeithiau andwyol posibl. Serch hynny, nid yw ansicrwydd o ran rhagweld effeithiau a phenderfynu ar arwyddocâd yn effeithio ar gadernid yr adroddiad hwn.

2.9.3 I helpu i oresgyn ffactorau anhysbys o fewn y fframwaith monitro arfaethedig, defnyddiwyd dangosyddion dirprwyol pan nad yw dangosyddion uniongyrchol ar gael ar hyn o bryd (e.e. osôn ar lefel y ddaear). Yn ogystal, byddai'r lwfansau a wnaed ar gyfer rheoli addasol yn ystod y cyfnod monitro (fel y trafodwyd yn ddiweddarach ym Mhennod 8) yn galluogi cymryd camau adfer priodol mewn ymateb i newidiadau yn y dyfodol ac effeithiau andwyol nas rhagwelwyd.

2.9.4 Oherwydd yr amseru wrth baratoi'r adroddiad ACI presennol hwn, ni chafodd data demograffeg a mudo o Gyfrifiad 2021 ei gynnwys yn y llinell sylfaen ar adeg yr ymgynghoriad. Mae'r diweddariadau hyn ac unrhyw ddatganiadau eraill yn cael eu hadlewyrchu'n ddiweddarach.

---

[34] Canllawiau ar Integreiddio Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth i Asesiad Amgylcheddol Strategol (2013)

# 3. Cynlluniau, Polisïau a Rhaglenni Perthnasol

3.0.1 Mae'r broses o ddatblygu'r CDLl yn digwydd o fewn fframwaith o ddeddfwriaeth a chanllawiau a chaiff ei llywio gan amcanion a dyheadau cynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill o lefel ryngwladol i lefel leol. Bydd dylanwad uniongyrchol y Cynllun yn cael ei gyfyngu i ddefnyddio a datblygu tir ac adeiladau, ond mae ganddo'r potensial hefyd i fod yn offeryn pwysig ar gyfer gweithredu ystod eang o amcanion sydd wedi'u cynnwys mewn cynlluniau a strategaethau eraill. Mae integreiddio polisi yn hanfodol er mwyn i CDLlau adeiladu ar gynlluniau a strategaethau eraill ac ychwanegu gwerth atynt.

3.0.2 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r berthynas rhwng y CDLl a chynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill ar bob lefel, ac yn dangos sut y mae gofynion cynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill wedi'u hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun drwy'r broses Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig.

3.0.3 Cynhaliwyd adolygiad o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni perthnasol ar lefel ryngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol o fewn Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaliadwyedd. Mae hyn er mwyn nodi'r berthynas rhwng y CDLl diwygiedig ac amcanion cynaliadwyedd cymwys eraill y mae'n rhaid eu hystyried o fewn yr ACI hwn. Gweler Atodiad A i gael rhestr o'r polisïau, cynlluniau a rhaglenni a'r dolenni gwe iddynt. Lle bo hynny'n berthnasol, mae disgrifiad o'r dogfennau a'u perthnasedd i'r Cynllun wedi'u cynnwys, fodd bynnag, nid ydynt yn rhoi sylw i bopeth. Er ei fod yn gynhwysfawr, nid yw'n rhoi sylw i bopeth a chaiff ei ddiweddaru drwy gamau datblygiadol yr ACI a'r CDLl diwygiedig i lywio orau ofynion y Cynllun.

## 3.1 Crynodeb Rhyngwladol

3.1.1 Mae'r offerynnau a'r strategaethau deddfwriaethol ar lefel ryngwladol yn cynrychioli haen uchaf yr agenda datblygu cynaliadwy; rhaid trosi'r haen hon yn ddeddfwriaeth Aelod-wladwriaeth wedyn. Yn aml mae deddfwriaeth ryngwladol wedyn yn llywio cynnwys cynlluniau, polisïau a rhaglenni ar lefel genedlaethol, isranbarthol a lleol, sydd i bob pwrpas yn llywio'r gwaith o gyflwyno'r agenda gynaliadwyedd.

3.1.2 Mae confensiynau a chytundebau perthnasol y Cenhedloedd Unedig (y mae'r DU wedi'u cadarnhau) yn helpu i sefydlu fframwaith rhyngwladol ar gyfer hyrwyddo datblygiad cynaliadwy yn rhyngwladol, cenedlaethol, a lleol, ac yn dylanwadu ar benderfyniadau ar draws ystod o bryderon, gan gynnwys:

- Lleihau Tlodi; Addysg a Chydraddoldeb Rhywiol; Mynediad at Ddŵr Glân a Bwyd;
- Newid yn yr Hinsawdd a Mynediad at Ynni Adnewyddadwy;
- Seilwaith ac Arloesedd Gwydn;
- Sefydlu Cymunedau Cysylltiedig ag Anghydraddoldebau Llai; a
- Cadwraeth Amgylcheddau, Natur, a Threftadaeth.

3.1.3 Mae'r Cyfarwyddebau Ewropeaidd a'r strategaethau a adolygwyd yn ymwneud â materion amgylcheddol sy'n bwysig iawn ar raddfa fyd-eang, ond sydd eto'n gofyn am weithredu lleol er mwyn bod yn effeithiol, ac maent yn cynnwys:

- Newid yn yr Hinsawdd, Ansawdd Aer, ac Ynni Adnewyddadwy;
- Sefydlu Cymunedau Cynaliadwy;
- Cyflwyno Systemau Trafnidiaeth Cynaliadwy;
- Sefydlu Patrymau Cynhyrchu a Defnyddio Cynaliadwy;
- Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol ac Ymladd Tlodi; a
- Gwarchod/Gwella Bioamrywiaeth ac Amgylchedd Dŵr.

3.1.4 Cyfeirir at drosi deddfwriaeth Ewropeaidd yn gyfraith genedlaethol oherwydd bod y Deyrnas Unedig wedi tynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd a goblygiadau *Deddf yr Undeb*

*Ewropeaidd (Ymadael) 2018* [35]. Yn hyn o beth, bydd goblygiadau a chanlyniadau diddymu Deddf y Cymunedau Ewropeaidd ar y naill law, ac ar y llaw arall trosi is-ddeddfwriaeth yr UE - rheoliadau a chyfarwyddebau sydd eisoes yn orfodadwy yn y DU - yn gyfreithiau domestig yn cael eu monitro, a bydd yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei addasu lle bo'n briodol i adlewyrchu unrhyw effeithiau.

## 3.2 Crynodeb Cenedlaethol

3.2.1 Mae'r themâu cynaliadwyedd a gwmpesir gan y dogfennau polisïau, cynlluniau a rhaglenni cenedlaethol yn adlewyrchu materion amgylcheddol sy'n bwysig ar raddfa ryngwladol, wedi'u rhaeadru i lawr i'r lefel ranbarthol yn ogystal â materion sy'n arbennig o berthnasol i Gymru, yn enwedig mewn perthynas â materion cymdeithasol ac economaidd. Mae'r agweddau cymdeithasol a gwmpesir gan y dogfennau cenedlaethol yn cynnwys yr angen i adlewyrchu'r amcanion llesiant a chyflawni cymunedau diogel, cynhwysol ac iach lle ceir cyn lleied o allgáu cymdeithasol â phosibl a lle gwneir y mwyaf o fynediad i gyfleusterau. Thema amlwg mewn rhai o'r dogfennau cenedlaethol yw cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol a chefnogi nodweddion diwylliannol unigryw a rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg.

3.2.2 Mae ymateb i anghenion y gymuned leol trwy ddatblygu hefyd yn thema a adleisir drwy'r dogfennau hyn. Mae lleihau'r angen i deithio, ynghyd â dulliau trafnidiaeth integredig a mwy iach, hefyd yn thema a ailadroddir yn y dogfennau polisi a strategaeth cenedlaethol. Mae'r materion amgylcheddol a gwmpesir gan y dogfennau cenedlaethol yn seiliedig yn gyffredin ar yr angen i warchod bioamrywiaeth a safleoedd a chynefinoedd gwarchodedig. Thema gref sy'n tanategu llawer o'r polisïau/strategaethau yw darparu'r gallu i gynefinoedd, rhywogaethau a'r amgylchedd naturiol ymateb i hinsawdd sy'n newid trwy ganiatáu amser a gofod iddynt ymaddasu. Cafodd yr angen i warchod ansawdd ac argaeledd adnoddau dŵr hefyd ei nodi yn ystod yr adolygiad o bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Caiff dylunio trefol o ansawdd uchel hefyd ei enwi fel elfen allweddol o gyflawni cymunedau cynaliadwy.

3.2.3 Fel arfer mae themâu economaidd y dogfennau cenedlaethol yn canolbwyntio ar yr angen i annog economi mwy amrywiol ac sydd o werth uchel yng Nghymru, sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau naturiol helaeth y wlad. Mae twristiaeth yn thema allweddol mewn nifer o'r dogfennau cenedlaethol, ynghyd â'r angen i symud tuag at farchnadoedd technolegau adnewyddadwy.

## 3.3 Crynodeb Lleol

3.3.1 Mae dogfennau a strategaethau polisi lefel Is-Gymru a Sir Gaerfyrddin hefyd yn adlewyrchu'r themâu cynaliadwyedd a amlygwyd mewn sawl dogfen ryngwladol a chenedlaethol; er enghraifft, cynyddu mynediad at wasanaethau drwy gyfleusterau trafnidiaeth integredig a diwallu anghenion cymunedol ar lefel leol.

3.3.2 Mae dogfennau lleol megis y Cynllun Llesiant yn ceisio mynd i'r afael â materion sy'n berthnasol i Sir Gaerfyrddin megis allgáu, yr angen i hyrwyddo mynediad cynaliadwy i wasanaethau, cyflawni cymunedau diogel ac iach, hyrwyddo addysg a chyflogaeth ac adfywio a datblygu'r farchnad lafur. Mae'r angen i ddatblygu economi amrywiol sydd â gwerth ychwanegol uchel hefyd yn adlewyrchu'r polisïau a'r strategaethau a nodir mewn rhai o'r dogfennau cenedlaethol. Un o themâu allweddol Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Sir Gaerfyrddin yw lleihau'r gwariant ar ynni, defnyddio ynni mewn modd effeithlon a buddsoddi mewn ffynonellau ynni llai niweidiol. Mae'r Cyngor wedi datgan Argyfwng Natur a Hinsawdd (yn ogystal â Llywodraeth Cymru) ac wedi ymrwymo i ddatrys y materion sylfaenol sy'n ysgogi'r rhain.

---

[35] Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

# 4. Effeithiau a Ragwelir a Rhai Sylfaenol ar yr Amgylchedd heb Weithredu'r CDLl diwygiedig

## 4.1 Crynodeb Sylfaenol

4.1.1 Mae'r adran hon yn crynhoi sefyllfa amgylcheddol sylfaenol y Sir ac yn rhoi diweddariad i'r Adroddiad Cwmpasu a'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd blaenorol. Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn cynnwys gwybodaeth feintiol ac ansoddol a data sy'n disgrifio cyflwr cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun. Mae *Rheoliadau'r AAS* yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Amgylcheddol gynnwys sylwebaeth ar yr effaith debygol a ragwelir ar y llinell sylfaen amgylcheddol, gyda a heb weithredu'r CDLl diwygiedig.

4.1.2 Mae'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer Sir Gaerfyrddin wedi cael ei chasglu o dan gyfres o benawdau a chaiff ei nodi yn Atodiad B. Er mwyn bod yn gyson mae'r penawdau hyn wedi cael eu grwpio o dan yr un penawdau'n fras â'r rheiny a ddefnyddiwyd yn y CDLl mabwysiedig presennol. Maent wedi cael eu newid, fodd bynnag, i gynnwys y Gymraeg fel pennawd ar wahân, er mwyn adlewyrchu safle'r Gymraeg yn y Sir a'i chymunedau.

## 4.2 Tueddiadau'r Dyfodol

4.2.1 I ddechrau, roedd Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn dwyn ynghyd ddadansoddiad manwl o gyflwr presennol y sefyllfa gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws Sir Gaerfyrddin, yn ogystal â'r nodweddion hynny oedd yn debygol o gael eu heffeithio gan y CDLl a phroblemau presennol sy'n berthnasol. Mae canlyniad hyn wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r ystyriaethau mwy diweddar sydd wedi digwydd ers hynny, yn ogystal â'r sylfaen dystiolaeth gynyddol/cyfnod a gwmpesir gan y llinell sylfaen.

4.2.2 Mae Tabl 5 yn cyflwyno datblygiad tebygol yr amcanion ACI yn erbyn agweddau sylfaenol ar y sefyllfaoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, heb weithredu'r CDLl diwygiedig. Ystyrir bod y tueddiadau tebygol hyn yn y dyfodol naill ai'n statig, yn gwella neu'n dirywio. Penderfynwyd ar dueddiadau'r dyfodol drwy ddadansoddi'r data sylfaenol a sut mae disgwyl i'r tueddiadau hyn newid dros gyfnod y Cynllun. Ceir sylwebaeth bellach ar y tueddiadau hyn yn Atodiad B o dan bob pennawd perthnasol. Darparwyd crynodeb isod i egluro sut y penderfynir ar bob canlyniad a sut gallai'r Cynllun ymateb i hyn.

**Tabl 5 - Datblygiad tebygol yr agweddau sylfaenol ar y sefyllfaoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn absenoldeb CDLl diwygiedig.**

| Amcan yr ACI | Llinell sylfaen y dyfodol | Crynodeb Sylfaenol |
|---|---|---|
| ACI1 – Datblygu Cynaliadwy | Sefydlog | Er gwaethaf nifer o reoliadau a strategaethau cefnogol y disgwylir iddynt gael eu cyflwyno o fewn (neu ar ôl) cyfnod y Cynllun, gan fod yr amcan hwn, yn rhannol, yn perthyn i'r amcanion blaenorol sy'n dylanwadu ar 1-1, 1-2, 1-3, 1-4, canfuwyd bod sawl un yn debygol o fod yn dirywio yn absenoldeb y CDLl diwygiedig. Felly, bydd y Cynllun yn hanfodol i gyfarwyddo a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy, a rhaid iddo anelu at ddatrys problemau lleol (lle bo'n ymarferol) yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin a'r effeithiau ehangach y gallai datblygiad eu creu. |

| Amcan yr ACI | Llinell sylfaen y dyfodol | Crynodeb Sylfaenol |
|---|---|---|
| ACI2 – Bioamrywiaeth | Dirywio | Mae tystiolaeth o sawl ffynhonnell fod colli bioamrywiaeth yn digwydd ar raddfa nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen. Bu rhai gwelliannau yn statws poblogaethau rhywogaethau unigol, fodd bynnag, mae'r adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn dangos bod bioamrywiaeth yn dirywio yn gyffredinol. Dyw effaith/gweithredu cynlluniau cysylltiedig (e.e. 30by30) heb wyrdroi hyn eto. Bydd y Cynllun yn hanfodol wrth gyfyngu ar effeithiau datblygu ar fioamrywiaeth yn yr ardal leol a diogelu adnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| ACI3 – Ansawdd Aer | Gwella | Mae ansawdd aer yn parhau i fod yn risg i iechyd pobl, er ei fod wedi gwella'n fawr ers y 1970au. Er bydd datblygu'n effeithio ar ansawdd aer, ceir rheoliadau llym yn enwedig o fewn y tair ARAR yn Sir Gaerfyrddin. Mae lefelau Nitrogen Deuocsid yn torri lefelau cyfreithiol mewn mannau problemus lleol ar hyn o bryd, er bod Dangosyddion Allyriadau Ansawdd Aer (StatsCymru) yn dangos tuedd ostyngol ar gyfer pob llygrydd aer. |
| ACI4 - Ffactorau Hinsoddol | Dirywio | Rhagwelir y bydd canlyniadau newid hinsawdd i'w teimlo fwyfwy yng Nghymru ac ymdrechion cyfyngedig a fu i gynyddu ein gwytnwch yn wyneb y fath effaith. Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi gostwng ers y 1990au, er gwaethaf rhai cyfnodau o gynnydd. Mae sawl cynllun cysylltiedig gan gynnwys Sero Net (yn lleol ac yn genedlaethol). Rhaid i'r datblygiad fod yn gynaliadwy i gyfrannu at liniaru materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Rhaid i ddatblygiadau newydd fedru gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a bod yn effeithlon o ran ynni. Mae'r risg o lifogydd yn cynyddu o ran Cymru. |
| ACI5 – Dŵr | Dirywio | Mae mwy o lifogydd yn peri risg sylweddol i lawer o gymunedau yn Sir Gaerfyrddin. O ran ffosffadau, bydd datblygiadau a charthion yn eu sgil yn effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol, gan effeithio'n negyddol ar ansawdd dŵr yn ogystal â bioamrywiaeth ac iechyd pridd. Rhaid i'r Cynllun liniaru llygredd gwasgaredig a grëir gan ddatblygiadau ac sy'n effeithio ar adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr, ac ystyried modelau llifogydd priodol. |
| ACI6 - Asedau Materol | Gwella | Mae Cymru'n cael ei chydnabod fel y wlad sydd â'r gyfradd ailgylchu uchaf yn y DU, ac mae yn y trydydd safle drwy'r byd. Cyfyngir ar yr adnoddau a echdynnir y mae pen draw iddynt. Gwneir ymdrechion i hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy. Mae angen mwy o ffocws ar drydaneiddio'r rhwydwaith trafnidiaeth er mwyn ateb y galw yn y dyfodol, ochr yn ochr â pholisi cenedlaethol. |
| ACI7 - Pridd | Dirywio | Mae colledion mewn carbon pridd mewn tir cynefin wedi bod yn ddiweddar, er ei fod yn ymddangos yn sefydlog mewn mannau eraill. Bydd datblygiadau'n lleihau adnoddau pridd a'u hansawdd. Mae amaethyddiaeth, trin dŵr gwastraff, a llygredd gwasgaredig yn parhau i leihau iechyd y pridd a bioamrywiaeth (ffactorau sy'n cael eu cyd-gysylltu). Bydd angen adfywio tir halogedig i ddiogelu asedau pridd, gan gynnwys tir amaethyddol o ansawdd da a phriddoedd uchel mewn carbon (hynny yw, mawnogydd), ac i osgoi colli rhagor o briddoedd i arwynebau anathraidd a lleihau erydiad pridd. |

| Amcan yr ACI | Llinell sylfaen y dyfodol | Crynodeb Sylfaenol |
|---|---|---|
| ACI8 – Treftadaeth Ddiwylliannol ac Amgylchedd Hanesyddol | Sefydlog | Wrth asesu henebion Cymru, canfuwyd bod cyflwr 50% yn sefydlog/wedi gwella a bod cyflwr 50% wedi gwaethygu. Mae gan y Sir sawl safle o bwysigrwydd archaeolegol, nifer o adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, parciau hanesyddol cofrestredig, gerddi, a thirweddau. Fel gofyniad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwahanol Ddeddfau, rhaid cadw a gwarchod y ffactorau hyn yng nghyd-destun datblygiad newydd. |
| ACI9 – Tirwedd | Dirywio | Mae'n anorfod bod y dirwedd yn gysylltiedig â chynefin a chefn gwlad, sydd o dan bwysau anthropogenig enfawr (gan gynnwys newid yn yr hinsawdd a threfoli). Gall unrhyw newid (gan gynnwys datblygu) o fewn tirwedd Sir Gaerfyrddin effeithio'n negyddol ar yr adnodd anadferadwy hwn a'r amwynderau cysylltiedig. Dylai egwyddorion dylunio cynaliadwy, terfynau datblygu, a mesurau diogelu'r dirwedd gael eu cryfhau. |
| ACI10 – Poblogaeth | Gwella | Mae cyfradd geni Sir Gaerfyrddin yn gostwng (CSC, Medi 2018), ac mae newidiadau mewn demograffeg (yn cynnwys strwythur oedran) yn amlwg wrth i fwy o bobl ifanc adael y sir (er bod hyn fel pe bai wedi amrywio yn y blynyddoedd diwethaf). Er hyn, rhagamcanir y bydd y boblogaeth (190,073 yn 2020) yn cynyddu i ~193,765 erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. Mae polisi tai fforddiadwy presennol y CDLI yn parhau i gefnogi stoc tai fforddiadwy, ac mae targedau polisi lleol ar gyfer 2022–2027 yn cynnwys creu dros 1000 o dai fforddiadwy (hyrwyddo cadw pobl ifanc). |
| ACI11 – Y Gymraeg | Gwella | Mae Sir Gaerfyrddin yn sensitif yn ieithyddol, ac mae ganddi'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg o blith unrhyw sir yng Nghymru. Mae tystiolaeth o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn awgrymu bod nifer y bobl 3 oed a hŷn yn y sir sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ers cyfnod y Cyfrifiad diwethaf yn 2011 wedi codi'n sylweddol. Ers mis Mawrth 2011 mae nifer (+9,200) a chanran (+9.56%) y bobl 3 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg wedi tyfu hyd at fis Mawrth 2018 a 3,500 ychwanegol (5.4%) hyd at fis Mawrth 2022 [36]. Y targed cenedlaethol yw miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae cynnydd nodedig wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall newidiadau/gostyngiadau lleol ddigwydd. Gall mewnfudo a ffactorau eraill (gan gynnwys strwythur oedran, a demograffeg eraill) effeithio'n negyddol ar gyfran y siaradwyr Cymraeg drwy herio pontio iaith, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Sir Gaerfyrddin sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg. Mae'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a deall Cymraeg llafar yn amrywio'n flynyddol. Fodd bynnag, ers 2014 mae cyfraddau wedi codi ychydig i 45.2%, 42.5%, a 58%. Ynghyd â chynnydd yn narpariaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg, mae trochi yn yr iaith yn debygol o wella cyfraddau dros y tymor hir, gan leihau effaith niweidiol wreiddiol mewnfudo o bosibl. |

[36] Yn y gorffennol fel arfer mae amcangyfrifon galluoedd iaith Gymraeg yn uwch na rhai'r Cyfrifiad.

| Amcan yr ACI | Llinell sylfaen y dyfodol | Crynodeb Sylfaenol |
|---|---|---|
| ACI12 – Iechyd a Llesiant | Dirywio | Mae gan y Sir boblogaeth sy'n heneiddio a chyfraddau cynyddol o bobl sydd dros bwysau/yn ordew (54%) ac sydd ag afiechydon meddwl, ymhlith anhwylderau eraill. Mae anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes a marwolaethau'n parhau'n eang, gydag anghyfartaledd cynyddol rhwng menywod a dynion. Mae diffyg mynediad at wasanaethau iechyd a mannau agored yn parhau i gael effaith anghymesur ar lawer o gymunedau yn Sir Gaerfyrddin. Mae effeithiau COVID-19 yn parhau drwy'r Sir a'i gwasanaeth iechyd. Mae effeithiau eilaidd ar iechyd corfforol a meddwl a achosir gan danwydd tlodi a'r argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer ledled y DU. Er bod gan Sir Gaerfyrddin lawer iawn o fannau agored cyhoeddus, mae'r asesiad mannau agored yn dangos ardaloedd o ddiffyg sy'n effeithio ar 12-2 a 12-4. |
| ACI13 - Addysg a Sgiliau | Gwella | Ar y cyfan, mae cyfraddau addysg yng Nghymru yn gwella, ac roedd y llwyddiant yn 2022 yn Sir Gaerfyrddin yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Ceir sawl datblygiad diweddar/yn yr arfaeth sy'n cefnogi addysg uwch (e.e. Canolfan yr Egin, Pentre Awel). Serch hynny, gall poblogaeth gynyddol roi pwysau ar wasanaethau addysg. |
| ACI14 – Yr Economi | Sefydlog | Mae'r rhagolygon ar gyfer 2023 yn nodi dirywiad o -0.3% yn CDG y DU (Hydref 2022). Cwympodd CDG yng Nghymru 2.4% (Ionawr - Mawrth 2020), 1.1% (Hydref - Rhag 2019), serch hynny, gwelwyd cynnydd positif yn y cyfnod hwn. Bu newid blynyddol o -1.8% yng nghyfradd gweithgaredd economaidd Sir Gaerfyrddin (oedran gweithio) (Medi 2018). Mae gan y sir sawl cymuned o amddifadedd (Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru). Mae effeithiau COVID-19, ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd (e.e. Brexit, argyfwng costau byw) yn parhau'n fawr, ac yn herio'r rhan fwyaf o gymunedau Sir Gaerfyrddin. Rhaid i'r Cynllun lywio twf i adfywio'r economi leol, a chefnogi cyflogaeth a thai fforddiadwy, ac ategu Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin (yn ogystal â strategaethau rhanbarthol/cenedlaethol eraill). |
| ACI15 - Gwead Cymdeithas | Gwella | Yn ôl y sôn, mae cydlyniant cymunedol yn cynyddu ar draws Cymru, gyda mwy o bobl yn cyd-dynnu ac yn trin ei gilydd gyda pharch (Arolwg Cenedlaethol Cymru). Mae troseddu wedi gostwng o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. O fewn Sir Gaerfyrddin, mae effeithiau COVID-19 ar ddigartrefedd wedi gostwng, er bod pwysau ar stociau tai a thai fforddiadwy (a'u lleoliad) yn parhau i fod yn broblem sylweddol i bobl mewn trefi ac ardaloedd gwledig (gan gael effeithiau canlyniadol ar synnwyr o le, ac iechyd a llesiant). |

# 5. Asesiad iteraidd: Gwaith AC blaenorol

## 5.1 Trosolwg

5.1.1 Er y bu deialog barhaus rhwng y broses AC (ACI bellach) a'r iteriadau lluosog o'r CDLl diwygiedig ar wahanol gamau (fel y dangoswyd uchod), er mwyn helpu gydag eglurder ac osgoi ailadrodd o fewn yr adroddiad presennol, mae'r Adran hon yn crynhoi canlyniadau elfennau a arfarnwyd o'r blaen a oedd yn allweddol wrth lywio'r Strategaeth a Ffefrir i'r Ail GDLl diwygiedig Adneuo.

5.1.2 Cyhoeddwyd Strategaeth a Ffefrir y CDLl diwygiedig ar gyfer ymgynghori ym mis Rhagfyr 2018, ac roedd yn destun AC a gafodd ei ddogfennu a'i gyhoeddi yn yr Adroddiad [37]AC Cychwynnol. Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf ar gyfer ymgynghori ym mis Ionawr 2020, ynghyd ag Adroddiad AC. Mae asesiadau a gyhoeddwyd o'r blaen wedi cael eu cyfeirio o fewn yr Adran bresennol hon er eglurder ychwanegol.

5.1.3 Lle y bo'n briodol, mae'r matricsau llawn a'r sylwebaeth ategol a gyflwynwyd yn yr adroddiadau gwreiddiol hyn bellach wedi'u darparu yn yr adran hon. Mae'r Weledigaeth, Amcanion y CDLl, a'r Strategaeth Ofodol yn yr Ail GDLl Adneuo yr un peth â'r rheiny a geir yn Strategaeth a Ffefrir y CDLl diwygiedig (2018). Cafodd Opsiynau Twf Ychwanegol eu cyflwyno yn y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf a'u hasesu yn erbyn y Fframwaith AC o fewn yr Adroddiad AC cysylltiedig (2020), ac fe'u cyflwynir hefyd yn yr Adran hon. Serch hynny, cafodd Opsiynau Twf pellach eu cynnwys yn yr Ail GDLl diwygiedig Adneuo a bydd y rhain yn cael eu hasesu ym Mhennod 6.

## 5.2 Manylion y broses

5.2.1 Dechreuodd y gwaith o baratoi fersiwn ddrafft Strategaeth a Ffefrir y CDLl ym mis Gorffennaf 2018 ac roedd yn cynnwys datblygu Gweledigaeth, Amcanion, Opsiynau Strategol a Pholisïau'r Cyngor. Cyhoeddwyd y ddogfen hon er mwyn ymgynghori yn ei chylch ym mis Rhagfyr 2018 a chafodd ei hategu gan Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol a gyhoeddwyd fel rhan o'r dogfennau ymgynghori. Cafwyd sawl ymateb yn ystod y cam hwn, a gwnaed newidiadau a dderbyniwyd i'r Cynllun a oedd yn datblygu ac i'r AC.

5.2.2 Cwblhawyd galwad am safleoedd ymgeisio rhwng Chwefror ac Awst 2018. Roedd pob safle yn ddarostyngedig i broses y Fethodoleg Asesu Safle, a arweiniodd at wrthod nifer o safleoedd ac felly nid oeddent yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd. Cafodd nifer o safleoedd eu gwrthod yn ystod ymarfer hidlo Cam 1, a gafodd wared ar yr holl safleoedd a oedd yn methu â chydymffurfio â'r Strategaeth a Ffefrir h.y. mae'r safle wedi'i wahanu oddi wrth yr anheddiad a byddai'n arwain at ddatblygu mewn cefn gwlad agored).

5.2.3 Gwrthodwyd nifer o safleoedd hefyd o ganlyniad i gasgliadau'r asesiad o safleoedd ymgeisio ar Gam 2. Ar y cam hwn aseswyd pob safle er mwyn sefydlu pa mor addas oedd i gael ei gynnwys yn y CDLl Adneuo yn erbyn ystyriaethau gan gynnwys effaith amgylcheddol a chynaliadwyedd, cyd-destun lleol a chymeriad, hygyrchedd a chyfyngiadau o ran y gallu i gyflawni (perygl llifogydd, hyfywedd ac ati). Roedd pob safle arall yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd ac ARC.

5.2.4 Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf ar gyfer ymgynghori ym mis Ionawr 2020, a chyda hynny roedd Adroddiad yr AC fel rhan o'r dogfennau

[37] Strategaeth a Ffefrir I Adroddiad AC Cychwynnol Rhagfyr 2018

ymgynghori. O ganlyniad i hyn, gwnaed tri ymateb ynglŷn â'r AC ac awgrymwyd bod tua 200 o newidiadau â ffocws yn cael eu gwneud ar gyfer y Cynllun.

5.2.5 Oherwydd amgylchiadau annisgwyl, rhwystrwyd y Cynllun Adneuo CDLl diwygiedig rhag camu ymlaen i'r cam archwilio, yn bennaf mewn ymateb i ganfyddiadau Asesiad Cydymffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws, a ddeilliodd o argymhelliad a wnaed gan y Cyd-bwyllgor[38] Cadwraeth Natur i fabwysiadu targedau llymach ar gyfer llygredd maetholion cysylltiedig.

5.2.6 Cytunodd y Cyngor ar y 9fed o Fawrth 2022 i amserlen y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig a chaniatáu paratoi ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo. Roedd hyn yn rhoi amser i werthuso'r goblygiadau, i gasglu tystiolaeth hanfodol, ac i ddatblygu opsiynau lliniaru i fynd i'r afael â'r mater ffosffad. I raddau llawnaf maes gorchwyl y CDLl diwygiedig, roedd hefyd yn caniatáu ar gyfer adlewyrchu ac ymateb i adferiad Covid-19, yr agenda carbon sero net a datgarboneiddio, yr argyfwng natur, TAN15 a Mapiau Cyngor Datblygu, a Dyfodol Cymru: Cynllun Cenedlaethol 2040. Cytunwyd ar yr ail Gytundeb Cyflawni diwygiedig gan Lywodraeth Cymru.

5.2.7 Lle'r oedd Newidiadau â Ffocws yn parhau i fod yn berthnasol, roedd yr Ail GDLl diwygiedig Adneuo yn cynnwys y newidiadau y cytunwyd arnynt gynt a chawsant eu hadolygu wedyn, a lle bo angen, eu hailarchwilio drwy ACI (ac AAS) i liniaru unrhyw oblygiadau posibl.

## 5.3 AC blaenorol o Weledigaeth y CDLl diwygiedig

5.3.1 I ddechrau, cyflwynwyd Gweledigaeth ddrafft y CDLl diwygiedig yn y Strategaeth a Ffefrir. Daeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol i'r casgliad fod y Weledigaeth ddrafft yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o agweddau ar y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn llwyddiannus. Yn ddiweddarach, argymhellodd yr Arfarniad Cynaliadwyedd y dylid gwneud mân newidiadau i'r geiriad, er mwyn cyfeirio'n uniongyrchol at bwysigrwydd y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin. Yn dilyn adborth o'r broses gychwynnol o Arfarnu Cynaliadwyedd a'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2018 i Ionawr 2019), cafodd y Weledigaeth ei diwygio er mwyn ei chynnwys yn y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf. Yna cafodd y Weledigaeth ddiwygiedig ei hailasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd (Tabl 6).

---

[38] Asesiad Cydymffurfiaeth Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws l Cyfoeth Naturiol Cymru

**Tabl 6 - Canlyniad profi'r Strategaeth Ddrafft a Ffefrir (Rhagfyr 2018) a Gweledigaeth Cynllun Datblygu Lleol Adneuo (Ionawr 2020) yn erbyn Fframwaith ACI.**

| | AC1 | AC2 | AC3 | AC4 | AC5 | AC6 | AC7 | AC8 | AC9 | AC10 | AC11 | AC12 | AC13 | AC14 | AC15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth Ddrafft (2018) | + | + | ? | ? | ? | + | ? | ? | ? | + | 0 | + | + | + | + |
| Gweledigaeth Adneuo (2019) | + | + | ? | ? | ? | + | ? | + | + | + | + | + | + | + | + |

| | |
|---|---|
| + | Perthynas gadarnhaol rhwng y Weledigaeth a’r Amcan Cynaliadwyedd |
| ? | Perthynas anhysbys rhwng y Weledigaeth a’r Amcan Cynaliadwyedd |
| 0 | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng y Weledigaeth a’r Amcan Cynaliadwyedd |
| - | Gwrthdaro posibl rhwng y Weledigaeth a’r Amcan Cynaliadwyedd |

## 5.4 AC blaenorol o Amcanion y Strategaeth

5.4.1 Er bod yr Amcanion Strategol yn y CDLI Mabwysiedig presennol yn cael eu defnyddio fel man cychwyn ar gyfer adnabod amcanion strategol ar gyfer y CDLI, bu i ymddangosiad gyrwyr cyd-destunol a pholisi gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a llofnodi Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn 2017, greu angen iddynt gael eu hadolygu. O'r cychwyn cyntaf, defnyddiwyd themâu amcanion Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin i grwpio Amcanion Strategol y Cynllun, er mwyn sicrhau bod dehongliad lleol o lesiant wedi'i blethu â'r amcanion strategol a strategaeth y Cynllun.

5.4.2 Cyflwynwyd yr 14 o Amcanion Strategol drafft yn Adran 8 o Strategaeth a Ffefrir y CDLI, ac roeddent yn destun profion yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd o fewn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol (Adran 8). Nodir canlyniadau'r asesiad hwn yma (Ffigur 3) a chânt eu cyflwyno hefyd, ynghyd â'r sylwadau, yn Nhabl 4 a Ffigur 3 yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol.

5.4.3 Yn dilyn adborth o'r broses gychwynnol o Arfarnu Cynaliadwyedd a'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (Rhagfyr 2018 i Ionawr 2019), gwnaed mân newidiadau i ddau o'r Amcanion Strategol. Ychwanegwyd geiriad at SO7 i gynnwys cyfeiriad at ynni adnewyddadwy a newidiwyd SO10 i gynnwys cyfeiriad at sicrhau bod nifer a chymysgedd priodol o dai yn cael eu hystyried. Ailaseswyd y mân newidiadau hyn yn erbyn y fframwaith AC; fodd bynnag, ni wnaed unrhyw newidiadau i'r effeithiau a'r cyfleoedd a nodwyd o fewn yr Adroddiad AC ar gyfer y CDLI diwygiedig Adneuo Cyntaf.

**Ffigur Arfarnu'r Amcanion Strategol (AS) Drafft (Ffynhonnell: Ffigur 3 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o Strategaeth a Ffefrir y CDLl 2018)**

| | AC1 | AC2 | AC3 | AC4 | AC5 | AC6 | AC7 | AC8 | AC9 | AC10 | AC11 | AC12 | AC13 | AC14 | AC15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AS1 | + | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 |
| AS2 | + | ? | 0 | 0 | ? | + | 0 | 0 | ? | + | 0 | + | 0 | 0 | + |
| AS3 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + |
| AS4 | + | 0 | + | + | 0 | + | 0 | 0 | + | + | + | 0 | 0 | + | + |
| AS5 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | + | + | 0 | 0 | 0 |
| AS6 | + | + | + | + | + | + | + | 0 | + | 0 | 0 | + | + | 0 | + |
| AS7 | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| AS8 | + | 0 | 0 | + | 0 | + | 0 | 0 | ? | + | 0 | + | 0 | 0 | + |
| AS9 | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + |
| AS10 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | 0 | + |
| AS11 | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | + | 0 | + |
| AS12 | + | - | - | ? | - | ? | 0 | 0 | - | + | ? | + | + | + | + |
| AS13 | + | - | - | 0 | - | 0 | | - | ? | + | ? | + | + | + | 0 |
| AS14 | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | - | + | 0 | + | + | + | + |

| | |
|---|---|
| + | Perthynas gadarnhaol rhwng Amcan Strategol y CDLl Diwygiedig a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| ? | Perthynas anhysbys rhwng Amcan Strategol y CDLl Diwygiedig a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| 0 | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng Amcan Strategol y CDLl Diwygiedig a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| - | Gwrthdaro posibl rhwng Amcan Strategol y CDLl Diwygiedig a'r Amcan Cynaliadwyedd |

## 5.5 AC blaenorol ar yr Opsiynau Twf

5.5.1 Bydd rhaid i Gynllun Datblygu Lleol diwygiedig Sir Gaerfyrddin ystyried twf poblogaeth, tai a'r economi o fewn y Sir dros gyfnod y cynllun o 15 mlynedd. O ganlyniad i'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig, cafwyd arfarniadau lluosog o Opsiynau Twf posibl oherwydd ystyried rhagamcanion newydd/wedi'u diweddaru gan y CDLl diwygiedig sy'n datblygu wrth iddynt gael eu rhyddhau/llunio. Er eglurder, yn y bôn bu tri 'grŵp' o Opsiynau Twf a phenderfynir ar y ddau grŵp cyntaf (fel y'u cyflwynwyd i ddechrau yn Adroddiad Strategaeth a Ffefrir 2018, ac yna yn y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf) mewn trefn ddilynol o fewn yr Adran ganlynol hon. Edrychwch ar yr adroddiadau a gyhoeddwyd i gael rhagor o wybodaeth.

DS: Ni chafodd yr opsiwn twf a gyflwynwyd isod ei ystyried yn ddiweddarach yn y Cynllun terfynol. Mae'r rhai a gyflwynwyd yn Adran 8 o'r Ail GDLl diwygiedig Adneuo yn cael eu hasesu'n ddiweddarach yn Adran 6.3 yr adroddiad hwn.

5.5.2 Er mwyn llywio nifer yr anheddau y bydd angen eu darparu yn y CDLl, comisiynwyd Edge Analytics i ddarparu amrywiaeth o wahanol senarios rhagamcanu demograffig o'r enw 'Opsiynau Twf Strategol'. Ystyriodd Adroddiad Edge Analytics[39] y dystiolaeth ddemograffig ddiweddaraf a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, yn ogystal â defnyddio strategaethau economaidd presennol, gan gynnwys Bargen Ddinesig Bae Abertawe[40], Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin[41] a'r Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth[42], sy'n cysylltu twf economaidd, newid y boblogaeth a thai.

5.5.3 Ystyriodd yr adroddiad gan Edge Analytics wyth o ragamcanion twf:

- Prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2014
- Llywodraeth Cymru 2014 (ymfudo cyfartalog 10 mlynedd)
- Tymor Hir (16 blynedd o ddata mudo)
- Tymor Canolig (10 mlynedd o ddata mudo)
- Tymor Byr (data mudo y 6 blynedd diwethaf)
- Data mudo cyn y dirwasgiad (cyn 2008)

5.5.4 Gwnaethant hefyd ystyried dwy senario â phwyslais ar gyflogaeth:

- Cyfradd Gymudo Sefydlog
- Cyfradd Gymudo yn Gostwng

5.5.5 Profwyd y gwahanol senarios rhagamcanu demograffig hyn yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru. Felly, ystyriwyd bod yr opsiynau twf a ddewiswyd yn realistig ac yn rhesymol. Mae manylion llawn y rhesymau dros ddewis pob un o'r opsiynau twf wedi'u nodi yn Adran 9 o'r Adroddiad ar Strategaeth a Ffefrir y CDLl Diwygiedig. Ystyriwyd nad oedd yn realistig cynnwys dewis amgen yn ymwneud â busnes fel arfer (h.y. sefyllfa'r CDLl presennol) gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDLl ddefnyddio Amcanestyniadau Twf Llywodraeth Cymru fel man cychwyn. Cafodd y gofynion anheddau a ddeilliodd o hynny eu nodi yn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol (gweler Tabl 5) a chânt eu crynhoi yn Nhabl 7 isod:

---

[39] Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin – Mis Hydref 2018
[40] Cartref | Bargen Ddinesig Bae Abertawe
[41] Cynllun adfywio strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015-2030 – Trawsnewidiadau
[42] ASTUDIAETH SECTORAIDD - CYFLOGAETH I ADRODDIAD RHIF 70031978-001

**Tabl 7 - Amcanestyniadau Senario Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033 (Ffynhonnell: Papur Pwnc Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd, Rhagfyr 2018). * = dros gyfnod y cynllun**

| Opsiwn Twf | Cyfanswm Twf Anheddau* |
|---|---|
| Opsiwn 1: Prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2014 | 3,367 |
| Opsiwn 2: Llywodraeth Cymru 2014 (ymfudo cyfartalog 10 mlynedd) | 6,542 |
| Opsiwn 3: Tymor Byr (6 blynedd o ddata mudo) | 7,044 |
| Opsiwn 4: Tymor Canolig (10 mlynedd o ddata mudo) | 7,236 |
| Opsiwn 5: Tymor Hir (16 blynedd diwethaf o ddata mudo) | 9,887 |
| Dewis 6: Data mudo cyn y dirwasgiad (cyn 2008) | 14,090 |
| Dewis 7: Lleihau'r gyfradd gymudo | 17,396 |
| Opsiwn 8: Cyfradd Gymudo Sefydlog | 19,690 |

5.5.6 Profwyd effaith gymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a chynaliadwyedd cyffredinol pob opsiwn twf yn erbyn y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig. Mae canlyniadau'r asesiad hwn i'w gweld isod (Ffigur 4) a chânt eu cyflwyno hefyd yn Ffigur 4 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol. Ystyriwyd mai Opsiwn 1, fel man cychwyn amcanestyniadau Llywodraeth Cymru, oedd y llinell sylfaen ar gyfer asesu pob Opsiwn arall.

5.5.7 Cyflwynwyd sylwebaeth lawn ar Arfarniad Cynaliadwyedd pob opsiwn twf yn Nhabl 6 o Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol y Strategaeth a Ffefrir. I grynhoi, daeth yr opsiynau twf a gyflwynwyd yn y Strategaeth a Ffefrir i'r casgliad bod **Opsiynau Twf 1 a 2** yn perfformio'n well o ran cadw adnoddau amgylcheddol naturiol y sir. Fodd bynnag nid yw'r un o'r opsiynau yn ymdrin yn ddigonol â'r materion economaidd-gymdeithasol yn y Sir, gan gynnwys yr angen am dai fforddiadwy, mynediad rhwydd i gyfleusterau cymunedol ac iechyd, a chadw pobl ifanc. Mae'r ddau opsiwn hefyd yn darparu twf cyflogaeth sylweddol is na hwnnw a amcanestynnir yn Astudiaeth Sectoraidd o Gyflogaeth y Sir, ac ni fyddai'n darparu digon o gyfleoedd cyflogaeth. Mae lefel y twf o dan **Opsiynau 4 a 5** yn fwy tebygol o gyflawni'r buddion cymdeithasol ac economaidd hyn. Hefyd, **Opsiynau 7 ac 8** sydd fwyaf tebygol o arwain at effeithiau amgylcheddol negyddol, o'u cymharu ag opsiynau eraill. Gellid lliniaru'r effeithiau hyn trwy ddewis safleoedd cynaliadwy a gweithredu cynlluniau mewn modd ystyrlon, gan ystyried tirwedd gwledig iawn Sir Gaerfyrddin a'r cynefinoedd o werth biolegol uchel.

5.5.13 O Adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, daeth i'r amlwg y byddai Opsiwn 5 (Tymor Hir yn cyfateb i 659 o anheddau y flwyddyn) yn debygol o sicrhau effeithiau mwyaf cynaliadwy'r holl opsiynau ar draws y fframwaith cynaliadwyedd, gyda'r cydbwysedd mwyaf rhwng ystyriaethau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

5.5.14 Yn dilyn hyn, rhagwelwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd is-genedlaethol 2017 mewn pryd i'w hystyried ar gyfer y CDLI diwygiedig Adneuo Cyntaf. Fodd bynnag, mae'r cam o ryddhau'r amcanestyniadau hyn wedi cael ei oedi ac yn sgil hyn, roedd y Cyngor wedi ailgomisiynu Edge Analytics i ddiweddaru gwahanol senarios o ran gofynion tai yng ngoleuni amrywiaeth o dystiolaeth newydd, gan gynnwys amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2018 Sir Gaerfyrddin a'r fersiwn drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd yr adroddiad hwn a oedd wedi'i ddiweddaru yn cyflwyno tair senario ddemograffig arall, sy'n rhoi ystyriaeth i hanesion eraill o ran mudo y gellir

tarddu rhagdybiaethau ynghylch tueddiadau ohonynt.[43] Amlinellir y gofynion anheddau a ddeilliodd o hyn ar gyfer pob un o'r senarios yn Nhabl 8.

**Tabl 8 - Amcanestyniadau Senario Twf Poblogaeth Sir Gaerfyrddin 2018 - 2033. Atodiad Edge Analytics 2019**

| **Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir (Atodiad i Adroddiad 2019)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod hanesyddol llawn o 17 mlynedd (2001/02-2017/18). | | | |
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (%) | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| + 9.6% | + 12.0% | 671 | 10,065 |

| **Twf Poblogaeth 10 mlynedd (Atodiad i Adroddiad 2019)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar gyfnod hanesyddol o 10 mlynedd, gan anwybyddu'r blynyddoedd afreolaidd yn union ar ôl y cwymp ariannol. | | | |
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (%) | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| + 8.1% | + 10.6% | 589 | 8,835 |

| **Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr (Atodiad i Adroddiad 2019)** | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod hanesyddol o bedair blynedd (2014/15-2017/18) sy'n cyfateb i'r cyfnod pedair blynedd o adfer o ran twf tai. | | | |
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (%) | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| + 7.6% | + 10.5% | 585 | 8,769 |

[43] Edge Analytics – Atodiad Amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd Sir Gaerfyrddin, Medi 2019

5.5.15 Gyda'r amcanestyniadau aelwydydd sy'n seiliedig ar 2017 heb eu cyhoeddi eto ar y pryd, amcangyfrifwyd twf aelwydydd ac anheddau o dan y senarios demograffig gan ddefnyddio tybiaethau o fodel amcanestyniadau aelwydydd Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014. Yn wahanol i'r senarios twf poblogaeth a ddarparwyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLI diwygiedig, nid yw'r amcanestyniadau poblogaeth diwygiedig a ddarparwyd yn Atodiad 2019 yn cynnwys y gyfran fach o boblogaeth Sir Gaerfyrddin sy'n eistedd o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Drwy beidio â chynnwys y ddaearyddiaeth yn senarios Sir Gaerfyrddin, ceir cyfanswm poblogaeth a chanlyniadau twf ychydig yn is.

5.5.16 Cafodd effeithiau pob un o'r opsiynau twf diwygiedig eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd (Ffigwr 4), a rhoddir sylwebaeth lawn yn Atodiad 6 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd (2020).

## Ffigur 4 – AC o Opsiynau Twf (Unwyd: Ffigur 4 AC Cychwynnol o Adroddiad Strategaeth a Ffefrir 2018 a Tabl 14 o Adroddiad AC o GDLI diwygiedig Adneuo Cyntaf 2020)

| Opsiwn Twf (anheddau y flwyddyn) | AC1 | AC2 | AC3 | AC4 | AC5 | AC6 | AC7 | AC8 | AC9 | AC10 | AC11 | AC12 | AC13 | AC14 | AC15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adroddiad Strategaeth a Ffefrir 2018 (fel y'u cynhwysir yn Adroddiad AC Cychwynnol 2018)** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Opsiwn 1 (224 annedd) | - | +/- | +/- | +/- | + | 0 | + | I | I | -- | - | -- | ? | -- | -- |
| Opsiwn 2 (436 annedd) | - | +/- | +/- | +/- | + | 0 | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| Opsiwn 3 (470 annedd) | - | +/- | +/- | +/- | + | 0 | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| Opsiwn 4 (482 annedd) | - | +/- | +/- | +/- | + | 0 | +/- | I | I | - | - | - | ? | - | - |
| Opsiwn 5 (659 annedd) | + | +/- | +/-- | +/- | + | 0 | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| Opsiwn 6 (939 annedd) | + | +/- | +/- | +/- | - | 0 | +/- | I | I | + | + | ? | ? | + | + |
| Opsiwn 7 (1,160 annedd) | - | - | - | - | - | 0 | - | I | I | + | +/- | + | ? | ++ | + |
| Opsiwn 8 (1,313 annedd) | - | - | - | - | -- | 0 | - | I | I | + | +/- | + | ? | ++ | + |
| **CDLI diwygiedig Adneuo Cyntaf a Ffefrir (fel y'i cynhwysir yn Adroddiad AC 2020)** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Twf poblogaeth tymor hir (671 annedd) | + | +/- | +/- | +/- | + | 0 | +/- | I | I | + | - | ? | +/- | + | + |
| Twf poblogaeth 10 mlynedd (589 annedd) | + | +/- | +/-- | +/- | + | 0 | +/- | I | I | + | - | ? | +/- | + | + |
| Twf poblogaeth tymor byr (585 annedd) | + | +/- | +/- | +/- | + | 0 | +/- | I | I | + | - | ? | +/- | + | + |

5.5.17 Penderfynwyd bod gan yr holl opsiynau y potensial i effeithio'n negyddol ar ansawdd aer y Sir o ganlyniad i gynnydd mewn trafnidiaeth a gweithgarwch economaidd. Unwaith eto, gellir lliniaru'r effeithiau hyn trwy ddefnyddio safleoedd cynaliadwy â digon o fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n bwysig hefyd yr ystyrir Seilwaith Gwyrdd a Glas, a, lle bo'n bosibl, y sicrheir darparu nwyddau cyhoeddus (gan gynnwys puro aer) trwy ddiogelu asedau naturiol a gwasanaethau ecosystemau.

5.5.18 Mae pob opsiwn yn cefnogi twf yn y boblogaeth ac felly'n debygol o gyfrannu at gynnydd mewn defnydd, gwastraff a gweithgareddau eraill fel trafnidiaeth. Gellid ymdrin â hyn trwy ddyluniad cynaliadwy, sy'n integreiddio atebion gwastraff cynaliadwy a thrafnidiaeth yn y datblygiad newydd. Mae diogelu Seilwaith Gwyrdd a Glas hefyd yn bwysig i liniaru effeithiau twf ar draws y Sir, gan ddarparu swyddogaeth dalfa garbon bwysig yn ogystal â darparu effeithiau draenio tir ac oeri.

5.5.19 Mae gan bob opsiwn y potensial i effeithio'n negyddol ar asedau hanesyddol a diwylliannol a thirwedd, yn dibynnu ar y safle a ddewisir a sut y gweithredir y datblygiad. Gellid lliniaru'r effeithiau hyn gan sicrhau bod cynllun datblygiadau newydd yn ystyriol o gymeriad ac unigrywedd lleol, ac y diogelir asedau diwylliannol a hanesyddol.

## 5.6 AC blaenorol o'r Opsiynau Gofodol

5.6.1 Nodwyd y broses o ddatblygu'r Opsiynau Gofodol i'w hystyried yn Adran 9, para 9.44 – 9.53 o'r *Adroddiad ar y Strategaeth a Ffefrir (2018).* Mae pob Opsiwn Gofodol yn adlewyrchu'r angen i ystyried deddfwriaeth, polisi cynllunio cenedlaethol a strategaethau lleol a rhanbarthol wrth gydnabod nodweddion, asedau a materion sy'n gyffredin yn Sir Gaerfyrddin ac sydd yn ffurfio dull gweithredu strategol sy'n cyflawni'r weledigaeth ac yn hyrwyddo a llywio datblygiad ar gyfer y sir.

5.6.2 Mae tystiolaeth sylfaenol wedi helpu i lywio datblygiad yr opsiynau hyn, yn ogystal â barn rhanddeiliaid a'r amcanion integredig. Mae'r opsiynau hyn wedi'u seilio ar ddealltwriaeth o botensial datblygu'r Sir a'r angen i fodloni gofynion twf yn y dyfodol. Wrth ddatblygu'r opsiynau, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* a'r amcanion llesiant a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

5.6.3 Roedd pob Opsiwn yn ystyried lefelau gwahanol o ran graddfa a dosbarthiad twf ac yn archwilio i ba raddau y gallai gyflawni datblygu cynaliadwy. Nid oedd yr Opsiynau yn diffinio union ffiniau'r safle, ond yn darparu amlinelliad bras o sut y gellid dosbarthu twf ar draws y sir.

5.6.4 Roedd proses yr Arfarniad Cynaliadwyedd yn helpu i lywio'r broses o ddewis y strategaeth ofodol a gaiff ei chynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir ac yn darparu dull o ystyried dewisiadau amgen rhesymol.

5.6.5 Ar y cychwyn, roedd *Strategaeth a Ffefrir y CDLl* (2018) yn manylu ar chwe opsiwn gofodol i'w hystyried (Tabl 9). Yn yr *Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir (2018)* aseswyd y chwe opsiwn hyn yn erbyn y fframwaith arfarnu cynaliadwyedd, a rhagwelodd effeithiau byrdymor, tymor canolig a hirdymor, cadarnhaol a negyddol tebygol pob un ar y llinell sylfaen amgylcheddol fel y'i hamlinellir yn *Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd (2018).* Cafodd opsiwn 'busnes fel arfer' (Opsiwn 1) ei gynnwys a oedd yn edrych ar barhau â strategaeth ofodol y CDLl presennol. Nodir canlyniadau'r asesiad hwn isod yn Nhabl 10 a hefyd cânt eu cyflwyno yn Ffigur 5 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol.

**Tabl 9 - Crynodeb o'r Opsiynau Gofodol (fel yr adroddwyd yn y fersiwn ddrafft o'r Strategaeth a Ffefrir Cyn-adneuo Rhagfyr 2018)**




## Opsiwn 1 – Dosbarthiad Cynaliadwy

Mae Opsiwn 1 yn canolbwyntio twf yn gymesurol ar draws hierarchaeth sydd wedi'i thanategu gan egwyddorion cynaliadwyedd. Drwy wneud hyn, mae'r opsiwn hwn:

- Yn rhoi anogaeth i wasgaru cyflogaeth, tai a mathau eraill o ddatblygiad rhwng aneddiadau a nodwyd a grwpiau neu glystyrau pentrefi mewn modd sy'n adlewyrchu eu graddfa bresennol, eu poblogaeth a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yno.
- Yn adlewyrchu amrywiaeth y Sir ac yn dosrannu twf yn briodol i ardaloedd defnydd trefol a gwledig.
- Yn sicrhau bod y rhan fwyaf o dwf cyflogaeth yn digwydd mewn trefi a phentrefi mwy o faint.




## Opsiwn 2 – Seilwaith a Rhwydwaith Trafnidiaeth

Mae Opsiwn 2 yn edrych ar ddarpariaeth bresennol y seilwaith cyfleustodau a'r rhwydwaith priffyrdd ar draws y sir ac mae'n anelu at ganolbwyntio'r rhan fwyaf o dwf mewn ardaloedd sydd â'r capasiti ar gyfer twf. Mae'r opsiwn hwn yn ceisio annog twf mewn ardaloedd lle gellir darparu ar ei gyfer yn fwyaf ymarferol trwy:

- Annog twf ar hyd llwybrau trafnidiaeth allweddol a chyffyrdd yr M4, yr A40, yr A48, yr A484, yr A474 a'r A485 a hefyd mewn mannau sy'n hygyrch i ddulliau trafnidiaeth eraill gan gynnwys y rhwydwaith rheilffyrdd, y rhwydwaith beicio a chysylltiadau cerddwyr.
- Annog twf mewn ardaloedd lle mae naill ai capasiti cyfredol neu gapasiti a gynllunnir ar gyfer cyflenwi a thrin dŵr a dŵr gwastraff.
- Annog twf mewn ardaloedd lle ceir digon o wasanaethau a chyfleusterau i gynnal cymunedau.

## Opsiwn 3 – Gwasgariad




Mae Opsiwn 3 hwn yn dosbarthu tai, cyflogaeth a ffurfiau datblygu eraill ar sail eang rhwng aneddiadau o fewn y sir, yn drefol ac yn wledig.

Mae hefyd yn caniatáu i aneddiadau dyfu'n raddol heb o reidrwydd ystyried argaeledd gwasanaethau neu gyfleusterau na'r effaith y gallai twf ei chael ar y cymunedau presennol a'u capasiti i gynnwys ac amsugno twf.

Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gyfeirio cyfran uwch o dwf y Sir i'r ardaloedd gwledig a chyfran is i'r ardaloedd trefol presennol.

## Opsiwn 4 - Dan Arweiniad y Gymuned




Mae Opsiwn 4 yn canolbwyntio ar rôl aneddiadau yn eu hardal a'u cymuned ehangach, gan gydnabod y berthynas a'r gyd-ddibyniaeth rhwng aneddiadau ac yn ystyried sut mae'r cymunedau lleol yn gweithio ac yn byw.

Mae'n annog twf yn yr ardaloedd hynny sydd yn chwarae rôl sylweddol yn y gymuned ehangach; trwy ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau sy'n ceisio adlewyrchu anghenion cymunedau, gan gynnwys eu galw am dai.

Dylai adlewyrchu dealltwriaeth o gymunedau lleol a sicrhau bod twf yn digwydd mewn ardaloedd lle mae ei angen, er mwyn cefnogi cymunedau a'u dyheadau ar gyfer twf yn y dyfodol a materion parhaus yn ymwneud â chynaliadwyedd cyfleusterau a gwasanaethau. Mae hyn yn debygol o arwain at ddyrannu safleoedd llai a chyfeirio cyfran uwch o dwf tuag at aneddiadau llai.




## Opsiwn 5 - Dylanwad Dinas-ranbarth Bae Abertawe

Mae Opsiwn 5 yn canolbwyntio ar y prosiectau a'r buddsoddiad a gynlluniwyd fel rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ac mae'n sianeli twf i alinio â'r ardaloedd daearyddol hyn. Y prosiectau a gynigir ar gyfer Sir Gaerfyrddin yw:

- Y Pentref Gwyddor Bywyd a Llesiant, Llanelli. Pentref yw hwn a fydd yn darparu cyfleusterau a gwasanaethau i hyrwyddo a gwella llesiant. Bwriedir iddo fod yn gyfleuster amlochrog sy'n cyfuno datblygiad busnesau, addysg, gofal iechyd, hamdden, twristiaeth, cymorth llesiant ac ymchwil i wyddorau bywyd mewn un lleoliad.

- Yr Egin, Caerfyrddin. Byddai'r cyfleuster hwn yn ganolfan greadigol, ddigidol a chyfryngau newydd i'w lleoli ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Mae'r opsiwn hwn yn debygol o arwain at ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'r twf yng Nghaerfyrddin a Llanelli a'r ardaloedd cyfagos. Bydd hyn yn arwain at rywfaint o dwf wedi'i grynhoi yn yr ardaloedd rhwng y ddwy ardal hyn, fodd bynnag, prin fydd y twf mewn aneddiadau sy'n bellach o Gaerfyrddin a Llanelli, serch hynny gallai elwa ar y buddsoddiad mewnol.




## Opsiwn 6 - Dan Arweiniad y Farchnad

Bydd Opsiwn 6 yn anelu at ddiwallu anghenion a dyheadau'r diwydiant datblygu drwy nodi safleoedd ac ardaloedd sydd fwyaf atyniadol yn economaidd i'w datblygu. Mae'r opsiwn hwn yn edrych ar lwyddiant marchnad aneddiadau'r sir ers 2008 ac yn dosrannu twf yn unol â chyfraddau cyflawni'r gorffennol.

Mae cyfraddau cyflawni'r gorffennol yn dangos bod y rhan fwyaf o'r twf wedi digwydd yn ardaloedd Llanelli a'r Hendy, gyda chryn dipyn o ddatblygu hefyd yn digwydd yn ardaloedd twf Caerfyrddin a Rhydaman/Cross Hands.

Gallai'r dull gweithredu hwn gael ei ddehongli fel *'cynllunio yn seiliedig ar niferoedd'*. Byddai'n ceisio cyfeirio twf yn unol â'r cyfraddau cyflawni uchaf yn y gorffennol a ble fyddai datblygwyr yn adeiladu.

**Tabl 10 - Crynodeb o'r Arfarniad Cynaliadwyedd o Opsiynau Gofodol (Ffynhonnell: Ffigur 5 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir Rhagfyr 2018)**

| Amcan yr ACI | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 | Opsiwn 6 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ACI1 – Datblygu Cynaliadwy | + | - | - | + | ? | ? |
| ACI2 - Bioamrywiaeth | I | + | I | I | + | I |
| ACI3 – Ansawdd Aer | - | - | - | - | - | - |
| ACI4 - Ffactorau Hinsoddol | +/- | +/- | +/- | +/- | - | - |
| ACI5 – Dŵr | +/- | + | - | + | - | - |
| ACI6 - Asedau Materol | + | - | - | + | - | - |
| ACI7 - Pridd | I | + | - | I | + | + |
| ACI8 - Treftadaeth Ddiwylliannol | I | I | I | I | I | I |
| ACI9 – Tirwedd | I | I | - | I | I | I |
| ACI10 – Poblogaeth | ++ | - | - | ++ | +/- | +/- |
| ACI11 – Y Gymraeg | + | - | - | + | +/- | - |
| ACI12 - Iechyd a Llesiant | + | - | - | ++ | +/- | +/- |
| ACI13 - Addysg a Sgiliau | + | - | - | + | ++ | ? |
| ACI14 – Yr Economi | + | - | - | + | ++ | ? |
| ACI15 - Gwead Cymdeithas | + | - | - | ++ | - | - |

5.6.6 Cyflwynwyd sylwebaeth lawn ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd o bob opsiwn gofodol yn Adran 4.3 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir. Yn gryno, daeth yr Opsiynau Gofodol a gyflwynwyd yn y Strategaeth a Ffefrir i'r casgliad canlynol:

- Mae **Opsiynau 1 a 4** ill dau yn perfformio'n dda ar y cyfan mewn cysylltiad â'r fframwaith cynaliadwyedd, yn arbennig o safbwynt yr economi, gwella gwead cymdeithas a diwallu anghenion ardaloedd gwledig a threfol. Mae hyn yn wahanol i **Opsiynau 2 a 3** nad ydynt yn mynd i'r afael yn benodol ag angen neu economi'r ardaloedd gwledig ac nid ydynt yn perfformio'n ffafriol o safbwynt gwella cydraddoldeb cymdeithasol ledled y sir. Rhagfynegir y bydd **Opsiwn 5** yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar addysg, sgiliau a'r economi yn sgil traweffaith buddsoddiad mewnol a gwybodaeth a sgiliau i'r sir. Mae hefyd yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol ar strwythur y boblogaeth, trwy gyfateb datblygiadau preswyl â chyfleoedd sylweddol am swyddi medrus, gan greu ardaloedd deniadol i bobl ifanc.

- Er y byddai **Opsiynau 2, 5 a 6** yn lleihau defnydd ceir preifat yn y tymor byr trwy gyfeirio twf i ardaloedd lle ceir gwasanaethau a chyfleusterau digonol eisoes, mae'n debygol y bydd cynnydd mewn traffig, mewn tagfeydd ac mewn allyriadau cysylltiedig yn y tymor canolig a hir mewn ardaloedd sydd eisoes yn mynd yn groes i Amcanion Ansawdd Aer y

DU. Mewn cyferbyniad â hyn, mae **Opsiynau 1, 4 a 3** yn cyfeirio twf uwch i ardaloedd gwledig lle ceir diffyg mynediad at wasanaethau o bosibl ac felly a fyddai'n cynyddu defnydd ceir preifat. Fodd bynnag, yn y tymor hir, mae'n debygol y bydd canolfannau gwasanaethau yn cael eu sefydlu a'u cadw o amgylch aneddiadau gwledig ac y caiff cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus eu gwella, gan arwain at ostyngiad yn y defnydd o geir preifat a'r materion ansawdd aer cysylltiedig.

- Ceir effeithiau cadarnhaol a negyddol yn sgil **Opsiynau 1, 3 a 4** gyda golwg ar ffactorau hinsoddol. Bydd cyfeirio twf i ardaloedd gwledig yn lleihau'r pwysau ar ardaloedd trefol yn y tymor byr, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn parthau llifogydd C1/C2 mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae twf y tu allan i ganol trefi yn debygol o arwain at gynnydd mewn defnydd ceir preifat ac allyriadau cysylltiedig yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae twf mewn ardaloedd gwledig yn debygol o gynyddu datblygiad safleoedd maes gwyrdd a all leihau ardaloedd storio llifogydd ar yr ucheldir. Fodd bynnag, mae gwasanaethau a chysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o gael eu sefydlu'n fwy a'u cadw mewn ardaloedd gwledig yn dilyn twf, felly mae'n debygol y bydd yr angen am geir preifat yn lleihau. Byddai **Opsiwn 2** yn arwain at gynnydd yn y defnydd o ddulliau eraill o deithio a thwf mewn ardaloedd lle ceir gwasanaethau a chyfleusterau digonol, gan leihau'r angen am geir preifat. Fodd bynnag, mae rhai o'r prif lwybrau trafnidiaeth (e.e. A40) yn dilyn llwybrau afonydd ac mae gwaith datblygu crynodedig mewn ardaloedd o'r fath yn debygol o fod yn rhannol mewn parthau llifogydd C1 ac C2. Gallai cyfeirio twf i ardaloedd trefol fel Llanelli, Pen-bre a Phorth Tywyn, sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl o fewn ardaloedd C1 a C2 arwain at risg i ddatblygiad newydd o lifogydd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn y tymor hir. Oherwydd hyn, ac oherwydd na chaiff anghenion gwledig eu diwallu, rhagwelir y caiff **Opsiynau 5 a 6** effeithiau negyddol ar yr amcan hwn.

- Mae perfformiad yn erbyn amcanion cynaliadwyedd fel treftadaeth ddiwylliannol, bioamrywiaeth a thirwedd yn dibynnu'n fawr ar y safle a ddewisir a gweithredu oherwydd natur leol y nodweddion hyn, felly mae'n anodd arfarnu effaith ar y lefel strategol hon. Fodd bynnag, mae **Opsiynau 2 a 5** yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol yn gyffredinol ar fioamrywiaeth gan eu bod yn cyfeirio twf i ardaloedd lle cafwyd gwaith datblygu yn y gorffennol, yn hytrach nag ardaloedd sy'n fwy tebygol o arwain at ddatblygu tir y llain las.

    - Mae **Opsiynau 2 a 6** sy'n cyfeirio twf i ardaloedd lle cafwyd lefelau uchel o dwf yn hanesyddol, ac felly newidiadau demograffig, yn llai tebygol o allu amsugno rhagor o newidiadau i gymeriad ac felly byddai'n arwain at effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Nod **Opsiynau 1 a 4** yw dosbarthu twf mewn ffordd fwy cyfrannol rhwng ardaloedd trefol a gwledig, a bydd hefyd yn cefnogi cymunedau ac economi bywiog, y mae pob un ohonynt yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, yn enwedig drwy gadw pobl ifanc. Byddai **Opsiwn 3** yn gweld darpariaeth anghynaladwy o ran twf mewn ardaloedd gwledig, sydd â'r potensial i wanhau'r cymunedau Cymraeg yn yr ardaloedd hyn. Mae gan **Opsiwn 5** effeithiau negyddol Opsiynau 2 a 6, ond gall fod ganddo effeithiau cadarnhaol hefyd oherwydd creu swyddi a sgiliau sy'n gysylltiedig â Dinas-Ranbarth Bae Abertawe (h.y. Yr Egin lle mae swyddfeydd S4C) a fydd yn helpu i gadw pobl ifanc yn y sir.

5.6.7 Yn dilyn yr asesiad Arfarnu Cynaliadwyedd a'r ymatebion dilynol i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, ystyrid na ffafrid unrhyw un o'r opsiynau gan fod pob un wedi

dangos rhai canlyniadau negyddol i wahanol raddau ac na fyddai'n manteisio i'r eithaf ar y datblygiad cynaliadwy cytbwys sydd ei angen. Felly, mae CSC wedi ceisio nodi elfennau mwyaf cadarnhaol pob un i gyfrannu at ddatblygu opsiwn a ffefrir.

## Opsiwn Hybrid – Cymunedau Cytbwys a Thwf Cynaliadwy

5.6.8 O ganlyniad i'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol, a chysylltiadau dilynol a wnaed â rhanddeiliaid, argymhellwyd y dylid ystyried opsiwn hybrid fel yr opsiwn gofodol a ffefrir, sy'n adlewyrchu nifer o nodweddion ag effeithiau cadarnhaol o'r chwe opsiwn uchod.

5.6.9 Roedd yr Arfarniad Cynaliadwyedd cychwynnol yn awgrymu bod yr opsiwn hybrid yn ceisio adeiladu ar effeithiau cadarnhaol Opsiwn 4 – Dan Arweiniad y Gymuned, ac yn ceisio darparu cyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwledig a sicrhau y cydnabyddir amrywiaeth y Sir a chymunedau, ond yn cael gwared ar y dull rhagnodol o bennu ardaloedd cymeriad yn y Sir. Nod yr opsiwn hwn yw cadw dull gweithredu sy'n adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau a bydd yn ceisio bod yn ymatebol o ran y modd y mae'n neilltuo twf i ardaloedd trefol a gwledig yn y Sir.

5.6.10 Mae'r opsiwn hybrid hefyd yn ymgorffori elfennau cadarnhaol o Opsiwn 5, gan gydnabod ac adlewyrchu buddsoddiad a buddion economaidd i'r Sir a'i chymunedau trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a chyfleoedd economaidd eraill. Yn unol â'r prif bwyslais yn Opsiwn 2, mae'r opsiwn hybrid hefyd yn cydnabod bod angen amrywiaeth o seilwaith priodol i gefnogi twf cynaliadwy. Yn unol ag Opsiwn 6, bydd yn cydnabod y dylid gallu cyflawni twf a'i gyfeirio at anghenion y gymuned a galw'r farchnad. Edrychwch ar adroddiad yr Arfarniad Cynaliadwyedd i gael rhagor o wybodaeth.

5.6.11 Cafodd yr opsiwn hybrid ei asesu yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd a chyflwynir sylwadau manwl yn Adran 4.3 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir. Nodir canlyniadau'r asesiad hwn isod yn Nhabl 11 a chânt eu cyflwyno hefyd yn Ffigur 6 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol. Hwn oedd yr opsiwn a ffafrwyd ar gyfer yr Ail CDLl diwygiedig Adneuo a'r Cyntaf.

**Tabl 11 - Crynodeb o Arfarniad Cynaliadwyedd Dewisiadau Gofodol, gan gynnwys Dewis Hybrid (Ffynhonnell: Ffigur 6 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir Rhagfyr 2018)**

| Amcan Arfarnu Cynaliadwyedd | Opsiwn 1 | Opsiwn 2 | Opsiwn 3 | Opsiwn 4 | Opsiwn 5 | Opsiwn 6 | Hybrid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AC1 Datblygu Cynaliadwy | + | - | - | + | ? | ? | + |
| AC2 Bioamrywiaeth | I | + | I | I | + | I | I |
| AC3 Ansawdd Aer | - | - | - | - | - | - | + |
| AC4 Ffactorau Hinsoddol | +/- | +/- | +/- | +/- | - | - | +/- |
| AC5 Dŵr | - | + | - | + | - | - | + |
| AC6 Asedau Materol | + | - | - | + | - | - | + |
| AC7 Pridd | I | + | - | I | + | + | I |
| AC8 Treftadaeth Ddiwylliannol | I | I | I | I | I | I | I |
| AC9 Tirwedd | I | I | - | I | I | I | I |
| AC10 Poblogaeth | ++ | - | - | ++ | +/- | +/- | ++ |
| AC11 Y Gymraeg | + | - | - | + | +/- | - | + |
| AC12 Iechyd a Llesiant | + | - | - | ++ | +/- | +/- | ++ |
| AC13 Addysg a Sgiliau | + | - | - | + | ++ | ? | ++ |
| AC14 Yr Economi | + | - | - | + | ++ | ? | ++ |
| AC15 Gwead Cymdeithas | + | - | - | ++ | - | - | ++ |

## 5.7 AC blaenorol o Bolisïau Strategol a Phenodol

5.7.1 Mae Polisïau Strategol y CDLl yn bolisïau lefel uchel sydd â'r nod o gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl. Maent yn strategol eu natur a chânt eu hategu gan bolisïau a chynigion manylach ar gam Cynllun Adneuo'r CDLl diwygiedig.

5.7.2 Cyflwynwyd yr 19 o Bolisïau Strategol drafft yn Adran 11 o Strategaeth a Ffefrir y CDLl, ac roeddent yn destun profion yn erbyn Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd o fewn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol (Pennod 5). Nodir canlyniadau'r asesiad hwn yn Ffigur 7 ac Adran 5 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol.

5.7.3 Yn dilyn yr asesiad, gwnaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol hefyd nifer o argymhellion a newidiadau i eiriad y polisi er mwyn lleihau effeithiau a gwella cyfleoedd. Rhestrir y newidiadau a awgrymwyd ac ymatebion tîm polisi'r CDLl yn Atodiad 4 o'r Adroddiad AC.

5.7.4 Ers y Strategaeth a Ffefrir, ailysgrifennwyd llawer o'r Polisïau Strategol ar gyfer y Cynllun Adneuo Cyntaf a'r Ail, ac fel y cyfryw, ystyriwyd llawer o'r argymhellion ond nid oedd y newidiadau i'r geiriad a awgrymwyd yn berthnasol mwyach. Yn ogystal, ers y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf, mae ailstrwythuro sylweddol (ochr yn ochr â newidiadau mewn geiriad) bellach yn golygu ei bod yn anodd gwneud unrhyw gymhariaeth briodol rhwng sut y'u cyflwynir yn y CDLl diwygiedig presennol a thrwy gydol ei ddatblygiad. Felly, er mwyn osgoi camddehongli o fewn yr adroddiad ACI hwn, cyfeiriwch at Bennod 5 o'r AC Cychwynnol (2018) ac Adran 6.4 o'r Adroddiad AC (2020) ar gyfer eu harfarniadau a'u cyfeiriadau ar gyfer sylwebaeth.

5.7.5 Mae'r asesiad (a'r sylwebaeth gysylltiedig) o'r polisïau penodol a gyflwynwyd i ddechrau o fewn y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf ar gael yn Adran 6.6 yr Adroddiad AC (2020). Er bod llawer yn rhai penodol, mae rhai wedi eu newid yn sylweddol ac ychwanegwyd dau bolisi penodol yn llwyr.

## 5.8 Cyfyngiadau Technegol ac Ansicrwydd a nodwyd yn flaenorol

5.8.1 Prif gyfyngiadau'r broses AC yng ngham Strategaeth a Ffefrir y CDLl oedd y ffaith bod ansicrwydd ynghylch union leoliad y datblygiad a nifer y tai ar bob safle oherwydd natur eang y Strategaeth yn y cam hwn o'r broses o lunio'r cynllun. Am y rheswm hwn, dim ond casgliadau cyffredinol y gallai'r Arfarniad Cynaliadwyedd ddod iddynt am wahanol effeithiau tebygol senarios twf amgen a dosbarthiadau gofodol. Serch hynny, yn yr un modd, pwysleisiodd adroddiad AC y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf bwysigrwydd bod lliniaru'n mynd i'r afael yn ddigonol â sawl mater a nodwyd, yn enwedig yn achos:

- Bioamrywiaeth a cholli cynefin
- Capasiti seilwaith dŵr a charthffosiaeth i hwyluso twf
- Cynnydd mewn traffig ac effeithiau ansawdd aer o ganlyniad
- Datblygiad mewn parthau llifogydd C1/C2

5.8.2 Er i'r ystyriaethau uchod gael sylw yn ystod datblygiad y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf, bu i'r oedi annisgwyl a grëwyd gan broblem ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol yn y sir (fel y crybwyllwyd yn flaenorol) roi cyfle i gynnwys, cydweithio ar, ac ystyried materion ychwanegol a godwyd yn y cyfamser. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys datganiad y Cyngor o Argyfwng Hinsawdd a Natur, a chyflwyno polisïau newydd sy'n cynnwys canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer datblygu o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif o ran ffosfforws.

5.8.3 Yn arfarniad y Strategaeth a Ffefrir a'r CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf, mae'r ansicrwydd a nodwyd yn ymwneud â gallu'r seilwaith dŵr a charthffosiaeth i hwyluso twf a'i effaith ar fioamrywiaeth wedi cael sylw ers hynny yng ngoleuni'r cydweithio cysylltiedig rhwng tîm Polisi CDLl, CNC a Dŵr Cymru, yn ogystal â gwaith a gomisiynwyd yn benodol gan y Cyngor ac a wnaed gan Arcadis [44] a Ricardo [45] [46] i gynyddu ein dealltwriaeth ar y cyd o broblemau posibl, risgiau, ac opsiynau lliniaru sy'n berthnasol i gyd-destun y Sir.

---

[44]Strategaeth Lleihau Dalgylch Ffosffad Sir Gâr a Datganiad sy'n cyd-fynd â'r CDLl diwygiedig (2022)

[45] Canllawiau Cyfrifiannell Cyfrifo Maetholion I Canllaw ar sut i gyfrifo cyllideb ffosfforws ar gyfer datblygiad

[46] ADOLYGIAD TECHNEGOL O OPSIYNAU LLINIARU MAETHOLION Canllawiau ar Opsiynau Lliniaru Ffosfforws i'w defnyddio yn Sir Gaerfyrddin

## 5.9 Crynodeb o'r AC Cychwynnol Blaenorol a'r Adroddiad AC

5.9.1 Canfu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol y byddai'r Strategaeth a Ffefrir, at ei gilydd, yn dod â manteision sylweddol o safbwynt darparu'r tir ar gyfer tai a chyflogaeth sydd ei angen i gynnal twf cynaliadwy yn Sir Gaerfyrddin. Perfformiodd yn dda yn erbyn amcanion economaidd-gymdeithasol y fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd, gyda dewisiadau strategol sydd â'r nod o wella mynediad i swyddi o ansawdd da, gwasanaethau a seilwaith ar draws y Sir, gyda golwg ar fynd i'r afael â pheth o'r gwahaniaeth rhwng ardaloedd gwledig a threfol. Roedd y Strategaeth a Ffefrir hefyd yn ceisio gwella iechyd a llesiant ar draws y Sir, gyda gwell tai, mynediad i fannau agored a chyfleusterau teithio llesol.

5.9.2 Fodd bynnag, fel yn achos unrhyw ddatblygiad, roedd yna rai effeithiau negyddol posibl o hyd, yn enwedig o ran bioamrywiaeth, ansawdd aer a ffactorau hinsoddol. Serch hynny, gyda mesurau lliniaru addas, gellir lleihau'r effaith negyddol hon. Roedd rhai mesurau lliniaru eisoes wedi'u hystyried o fewn y Strategaeth a Ffefrir o ganlyniad i'r dialog parhaus rhwng yr Arfarniad Cynaliadwyedd a'r gwaith o ysgrifennu polisïau, megis dewis opsiwn gofodol Hybrid sydd â'r nod o gyfuno'r agweddau gorau ar yr opsiynau presennol eraill. Roedd yr Arfarniad Cynaliadwyedd hefyd yn awgrymu fod rhai newidiadau yn cael eu gwneud i'r geiriad i gryfhau cynaliadwyedd y Polisïau Strategol (gweler Atodiad 4 o'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd).

5.9.3 Gwnaed rhai argymhellion ehangach hefyd yn yr Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol i'w hystyried wrth awdurdodi Cynllun Adneuo'r CDLl, a amlinellir yn Nhabl 7 o'r Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol.

5.9.4 Cyflwynwyd crynodeb o berfformiad y Strategaeth a Ffefrir yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd yn Ffigur 8 o'r Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol a chaiff ei ddangos hefyd yn Nhabl 11 isod.

5.9.5 Amlygodd Adroddiad AC y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf ymhellach effeithiau negyddol posibl datblygu, o ran bioamrywiaeth, ansawdd aer a ffactorau hinsoddol. Serch hynny, canfuwyd bod natur 'amddiffynnol' a rhagnodol llawer o'r polisïau penodol a aseswyd yn lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol posibl wrth weithredu polisïau eraill. Yn ogystal, bu i'r arfarniad amlinellu i ddechrau yn Atodiadau 6 a 7 (o'r Adroddiad AC) argymhellion a fydd yn darparu a/neu'n cryfhau lliniaru a all leihau'r risgiau a ragwelwyd – mae nifer o'r rhain wedi'u hehangu a'u cryfhau (lle bo angen) o fewn yr adroddiad ACI hwn.

# 6. Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yr Ail GDLl diwygiedig Adneuo

6.0.1 Mae Adran 5 yr adroddiad hwn wedi amlinellu'r broses lle mae'r ACI wedi dylanwadu ar y Weledigaeth, yr Opsiynau Twf, yr Opsiwn Gofodol a'r Polisïau Strategol a gynhwyswyd yn y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adneuo Cyntaf, sydd, yn y pen draw, wedi ffurfio sylfaen yr Ail CDLl diwygiedig Adneuo. Mae Adran 5 hefyd yn cyfeirio at fanylion yr arfarniadau blaenorol a gyflwynwyd o fewn yr Adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd Cychwynnol ar y Strategaeth a Ffefrir ac adroddiad Arfarnu Cynaliadwyedd y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf.

6.0.2 Caiff Gweledigaeth, Amcanion a Strategaethau'r CDLl diwygiedig eu rhoi ar waith drwy ystod o bolisïau sy'n nodi'r dull gweithredu a gaiff ei gymryd wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae Adran 6 yn nodi'r broses lle mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig wedi llywio cynnwys yr Ail Gynllun Adneuo ac yn cyflwyno canlyniadau'r arfarniad o Bolisïau Strategol (Adran 6.4), Polisïau Penodol (Adran 6.6), a Dyraniadau Safle (Adran 6.8).

## 6.1 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o Weledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun Adneuo

6.1.1 Swyddogaeth y Weledigaeth yw sefydlu diben craidd y CDLl diwygiedig a darparu fframwaith ar gyfer datblygu polisïau a mesur faint o lwyddiant a gafwyd wrth weithredu’r cynllun. Mae Gweledigaeth y CDLl diwygiedig yn darparu persbectif gofodol sy’n rhoi diben a chyfeiriad i’r cynllun ac yn sicrhau cyflawniad trwy’r system cynllunio defnydd tir. Mae'r Weledigaeth, fel y'i cyflwynir isod, yn defnyddio blaenoriaethau cynllunio strategol a nodir mewn polisi cenedlaethol a strategaethau lleol, ynghyd â'r Materion Allweddol a nodwyd ar gyfer y Sir.

**Gweledigaeth y CDLl: Un Sir Gâr**

**Bydd Sir Gaerfyrddin 2033 yn lle i ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iach, diogel a ffyniannus, lle caiff ei nodweddion diwylliannol ac amgylcheddol cyfoethog (gan gynnwys y Gymraeg) eu gwerthfawrogi a'u parchu ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd**

**Bydd ganddi gymunedau llewyrchus, cydlynol a chynaliadwy a fydd yn darparu mwy o gyfleoedd, ymyriadau a chysylltiadau ar gyfer pobl, lleoedd a sefydliadau yn rhannau gwledig a threfol ein Sir fel ei gilydd.**

**Bydd ganddi economi gref sy'n adlewyrchu ei safle fel ysgogwr hyderus ac uchelgeisiol ar gyfer Dinas-ranbarth Bae Abertawe.**

6.1.2 Er nad oes unrhyw newid wedi'i wneud i eiriad y Weledigaeth ers y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf, mae wedi'i hailasesu (Tabl 12) yn unol â diffiniad mwy cyfannol o *'rinweddau amgylcheddol'* a oedd i weld yn cynnwys holl faterion amgylcheddol cyfatebol yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (fel yr amlinellwyd yn flaenorol yn Nhabl 2).

**Tabl 6 - Canlyniad yn deillio o brofi Gweledigaeth ddrafft, adneuo a diwygiedig y CDLl yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig. * fel y ceir yn yr Adroddiad AC blaenorol.**

| | ACI1 | ACI2 | ACI3 | ACI4 | ACI5 | ACI6 | ACI7 | ACI8 | ACI9 | ACI10 | ACI11 | ACI12 | ACI13 | ACI14 | ACI15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweledigaeth Adneuo (2019) * | + | + | ? | ? | ? | + | ? | + | + | + | + | + | + | + | + |
| Ail Weledigaeth Adneuo (2022) | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + |

| | |
|---|---|
| + | Perthynas gadarnhaol rhwng y Weledigaeth a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| ? | Perthynas anhysbys rhwng y Weledigaeth a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| 0 | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng y Weledigaeth a'r Amcan Cynaliadwyedd |
| - | Gwrthdaro posibl rhwng y Weledigaeth a'r Amcan Cynaliadwyedd |

6.1.3 Dylai Amcanion Strategol y CDLl diwygiedig ddarparu datganiadau clir o fwriad a chanolbwyntio ar sut i gyflawni Gweledigaeth y CDLl. Maent yn darparu fframwaith a gaiff ei ddefnyddio i ffurfio polisïau strategol, ac wedyn bydd yn llywio'r broses o lunio polisïau manwl ar gyfer y Cynllun Adneuo. Mae'r Amcanion Strategol hefyd yn gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu Twf Strategol ac Opsiynau Gofodol. Datblygwyd 14 o Amcanion Strategol drafft gan roi sylw i faterion allweddol a nodwyd o'r sail dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.

6.1.4 Daeth sawl problem gyd-destunol i'r amlwg ar ôl cyhoeddi'r CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf, ac mae'n cynnwys materion sydd, er eu bod y tu hwnt i reolaeth y Cynllun yn unig, wedi effeithio ar ei baratoad a'i gynnwys. Fel y nodwyd ym mharagraff 5.7 o'r Cynllun, mae'r rhain yn Ymateb UCI 1 i gyhoeddi Canllawiau CNC ar Lefelau Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol gwarchodedig; UCI 2 Cydnabod ac adlewyrchu'r effeithiau sy'n deillio o Covid-19; UCI 3 Datganiad o Argyfwng Hinsawdd gan y Cyngor; UCI 4 Datganiad o Argyfwng Natur gan y Cyngor; UCI 5 Menter Deg Tref.

6.1.4 O ystyried bod y materion hyn, a amlinellir gan yr Amcanion Strategol, yn cael sylw bellach, cynhaliwyd ail arfarniad i gynnwys y mân newidiadau cyd-destunol hyn ac i asesu'r Amcanion Strategol yn erbyn Fframwaith yr ACI (Tabl 13). Gellir dod o hyd i sylwebaeth ar y broses hon yn Atodiad D. Ar y cyfan, mae'r 14 o Amcanion Strategol yn dangos cyd-fynd cadarnhaol ag egwyddorion Datblygu Cynaliadwy ac yn perfformio'n dda o'i gymharu â'r Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig, a phrin yw'r gwrthdaro posibl a ddaw i'r amlwg. Mae hyn yn dangos bod agweddau cynaliadwyedd wedi'u hystyried yn llawn trwy gydol y broses o ddatblygu'r Amcanion Strategol.

6.1.5 Ar gyfer llawer o'r Amcanion Cynaliadwyedd, ni ŵyr beth fydd eu heffaith gan fod y canlyniad yn dibynnu ar y math o ddatblygiad, gweithgaredd neu leoliad. Mae'r

arfarniad hefyd yn tynnu sylw at rywfaint o wrthdaro posibl o ran Bioamrywiaeth, Ansawdd Aer, Dŵr, Treftadaeth Ddiwylliannol, a Thirwedd (ffactorau sydd, yn anorfod, wedi'u cyd-gysylltu, ac felly mae'n anodd gwahanu eu heffeithiau posibl). Dylid datrys yr effeithiau ansicr a negyddol posibl hyn, trwy'r polisïau CDLl diwygiedig manwl a chamau lliniaru priodol, lle bo hynny'n bosibl. Serch hynny, bydd yr effeithiau cadarnhaol posibl hynny a amlinellir hefyd yn ddibynnol ar bolisïau'r Cynllun.

**Tabl 13 – Arfarniad o Amcanion Strategol a gyflwynwyd o fewn Adran 7 o'r Ail GDLI diwygiedig Adneuo (2022) (gweler Atodiad D ar gyfer sylwebaeth)**

| | ACI1 – Datblygu Cynaliadwy | ACI2 – Bioamrywiaeth | ACI3 – Ansawdd Aer | ACI4 - Ffactorau Hinsoddol | ACI5 – Dŵr | ACI6 - Asedau Materol | ACI7 - Pridd | ACI8 - Treftadaeth Ddiwylliannol | ACI9 – Tirwedd | ACI10 – Poblogaeth | ACI11 – Y Gymraeg | ACI12 - Iechyd a Llesiant | ACI13 - Addysg a Sgiliau | ACI14 – Yr Economi | ACI15 - Gwead Cymdeithas |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **AS1** | + | + | + | + | + | 0 | + | ? | + | 0 | 0 | ? | 0 | ? | ? |
| **AS2** | + | ? | 0 | 0 | ? | + | 0 | ? | ? | + | 0 | + | ? | 0 | + |
| **AS3** | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | + | + | + |
| **AS4** | + | 0 | + | + | 0 | + | 0 | 0 | + | + | + | + | 0 | + | + |
| **AS5** | + | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | 0 | + | + | ? | ? | ? |
| **AS6** | + | + | + | + | + | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + | 0 | + |
| **AS7** | + | + | + | + | + | + | ? | 0 | + | ? | 0 | + | + | + | + |
| **AS8** | + | 0 | + | + | 0 | + | 0 | 0 | ? | + | 0 | + | 0 | 0 | + |
| **AS9** | + | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | + | 0 | 0 | + |
| **AS10** | + | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | + | + |
| **AS11** | + | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | + | + | + | + | 0 | + | 0 | + |
| **AS12** | + | - | - | ? | - | ? | ? | ? | - | + | ? | + | + | + | + |
| **AS13** | + | - | - | ? | - | 0 | 0 | - | ? | + | ? | + | + | + | 0 |
| **AS14** | + | 0 | + | + | + | + | 0 | 0 | - | + | 0 | + | + | + | + |

| | |
|---|---|
| **+** | Perthynas gadarnhaol rhwng Amcan Strategol y CDLI Diwygiedig a’r Amcan Cynaliadwyedd |
| **?** | Perthynas anhysbys rhwng Amcan Strategol y CDLI Diwygiedig a’r Amcan Cynaliadwyedd |
| **0** | Dim cysylltiad uniongyrchol rhwng Amcan Strategol y CDLI Diwygiedig a’r Amcan Cynaliadwyedd |
| **-** | Gwrthdaro posibl rhwng Amcan Strategol y CDLI Diwygiedig a’r Amcan Cynaliadwyedd |

## 6.2 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Strategaeth Dwf a Ffefrir

6.2.1 Fel cafwyd sylw yn Adran 5.5, mae'r amcanestyniadau twf a gynigir ar gyfer y CDLl diwygiedig wedi bod trwy sawl iteriad ers yr opsiynau cyntaf a arfarnwyd. Gall opsiynau twf ddefnyddio sawl ffactor megis amcanestyniadau poblogaeth, demograffeg (e.e. strwythur oedran a newid yn yr aelwydydd), tai a gwblhawyd yn flaenorol, ac anghenion a stociau tai cyfredol/a ragwelir. I lywio'r CDLl diwygiedig yn y modd gorau, ac fel rhan o'r broses o lunio'r cynllun, cafodd sawl adroddiad eu comisiynu i ddarparu'r opsiwn oedd mwyaf addas i'r cyd-destun lleol. Er nad oedd proses yr ACI ar ei phen ei hun yn pennu'r opsiwn twf mwyaf priodol, roedd y canfyddiadau o fewn yr adran ganlynol hon wedi helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ac i sicrhau bod y goblygiadau niweidiol tebygol ar agweddau ar gynaliadwyedd mor fach ag sy'n bosib.

6.2.2 Nodwyd y broses hon gyntaf pan gyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth a Ffefrir, a oedd yn amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth, comisiynodd y Cyngor Edge Analytics i ddarparu amrywiaeth o senarios demograffig ac economaidd i lywio amcanestyniadau twf tebygol ar gyfer y sir yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun 2018-2033. Ar sail yr amrywiaeth o dystiolaeth ddemograffig ac economaidd a gyflwynwyd yn yr adroddiad, roedd y Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor yn nodi gofyniad tai o 9,887 o anheddau (2018-2033), sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r senario o ran Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir a gyflwynwyd yn nadansoddiad Edge Analytics.

6.2.3 Yn dilyn hyn, comisiynwyd Edge Analytics ar gyfer ychwanegiad at ei waith blaenorol a oedd yn darparu tri opsiwn twf ychwanegol fel yr ystyriwyd yn y CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf. Opsiwn Twf Poblogaeth 10 mlynedd (2019), a oedd yn cynnwys 8,835 o anheddau (2018–2033), oedd y Strategaeth Twf a Ffefrir gan arwain at ostyngiad o 1052 o anheddau o gymharu â'r opsiwn a ddewiswyd yn flaenorol. Fel y dangosir yn Ffigur 4 uchod, ac fel y cyfeiriwyd ato yn Adran 5.5 o'r Adroddiad AC, penderfynwyd mai bychan fyddai effaith hyn ar sgorio'r AC.

6.2.4 O ystyried yr amser aeth heibio rhwng y ddau opsiwn twf blaenorol hyn, a'r newidiadau tebygol i'r ffactorau a amlinellwyd uchod ym mharagraff 6.2.1, comisiynwyd Turley a chynhyrchwyd dau adroddiad ganddynt i ddarparu opsiynau twf wedi'u diweddaru er mwyn llywio'r Ail CDLl diwygiedig Adneuo yn y modd gorau posib. Mae'r opsiynau hyn wedi cael eu hamlinellu (Tabl 14) ac yna'u hasesu yn erbyn y Fframwaith ACI isod:

**Tabl 14 – Crynodeb o Senarios Tai a Thwf Economaidd 2018 – 2033 (fel yn Ychwanegiad Turley 2022), wedi'i uno â ffigurau aelwydydd yn fras a gyfrifwyd ar sail 81,505 yn 2018 *[47].**

| **Prif Amcanestyniad Llywodraeth Cymru ar sail 2018 (2018)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (~%) * | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| + 3.3 % | + 5.2 % | 291 | 4,359 |

| **Amrywiad "Poblogaeth Uchel" LIC ar sail 2018 (2018)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (~%) * | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| + 5.0 % | + 6.7 % | 378 | 5,670 |

| **Amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd Deng Mlynedd (2022)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (~%) * | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| + 7.7 % | + 10.4 % | 588 | 8,822 |

| **Amcanestyniad sy'n seiliedig ar duedd Pymtheng Mlynedd (2022)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Anheddau sydd eu Hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (~%) * | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| + 8.5% | + 11.0 % | 618 | 9,272 |

| **Senario Llinell Sylfaen ar sail cyflogaeth (2022)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Nifer yr anheddau sydd eu hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (~%) * | Yn flynyddol | Dros gyfnod y cynllun |
| + 8.7% | + 11.7 % | 662 | 9,933 |

| **Prif Amcanestyniad Ail-sylfaenu (2022)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfnod cynllun trosglwyddo (2018 – 2033) | | Nifer yr anheddau sydd eu hangen | |
| Poblogaeth (%) | Aelwydydd (~%) * | Yn flynyddol | Cyfanswm dros gyfnod y cynllun |
| + 9.4% | + 12.3 % | 697 | 10,461 |

[47] Aelwydydd fesul Awdurdod Lleol a Blwyddyn (llyw.cymru)

6.2.4 Cafodd effeithiau pob un o'r opsiynau twf diwygiedig eu hasesu yn erbyn y Fframwaith ACI, a'u sgorio gan ddefnyddio Tabl 15, a darperir sylwebaeth lawn yn Atodiad E. Darperir crynodeb yn Nhabl 16. Ystyriwyd nad oedd yn realistig cynnwys dewis amgen yn ymwneud â busnes fel arfer (h.y. sefyllfa'r CDLI presennol) gan fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r CDLI diwygiedig ddefnyddio amcanestyniadau twf Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ar sail 2018 (2018)) fel man cychwyn. Serch hynny, mae'r Opsiwn Twf a Ffefrir blaenorol (Twf Poblogaeth 10 Mlynedd (2019)) a amlinellir yn y CDLI Adneuo Cyntaf wedi'i gynnwys i gael cyd-destun ychwanegol.

**Tabl 15 - Meini prawf asesu penodol ar gyfer Opsiynau Twf, fel yr addaswyd o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Llywodraeth Cymru Rhifyn 3 (2020). Er ei fod yn debyg i'r matrics sgorio a amlinellir yn Nhabl 3, tynnwyd y maen prawf 'I' (mae'r effaith yn dibynnu ar sut mae'r polisi/dyraniadau'n cael eu gweithredu) i leihau amwysedd gweithredu posibl. * = Awgrym ar gyfer ffurfio polisi i wella/lliniaru effaith yr Opsiwn Twf a Ffefrir.**

| Symbol | Effaith a ragwelir (O gymharu â'r sefyllfa bresennol) | Awgrymiadau Lliniaru Cychwynnol * |
|---|---|---|
| ++ | Effaith gadarnhaol iawn – sy'n debygol o arwain at gynnydd sylweddol tuag at amcan ACI. | Ystyried a ellir gwella'r effaith gadarnhaol iawn ymhellach drwy bolisïau |
| + | Effaith gadarnhaol - yn debygol o arwain at rywfaint o gynnydd tuag at amcan ACI. | Ystyried a ellir gwella’r effaith gadarnhaol ymhellach drwy bolisïau |
| +/- | Effeithiau cadarnhaol a negyddol – byddai testun yr arfarniad yn helpu rhai elfennau o’r amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ond yn llesteirio elfennau eraill. | Dylai polisïau geisio lliniaru effeithiau negyddol a gwella'r effeithiau cadarnhaol hynny |
| - | Effaith negyddol – yn debygol o fod braidd yn niweidiol i gyflawni amcan ACI. | Bydd angen mesurau lliniaru i leihau difrifoldeb neu effaith opsiwn twf. |
| -- | Effaith negyddol iawn – yn debygol o fod yn niweidiol iawn i gyflawni amcan ACI. | Bydd angen mesurau lliniaru sylweddol i leihau difrifoldeb neu effaith opsiwn twf. |
| 0 | Effaith niwtral o gymharu â'r sefyllfa llinell sylfaen bresennol | Ystyried a allai ymyriadau polisi roi bod i effeithiau cadarnhaol |
| ? | Effaith ansicr (mae angen rhagor o wybodaeth) | Ystyried o ble bydd hyn yn dod – gan bwy mae’r wybodaeth? Sut y caiff ei chasglu? Pryd y caiff ei chasglu? |

**Tabl 16 - Crynodeb o ACI yr Opsiynau Twf ar gyfer y CDLI diwygiedig (gweler Atodiad E ar gyfer sylwebaeth). * yn unol ag amcanestyniad Llywodraeth Cymru ar sail 2018 (2018).**

| Opsiynau Twf | ACI1 – Datblygu Cynaliadwy | ACI2 - Bioamrywiaeth | ACI3 - Ansawdd Aer | ACI4 - Ffactorau Hinsoddol | ACI5 – Dŵr | ACI6 - Asedau Materol | ACI7 - Pridd | ACI8 - Treftadaeth Ddiwylliannol | ACI9 – Tirwedd | ACI10 – Poblogaeth | ACI11 – Y Gymraeg | ACI12 - Iechyd a Llesiant | ACI13 - Addysg a Sgiliau | ACI14 – Yr Economi | ACI15 - Gwead Cymdeithas |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn Twf a Ffefrir y CDLI diwygiedig Adneuo Cyntaf (wedi'i ailasesu*)** | | | | | | | | | | | | | | | |
| Twf poblogaeth 10 mlynedd (2019) 8,835 annedd | + | +/- | - | +/- | + | 0 | + | +/- | +/- | ++ | +/- | +/- | +/- | + | + |
| **Opsiynau Twf a Ffefrir yr Ail GDLI diwygiedig Adneuo** | | | | | | | | | | | | | | | |
| LIC ar sail 2018 (2018) 4,359 annedd | + | +/- | +/- | +/- | + | 0 | + | +/- | +/- | + | +/- | +/- | +/- | + | +/- |
| "Poblogaeth Uchel" (2018) 5,670 o anheddau | + | +/- | +/- | +/- | + | 0 | + | +/- | +/- | + | +/- | +/- | +/- | + | +/- |
| Tuedd deng mlynedd (2022) 8,822 annedd | + | +/- | - | +/- | + | 0 | + | +/- | +/- | ++ | +/- | +/- | +/- | + | + |
| Tuedd bymtheg mlynedd (2022) 9,272 o anheddau | +/- | - | - | - | +/- | 0 | +/- | - | - | ++ | - | +/- | +/- | + | + |
| Ar sail cyflogaeth (2022) 9,933 annedd | +/- | -- | -- | - | +/- | - | +/- | - | -- | ++ | -- | +/- | +/- | ++ | + |
| Prif amcanestyniad wedi'i ail-sylfaenu (2022) 10,461 o anheddau | +/- | -- | -- | - | +/- | - | +/- | - | -- | ++ | -- | +/- | +/- | ++ | + |

6.2.5 I grynhoi, mae’r opsiynau twf diwygiedig yn cyflwyno’r materion a’r cyfleoedd canlynol:

6.2.6 Mae'r opsiynau twf diwygiedig i gyd yn cynnig materion a chyfleoedd tebyg pan gânt eu hasesu yn erbyn y Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd Integredig. Mae pob opsiwn yn cefnogi twf yn y boblogaeth, ac felly, yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar boblogaeth, economi, a gwead cymdeithasol. Mae hyn oherwydd y darogan y bydd mewnfudo o blith pobl o oedran gweithio ac iau, a fydd yn mynd rhywfaint o'r ffordd i wrthbwyso'r boblogaeth sy'n heneiddio yn Sir Gaerfyrddin.

6.2.7 Mae twf ar unrhyw lefel sy'n arwain at ddatblygiad yn golygu colli arwynebau pridd/athraidd i statws caled a photensial am effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth. Fodd bynnag, mae'r pedwar opsiwn twf diwygiedig yn rhoi cydbwysedd rhwng ffactorau amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol o'u cymharu ag amcanestyniadau twf uwch sy'n debygol o fod yn niweidiol iawn i gyflawni ACI2, ACI3, ac ACI9.

6.2.8 Yn yr un modd, gall tai a datblygu economaidd arwain at fwy o weithgarwch trafnidiaeth a allai gael effeithiau negyddol ar ansawdd aer ac ôl troed carbon y sir. Fodd bynnag, mae pedwar opsiwn yn rhoi cydbwysedd o ffactorau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol o gymharu ag opsiynau twf uwch dan arweiniad Cyflogaeth ac egwyddor Ail-sylfaenu (2022). Sgoriodd y ddau opsiwn hyn yn debyg iawn i'r amcanestyniadau hynny a geir yn y Strategaeth a Ffefrir o ystyried y nifer uwch o anheddau.

6.2.9 Mae gan bob opsiwn twf y potensial i gael effeithiau negyddol ar asedau a thirwedd hanesyddol a diwylliannol, a bydd yn ddibynnol ar ble mae twf yn cael ei ddyrannu. Fodd bynnag, gall y tri amcanestyniad isaf hefyd ddarparu rhai manteision i'r perwyl hwn.

6.2.10 Nododd tystiolaeth flaenorol ar effeithiau a ragwelir yr opsiynau twf ar ACI11 Iaith [48] Gymraeg effeithiau cadarnhaol a negyddol, er bod yr effeithiau negyddol hyn yn drech nag unrhyw fanteision ar lefel amcanestyniadau yr opsiynau twf. Ar gyfer dadansoddi a sylwebaeth fanwl ar opsiynau twf ar ACI11, cyfeiriwch at yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

6.2.11 I grynhoi, mae'r opsiynau twf hyn i gyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at gynnal economi gynaliadwy a chymdeithas iach a chytbwys, gan hefyd leihau'r risg o effeithiau negyddol ar Amcanion Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yr amgylchedd.

6.2.12 Daethpwyd i'r casgliad mai'r opsiwn twf a ffefrir fyddai Amcanestyniad 10 mlynedd ar sail tueddiadau (2022) gan fod yr opsiwn hwn yn darparu cydbwysedd o fuddion economaidd-gymdeithasol i gyflawni Bargen Dinas-ranbarth Bae Abertawe, Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor, amcanion adfywio a chreu swyddi a datblygu uchelgeisiau'r Cyngor o ran darparu tai fforddiadwy ar draws y Sir, gan hefyd geisio lleihau tensiynau rhwng datblygiadau a'r posibilrwydd o effeithio ar Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig megis Bioamrywiaeth, Ansawdd Aer, Dŵr, Pridd, Treftadaeth Ddiwylliannol, y Dirwedd a'r Gymraeg.

6.2.13 Fel yn achos unrhyw ddatblygiad, roedd yna rai effeithiau negyddol posibl o hyd, o ran bioamrywiaeth, ansawdd aer, ffactorau hinsoddol, a'r iaith Gymraeg. Gyda mesurau lliniaru addas, fodd bynnag, gellir lleihau'r effeithiau negyddol hyn.

6.2.14 Gan nad oedd yr ACI hwn yn gwerthuso'r dystiolaeth y mae'r Amcanestyniad Deng Mlynedd ar sail Tueddiadau yn seiliedig arno, bydd angen i'r tîm CDLl diwygiedig a phenderfynwyr y Cyngor sicrhau nad yw'r ffigur hwn mor uchel fel ei fod yn achosi problemau amgylcheddol sylweddol, ond hefyd nad yw mor isel fel ei fod yn rhoi rhagor

[48] Asesiad o Effaith CDLl Adneuo Drafft Sir Gaerfyrddin ar y Gymraeg. Rhagfyr 2019.

o straen ar y farchnad dai ac yn peri i'r Cyngor beidio cyflawni ei botensial economaidd. Serch hynny, o ran hyrwyddo datblygiad cynaliadwy (ACI1) a diwallu'r angen ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, mae'r opsiwn a ddewiswyd yn fwy tebygol o ddarparu mwy o dai fforddiadwy na'r ddau amcanestyniad is.

## 6.3 ACI o'r Opsiwn Gofodol a Ffefrir

6.3.1 Nid yw'r opsiwn gofodol a ffefrir ar gyfer yr Ail GDLl diwygiedig Adneuo wedi cael ei newid ers y Strategaeth a Ffefrir, ac felly, nid oes angen ailasesu'r opsiwn ar hyn o bryd. Mae'r asesiad cychwynnol o'r Opsiwn Gofodol a ffefrir i'w weld yn Adran 4.3 o'r AC Cychwynnol o'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'r Opsiwn Hybrid a ffefrir yn parhau i geisio darparu cyfleoedd ar gyfer ardaloedd gwledig a sicrhau bod amrywiaeth y Sir a'i chymunedau yn cael ei chydnabod, yn ogystal â cheisio adlewyrchu rôl a swyddogaeth aneddiadau yn y modd y mae'n neilltuo twf i ardaloedd trefol a gwledig y Sir.

6.3.2 Mae'r opsiwn hybrid hefyd yn adlewyrchu buddsoddiad a buddion economaidd i'r Sir a'i chymunedau trwy Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a chyfleoedd economaidd eraill. Mae hefyd yn cydnabod bod angen i dwf cynaliadwy gael ei gefnogi drwy sicrhau bod amrywiaeth o seilwaith priodol ar gael ac y dylai twf fod yn gyraeddadwy ac yn canolbwyntio ar anghenion y gymuned a'r galw yn y farchnad.

6.3.3 Ochr yn ochr â'r Opsiwn Twf a Ffefrir, mae'n anodd penderfynu pa effeithiau a briodolir i ansicrwydd economaidd, cymdeithasol, ac amgylcheddol, ochr yn ochr â ffactorau megis newidiadau i bolisi lefel genedlaethol, ar yr arfarniad ar y cam strategol, lefel uchel hwn. Ceir sylwebaeth bellach yn ymwneud â'r effeithiau eilaidd, cronnus a synergaidd o fewn yr Adroddiad AC.

## 6.4 Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig o'r Polisïau Strategol

6.4.1 Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus y Strategaeth a Ffefrir a'r CDLl diwygiedig Adneuo Cyntaf, cafodd sawl polisi ei addasu i adlewyrchu adborth a sylwadau, gan gynnwys yr argymhellion a wneir yn yr AC Cychwynnol ac adroddiad yr AC. Cafodd yr holl bolisïau, yn ychwanegol at y rhai sydd wedi'u diwygio, eu hail-sgrinio wedyn yn erbyn y Fframwaith ACI i weld a fyddent yn arwain at effeithiau sylweddol tebygol. Rhestrir y polisïau diwygiedig a sylwebaeth yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig ar yr ailasesiad yn Atodiad F. Cyflwynir canlyniadau'r ailasesiad yn erbyn y Fframwaith Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig yn Nhabl 17.

**Tabl 17 - Crynodeb o ACI Polisïau Strategol y CDLl diwygiedig (gweler Atodiad F am sylwebaeth).**

| | SP1 | SP2 | SP3 | SP4 | SP5 | SP6 | SP7 | SP8 | SP9 | SP10 | SP11 | SP12 | SP13 | SP14 | SP15 | SP16 | SP17 | SP18 | SP19 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ACI1 | I | + | +/- | I | I | + | + | + | + | + | + | ++ | +/- | + | + | ++ | ++ | I | I |
| ACI2 | - | I | - | - | - | I | - | 0 | +/- | I | I | + | - | ++ | 0 | + | + | - | - |
| ACI3 | - | +/- | +/- | - | - | +/- | +/- | 0 | + | 0 | +/- | ++ | + | + | 0 | + | ++ | - | I |
| ACI4 | - | +/- | +/- | - | - | +/- | + | 0 | + | - | +/- | ++ | + | + | 0 | ++ | + | - | I |
| ACI5 | I | I | I | I | I | 0 | ? | 0 | + | I | I | + | - | + | 0 | + | 0 | - | 0 |
| ACI6 | + | 0 | +/- | + | + | + | + | 0 | + | + | + | + | + | 0 | 0 | + | ++ | 0 | + |
| ACI7 | I | I | I | I | I | I | I | 0 | - | - | I | + | - | + | 0 | 0 | 0 | - | - |
| ACI8 | I | I | I | I | I | I | I | + | +/- | 0 | I | + | I | + | ++ | 0 | 0 | I | I |
| ACI9 | I | + | I | +/- | I | I | I | 0 | - | I | I | + | - | + | + | 0 | 0 | - | I |
| ACI10 | ++ | + | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | + | + | + | + | + | + | ? | + | 0 | 0 |
| ACI11 | +/- | +/- | ? | +/- | + | ++ | + | ++ | I | ? | ? | + | +/- | 0 | + | 0 | 0 | 0 | 0 |
| ACI12 | + | 0 | + | + | + | ++ | 0 | 0 | + | + | ++ | + | + | + | + | + | + | - | 0 |
| ACI13 | + | 0 | + | + | + | ++ | + | + | + | + | + | 0 | + | + | + | ? | + | 0 | 0 |
| ACI14 | ++ | ++ | ++ | ++ | + | ++ | ++ | + | + | + | ++ | + | ++ | + | + | ? | 0 | + | + |
| ACI15 | + | + | ++ | + | ++ | ++ | + | ++ | ++ | + | + | + | ++ | + | + | ? | + | 0 | 0 |

## 6.5 Lliniaru ac Argymhellion – Polisïau Strategol

6.5.1 Mae Tabl 18 yn crynhoi'r asesiad o effeithiau posibl y Polisïau Strategol.

6.5.2 Wrth weithredu'r CDLI diwygiedig, dylid darllen pob polisi ar y cyd ac ni ddylid ystyried unrhyw bolisi unigol ar ei ben ei hun. Am y rheswm hwn, oherwydd natur 'amddiffynnol' a rhagnodol rhai o bolisïau'r CDLI diwygiedig, gallant ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau negyddol posibl wrth weithredu polisïau eraill. Mae Atodiad F wedi nodi polisïau'r CDLI diwygiedig sy'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ac ansicrwydd y Polisïau Strategol.

6.5.3 Mae Tabl 18 yn cynnig mesurau pellach i osgoi neu leihau effeithiau gweddilliol y Polisïau Strategol. Mae hefyd yn gwneud awgrymiadau am sut i wella manteision y Polisïau Strategol yn ogystal â mynd i'r afael â rhywfaint o ansicrwydd a allai fod yno o hyd.

**Tabl 18 - Crynodeb o fesurau lliniaru/gwella arfaethedig ar gyfer Polisïau Strategol y CDLI diwygiedig. Ar gyfer y polisïau hynny nad ydynt wedi'u rhestru isod, ystyriwyd bod y mesurau lliniaru arfaethedig a amlinellwyd mewn sylwebaeth lawn o fewn Atodiad F yn datrys effeithiau negyddol gweddilliol ac ansicrwydd arall.**

| Polisi Strategol | Mesurau Lliniaru/Gwella Arfaethedig |
|---|---|
| **SP2: Adwerthu a Chanol Trefi** | Gallai mesurau lliniaru ar gyfer unrhyw effeithiau ansawdd aer gael eu cryfhau ymhellach drwy gyfeirio'n benodol at ddiogelu a gwella Seilwaith Gwyrdd a Glas o fewn ac yn ymyl Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer ym mholisi PSD12 Ansawdd Aer a Golau.<br>Gellir lliniaru unrhyw effeithiau negyddol eraill ac unrhyw ansicrwydd drwy Bolisïau Penodol y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. |
| **SP3: Dosbarthu Cynaliadwy – Hierarchaeth Aneddiadau** | Dylid ystyried paragraff 4.2.24 (PPW) yn ymwneud ag effeithiau cronnus posibl datblygiad yn ystod cyfnod y cynllun mewn cefn gwlad agored (ac aneddiadau haen 4). Gallai datblygiadau lluosog a ganiateir o dan anghenion tai lleol gael effaith andwyol barhaol ar y dirwedd, a chyfyngu ar hygyrchedd i wasanaethau, teithio cynaliadwy, a chyfleusterau cymunedol. Dylai anghenion lleol fod ag agweddau gofyniad lleoliad a/neu adnoddau, a hefyd helpu i sicrhau hyfywedd y gymuned leol - gan ddarparu buddion i gefnogi amcanion ACI economaidd-gymdeithasol. |
| **SP5: Tai Fforddiadwy** | Awgrymir oherwydd yr angen tebygol am dai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol yn Sir Gaerfyrddin, fod polisi SP4 yn cyfeirio'n benodol yn y testun ategol at ddiogelu'r amgylchedd naturiol wrth leoli tai fforddiadwy.<br>Awgrymir bod y polisi yn cyfeirio'n benodol yn y testun ategol at leoli tai fforddiadwy mewn lleoliadau sydd â mynediad da at rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â llwybrau teithio llesol. Hefyd nodwch sut dylid gwella mynediad i gyfleusterau drwy PSD6: Cyfleusterau Cymunedol. |
| **SP6: Safleoedd Strategol** | O ran y testun ategol, ystyriwch gyfeirio at y ffaith bod effeithiau negyddol tebygol ar ansawdd dŵr Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn cael eu lliniaru ymhellach gan Ganllawiau Cynllunio Atodol Cilfach Tywyn a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cysylltiedig, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr gymryd camau |

| | |
|---|---|
| | digolledu mewn perthynas â dŵr mewn dalgylchoedd sy'n draenio i Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd (gyda rhywfaint o berthnasedd i CCH4). |
| **SP7: Cyflogaeth a'r Economi** | Awgrymir bod testun ategol yn cyfeirio'n benodol at y ffaith y gallai datblygiadau cyflogaeth hefyd gynnwys seilwaith gwyrdd a glas megis tirweddu a chlustogfeydd. |
7.0.4 Fel y trafodwyd isod, mae elfennau integredig yr asesiad hwn wedi sicrhau bod yr holl ofynion statudol a osodir ar yr Awdurdod Lleol, yn ogystal â'r rheiny i sicrhau ymagwedd fwy cyfannol, wedi cael eu hystyried mewn perthynas â chwmpas a swyddogaeth y CDLl diwygiedig.

7.0.5 Cafodd yr AEG ei gynnal mewn sawl cam datblygiadol drwy gydol cyfnod paratoi'r CDLI diwygiedig, a nodi'r potensial ar gyfer effaith fawr ar y nodweddion canlynol; Oed, Anabledd, Hil a'r Gymraeg, ochr yn ochr â chynnal y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd. Caiff mesurau lliniaru eu hamlygu'n glir yn yr asesiad hwn (Atodiad I), er bod sylwebaeth wedi'i hadleisio ymhellach lle bo'n berthnasol (yn enwedig yn yr asesiad o'r polisïau strategol/penodol), ac awgrymwyd bod monitro wedi'i amlinellu i sicrhau nad oedd effaith anghymesur ar yr holl nodweddion gwarchodedig. Ar y cyfan, rhagwelwyd nad oedd y polisïau a arfarnwyd yn yr adroddiad presennol yn debygol o gael effaith niweidiol anghymesur ar nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal â'r Adroddiad ACI, bydd AEG dilynol yn cael ei gynnal ar ôl ymgynghori i sicrhau bod yr holl newidiadau'n cydymffurfio ag egwyddorion cydraddoldeb a chynwysoldeb. Yn ystod gweithrediad y CDLI diwygiedig, bydd yn bwysig parhau i ystyried cydraddoldeb a Dyletswydd Gymdeithasol-Economaidd.

7.0.6 Gan gyfateb i'r sylwebaeth a roddwyd/cyfeiriwyd yn yr adroddiad ACI presennol hwn, daeth canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg i'r casgliad bod y Strategaeth Ofodol a Ffefrir ar gyfer y CDLI diwygiedig yn fân bositif, o gymharu â busnes fel arfer – er, cyfeiriwch at baragraff 2.5.3 yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n nodi rhybuddion ynghylch unrhyw ragdybiaethau a thebygolrwydd sy'n helpu i ddynodi maint y newid posibl. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiad demograffig ym mhob clwstwr, mae gwahaniaethau penodol yn debygol o gael eu gweld o fewn Clwstwr 3. Canfuwyd bod posibilrwydd realistig byddai'r Opsiwn Twf a Ffefrir dewisedig yn annog a gwireddu twf cyffredinol yn nifer y siaradwyr Cymraeg - yn enwedig grwpiau oedran iau. Er bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd o achos diffyg tystiolaeth bendant, mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn dod i'r casgliad ei bod yn anodd penderfynu ar yr effeithiau eilaidd, cronnus, a synergaidd ar y Gymraeg.

7.0.7 Er rhagweld na fyddai effeithiau negyddol tebygol ar iechyd corfforol a meddwl (Asesiad o'r Effaith ar Iechyd) yn uniongyrchol, canfuwyd byddai problemau cysylltiedig â'r amgylchedd yn sgil bod yn agored i sŵn traffig, llygryddion aer, a halogiad dŵr yn effeithiau eilaidd. Mae'r CDLI diwygiedig wedi hyrwyddo egwyddorion creu lleoedd, a mesurau lliniaru penodol mewn ymateb i'r effeithiau hyn. Hefyd, nodwyd bod darparu mannau agored newydd, teithio llesol, a hyrwyddo mynediad i asedau treftadaeth ddiwylliannol a naturiol yn cael dylanwad cadarnhaol a chronnus ar iechyd cymunedau lleol cyfan. Serch hynny, mae'r fframwaith monitro arfaethedig canlynol wedi canolbwyntio'n benodol ar gynnwys dangosyddion lluosog sy'n gysylltiedig â'r ffactorau hyn, i sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw digonol.

7.0.8 Roedd rhoi ystyriaeth i nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â'r rhai gan Fwrdd Gwasanaethu Cyhoeddus Sir Gâr, yn rhan annatod o baratoi'r Cynllun. Mae canfyddiadau'r asesiad hwn yn dangos bod gan y CDLI diwygiedig y potensial i gefnogi gwelliannau yn llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y sir (o gymharu â'r llinell sylfaenol bresennol), o gofio'r berthynas â'r Fframwaith ACI. Fodd bynnag, er yn parhau'n ddibynnol ar fyrdd o rymoedd sydd tu allan i gwmpas y CDLI diwygiedig, mae'n bwysig bod polisïau'r Cynllun a mesurau lliniaru cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n effeithiol i gyflawni hyn, ac, o'r herwydd, cynllunnir dros 23 o Ganllawiau Cynllunio Atodol i helpu pobl i ddeall cyd-destun y polisïau dehongli, gan gefnogi darparu datblygiadau cynaliadwy yn y pen draw.

# 8. Fframwaith Monitro

8.0.1 Mae'r *Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Erthygl 17)* [50]yn ei gwneud yn ofynnol i effeithiau amgylcheddol arwyddocaol y Cynllun gael eu monitro er mwyn gallu lliniaru'n briodol unrhyw *effeithiau andwyol annisgwyl.* Roedd y *Gyfarwyddeb AAS* yn cydnabod ymhellach y gallai fod yn anodd adnabod a gweithredu dulliau monitro ar gyfer effeithiau annisgwyl, neu, lle bo monitro o'r fath yn digwydd, priodoli effeithiau andwyol ynghlwm wrth weithredu'r Cynllun. Yn unol â chanllawiau cysylltiedig y Comisiwn Ewropeaidd (paragraff 8.12), [51]deellir effeithiau andwyol na ellir eu rhagweld fel *'...diffygion y datganiadau prognostig yn yr Adroddiad Amgylcheddol (e.e., ynghylch dwyster rhagweladwy'r effaith amgylcheddol) neu effeithiau annisgwyl sy'n deillio o newidiadau i amgylchiadau, sydd wedi arwain at rai rhagdybiaethau yn yr asesiad amgylcheddol yn cael eu hannilysu'n rhannol neu'n llwyr'.*

8.0.2 Mae monitro yn helpu i ddeall effeithiau gweithredu'r Cynllun (yn ei gyfanrwydd) ac yn sicrhau bod y dystiolaeth yn cael ei diweddaru, a fydd yn helpu yn y pen draw i adolygu'r CDLl diwygiedig yn y dyfodol. Mae angen i waith monitro ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol tebygol y CDLl diwygiedig. Rhaid iddo hefyd archwilio effeithiau cronnol, eilaidd a synergaidd uwchlaw effaith y mesurau unigol, a thrwy gydol oes y Cynllun. Yn unol â natur integredig yr asesiad presennol, mae'r gofynion o dan Erthygl 17 wedi'u bodloni yn ychwanegol at yr holl amcanion ACI, ac, felly, trwy estyniad hefyd yr ystyriaethau a'r gofynion hynny a nodir ym mharagraff 1.6.

8.0.3 Nodir targedau ar gyfer pob dangosydd, ynghyd ag awgrym o'r pwynt neu'r lefel lle bydd unrhyw wyriad o'r targed a nodwyd yn sbarduno'r angen i weithredu. Byddai'r camau gweithredu hyn fel arfer yn cynnwys dadansoddiad o'r rhesymau dros fethu'r targed, gydag adborth yn cael ei roi i'r rheiny sy'n gyfrifol am y Cynllun a'u hadolygiad dilynol o'r Polisi dan sylw.

8.0.4 Yn atodol i fonitro effeithiau amgylcheddol, mae pob thema ACI a'r holl amcanion namyn un wedi'u sgrinio i'r Fframwaith Monitro ACI, sy'n cael ei amlinellu yn Nhabl 26 ochr yn ochr â'r cyfeiriad at y ffynonellau gwybodaeth a fwriadwyd. Mae rhai o'r amcanion ACI heb ddangosydd monitro cyfatebol o achos absenoldeb dangosydd addas ar hyn o bryd (ar lefel leol), ac er byddai dangosyddion cenedlaethol (yn cynnwys Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol) yn gweithio mewn rhai achosion, ystyrir bod rhain yn anaddas gan eu bod tu hwnt i ddylanwad unigol y Cynllun ei hun. Er bydd llawer o'r data'n dod o'r tu fewn i'r Awdurdod, caiff ffynonellau allanol dibynadwy eu cynnwys hefyd (a nodwyd i ddechrau o fewn y wybodaeth sylfaenol, Tabl 11 o Atodiad B).

8.0.5 Mae meini prawf arfaethedig yr asesiad wedi'u hamlinellu yn Nhabl 25. Yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol, gyda chanlyniad y meini prawf asesu hyn, bydd sylwebaeth fanwl o sut y daethpwyd i'r canlyniad hwn (dadansoddiad o'r holl ddata perthnasol sy'n gysylltiedig â'r dangosydd hwnnw a chasgliad cyffredinol). Camau adfer posibl y gellid eu cymryd os nodir effaith negyddol sylweddol (e.e., adolygu agweddau ar y Cynllun sy'n achosi'r effeithiau a gwneud gwelliannau lle bo hynny'n briodol, datblygu mesurau lliniaru), a hefyd darperir trothwyon ar gyfer gweithredu adferol hefyd.

8.0.6 Er mwyn osgoi dyblygu rhwng y gwaith monitro a wnaed ar gyfer yr ACI (yn cynnwys y gofyniad AAS) a'r CDLl diwygiedig, mae rhai dangosyddion wedi'u cyfuno ar gyfer y ddwy broses er mwyn hwyluso eglurder (fel y nodir yn Nhabl 26 gan y sêr). Mae

[50] Rheoliadau yr Asesiad Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004
[51] Gweithredu cyfarwyddeb 2001/42/EC ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd

Fframwaith Monitro llawn y CDLI diwygiedig wedi'i nodi ym Mhennod 12 y Cynllun Adneuo. Caiff gweithgareddau monitro ac adroddiadau eu cynnwys yn Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLI diwygiedig. Bydd y gwaith monitro'n dechrau ar ôl i'r CDLI diwygiedig gael ei fabwysiadu. Gall fod rhai amgylchiadau (e.e. newidiadau mewn deddfwriaeth, datblygiadau mewn casglu data/dangosyddion sy'n caniatáu arsylwi effaith andwyol nas rhagwelir) lle gallai fod yn ofynnol i'r Fframwaith Monitro ACI gael ei ddiwygio (h.y. rheoli addasol). Pe bai hyn yn digwydd, bydd hyn yn cael ei amlygu'n benodol a'i resymu o fewn yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

**Tabl 25 – Meini prawf asesu Fframwaith Monitro ACI arfaethedig sy'n berthnasol i'r asesiad unigol o ddangosyddion monitro yn ogystal â'r crynodeb cyffredinol o amcan ACI.**

| Symbol | Disgrifiad | Camau Adferol (gan gynnwys y trothwy, lle bo'n briodol) |
|---|---|---|
| **+** | Cyrhaeddwyd y targedau(au). | Nid oes angen gweithredu. |
| **+/-** | Cyrhaeddwyd rhai targedau ond methwyd cyrraedd eraill (dim ond yn berthnasol i'r crynodeb cyffredinol o'r amcanion ACI hynny sydd â dangosyddion monitro lluosog). | Cyfeirir at ganlyniad penodol y dangosyddion monitro unigol. |
| **-** | Ni chyrhaeddwyd y targed(au) ac mae pryderon ynghylch gweithredu'r Cynllun a/neu bolisi(au) penodol. | Angen cymryd camau adferol priodol (ysgogir y camau gan y trothwy a nodwyd yn y CDLI diwygiedig, neu'r targed a fethwyd am bedwar cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol yn olynol, neu pryd bynnag y tybir ei bod yn angenrheidiol gan y rheiny sy'n gyfrifol am ymgymryd â monitro ACI i ymateb i effeithiau niweidiol sylweddol, ansicrwydd, a newidiadau yn y dyfodol y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cynllun). |
| **0** | Ni chyrhaeddwyd y targed(au) ond nid oedd pryderon ynghylch gweithredu'r Cynllun a/neu bolisi(au)penodol (y gallai ffactorau allanol y tu hwnt i ddylanwad y Cynllun ei hun effeithio arnynt). | Nid oes angen gweithredu. Os ydych yn ansicr, ceisiwch wybodaeth/ffynonellau data ychwanegol ac ailwerthuso, lle bo'n bosibl. |
| **?** | Ni ellir dod i gasgliad ar hyn o bryd. | Ceisiwch wybodaeth/ffynonellau data ychwanegol ac ailwerthuso, lle bo'n bosibl. |
| **Ddim yn berthnasol** | Ddim yn berthnasol | Ystyriwch berthnasedd dangosydd monitro sy'n asesu amcan ACI ac adolygwch y Fframwaith ACI os bydd angen. |

**Tabl 26 – Fframwaith Monitro ACI Arfaethedig Mae'r dangosyddion hynny sy'n ymwneud ag effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu'r Cynllun, fel sy'n ofynnol gan Erthygl 17 (AAS), wedi'u hamlygu'n llwyd. * = Dangosydd yn gysylltiedig â Dangosydd Monitro'r CDLl diwygiedig fel a geir ym Mhennod 12 (CDLl diwygiedig).**

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| **ACI1 – Datblygu Cynaliadwy** | | | |
| 1-1 Byw o fewn terfynau amgylcheddol | Yn cael ei fonitro drwy ACI2, ACI3, ACI4, ACI5, ACI6, ACI7 | | |
| 1-2 Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn | Yn cael ei fonitro drwy ACI10, ACI11, ACI12, ACI13, ACI14, ACI15. | | |
| 1-3 Cyflawni economi gynaliadwy | Yn cael ei fonitro drwy ACI6, ACI10, ACI14. | | |
| 1-4 Dileu rhwystrau a hyrwyddo cyfleoedd i newid ymddygiad | * DM. 36 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais datblygu a ganiateir yn unol â SP12 a Chanllawiau Cynllunio Atodol, lle bo hynny'n briodol. | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Hydref/Tachwedd 2024<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Caniateir pob cais datblygu yn unol â SP12. | CSC (Adran Gynllunio) |
| | Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol fesul awdurdod lleol a blwyddyn | Cynnydd blynyddol | Dangosyddion Arolwg Cenedlaethol (StatsCymru) https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Local-Area-and-Environment/percentagewhofeelabletoinfluencedecisionsaffectingtheirlocalareas-by-localauthority-year |
| | % yr oedolion (16+) sy'n byw ar aelwydydd lle mae amddifadedd materol yn Sir Gaerfyrddin | Gostyngiad blynyddol | Dangosyddion Arolwg Cenedlaethol (StatsCymru) https://statswales.gov.wales/v/MRi5 Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd sy'n ddifreintiedig yn faterol yn ôl awdurdod lleol (llyw.cymru) |
| | % yr aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin sy'n byw mewn tlodi (pan fo incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm canolrifol Prydain) | Gostyngiad blynyddol | CSC (e.e. Adroddiad Blynyddol ar gyfer Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin) |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| **ACI2 - Bioamrywiaeth** | | | |
| 2-1 Hybu cydnerthedd ecosystemau drwy osgoi difrodi neu ddarnio safleoedd dynodedig, cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir ac annog cysylltedd. | Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiatawyd sydd ag effaith niweidiol ar:<br>a) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd Ramsar<br>b) uniondeb safle dynodedig ar gyfer gwarchod natur<br>c) amcanion/statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau a warchodir gan Ewrop<br>d) rhywogaethau a chynefinoedd sy'n flaenoriaeth | Ni chaniatawyd unrhyw gais sydd ag effaith niweidiol ar a), b), c) a/neu d) | CSC (Adran Gynllunio) |
| | Mae pob cais datblygu a ganiateir yn unol â SP14 (gan gynnwys y polisïau penodol), lle bo hynny'n briodol. | Ni chaniateir ceisiadau yn groes i gyngor arbenigol Cadwraeth Wledig. | CSC (Cadwraeth Wledig) |
| 2-2 Gwarchod, gwella a chreu cynefinoedd bywyd gwyllt priodol a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd trefol a gwledig | % y datblygiadau a ganiateir sy'n cynnwys gwella bioamrywiaeth (gan gynnwys buddion net ar gyfer bioamrywiaeth), a/neu strategaethau lliniaru. | Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'w effaith ar fioamrywiaeth a chynnwys lliniaru yn unol â'r hierarchaeth lliniaru pryd bynnag y bo angen. | CSC |
| | * DM. 38 – Dangosydd Lleol: Darparu Seilwaith Gwyrdd a Glas yn y Sir (hectarau). | Cynnydd blynyddol | |
| | * DM. 40 – Dangosydd Lleol: Maint y mannau agored a gollwyd i ddatblygiadau.<br><br>Hefyd rhowch faint (mewn hectarau) o fannau gwyrdd a/neu ddynodiadau amgylcheddol gwarchodol sydd yn Sir Gaerfyrddin er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol. | Ni ddylid colli mannau agored a nodwyd i ddatblygiadau oni bai lle bo hynny yn unol â Pholisi PSD7 | |
| | * DM. 43 – Dangosydd Lleol: Parhau i weithio tuag at sicrhau bod lleiafswm o 100 hectar o gynefin addas i Fritheg y Gors o fewn prosiect Caeau Mynydd Mawr. | Cynnydd ym mhob cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol yn yr ardal cynefin a reolir sydd mewn cyflwr addas; neu gynnydd yng nghyflwr ffafriol y cynefin o fewn ardal y prosiect. | Grŵp Llywio Prosiect Caeau'r Mynydd Mawr<br>CSC – System Monitro Perfformiad a Gwella (PIMS) |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| **ACI3 – Ansawdd Aer** | | | |
| 3-1 Cynnal a gwella lefelau llygryddion Ansawdd Aer Cenedlaethol y DU | Dangosyddion Ansawdd Aer (fesul Awdurdod Lleol). Crynodiadau cyfartalog a bwysolwyd gan y boblogaeth a'u modelu. | Gostyngiad blynyddol | Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 4 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Air-Quality/airqualityindicators-by-localauthority |
| | | | Rheoli Ansawdd Aer Lleol (LAQM) yn cael ei fonitro gan Iechyd Cyhoeddus Cyngor Sir Gaerfyrddin. |
| | | | Ansawdd Aer Cymru |
| | Nifer y toriadau i amcanion Ansawdd Aer Rhif 2 UE/DU yn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer Sir Gaerfyrddin.<br>a) Llanelli<br>b) Llandelio<br>c) Caerfyrddin | Heb fynd yn groes i NO2 o fewn a), b), and c). | Ansawdd Aer Cymru |
| 3-2 Lleihau lefelau osôn ar lefel y ddaear | Mae'r holl geisiadau datblygu a ganiateir yn unol â CCH3, lle bo hynny'n briodol. | Mae pob cais a ganiateir yn bodloni'r gofyniad a bennwyd yn CCH3 lle bo'n berthnasol. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | O 2023 ymlaen, ni fydd osôn ar lefel y ddaear yn cael ei fonitro'n rheolaidd yn Sir Gaerfyrddin. Oni bai bod monitro i ddechrau yn ystod cyfnod y cynllun, mae gostyngiad mewn traffig cerbydau modur gan roi bod i gynnydd yn y defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, neu seilwaith cerdded/beicio, wedi cael ei ddefnyddio mewn procsi (oni bai bod dangosydd addas arall yn dod i'r amlwg).<br><br>Gweler isod. | (fel yr isod) | (fel yr isod) |
| 3-3 Lleihau'r angen i deithio, trwy leoli datblygiadau newydd mewn mannau addas a darparu seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus | Gostyngiad mewn traffig cerbydau modur (Cyfanswm y traffig a gyfrifir fel milltiroedd cerbyd). | Gostyngiad blynyddol yn y traffig (milltiroedd cerbyd). | Cyfanswm y traffig (milltiroedd cerbyd) – Yr Adran Drafnidiaeth https://roadtraffic.dft.gov.uk/local-authorities |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | | | [Ystadegau traffig ffyrdd - Awdurdodau lleol ar draws Prydain (dft.gov.uk)] |
| **ACI4 - Ffactorau Hinsoddol** | | | |
| 4-1 Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | Set ddata allyriadau carbon deuocsid awdurdod lleol blynyddol (diwygiedig)<br><br>DS: Nwyon tŷ gwydr eraill nad ydynt yn cael eu mesur yn ddigonol ar hyn o bryd ar lefel awdurdod lleol (nodwch os bydd ar gael o fewn cyfnod y Cynllun) | Gostyngiad blynyddol yng nghyfanswm y carbon deuocsid a ryddheir. | Yr Adran ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1008815/2005-19_Local_Authority_CO2_emissions.csv/preview |
| 4-2 Lleihau'r perygl o effaith newid hinsawdd ar Sir Gaerfyrddin drwy wneud lle i ddŵr, cilio arfordirol a phatrymau dosbarthu cynefin symudol | DM. 51 – Dangosydd Allweddol: Faint o ddatblygiadau bregus iawn (fesul categori datblygu paragraff 5.2 TAN 15) a ganiateir ym mharthau perygl llifogydd C2) nad ydynt yn cydymffurfio â'r profion TAN15 (paragraff 6.2 i-v). | Dim ceisiadau a ganiateir ar gyfer datblygiad hynod fregus yn ardal and C2 flood risk zone perygl llifogydd C1 | |
| | Mae pob cais datblygu a ganiateir yn unol â NE 7 (gan gynnwys y polisïau penodol), lle bo hynny'n briodol. | Dim ceisiadau wedi eu caniatáu nad ydynt yn cydymffurfio â NE 7 | |
| 4-3 Annog pob datblygiad newydd i allu gwrthsefyll yr hinsawdd | Mae pob cais datblygu a ganiateir yn unol â SP12 a SP16 (gan gynnwys y polisïau penodol), lle bo hynny'n briodol. | Dim ceisiadau wedi eu caniatáu nad ydynt yn cydymffurfio â SP12 | CSC (Adran Gynllunio) |
| 4-4 Annog pobl i arbed ynni a gwneud defnydd mwy effeithlon o ynni | Mae pob cais datblygu yn cael ei annog i wneud y mwyaf o effeithlonrwydd ynni (paragraff 11.496) yn unol â SP16 (gan gynnwys y polisïau penodol), lle bo hynny'n briodol. | Nifer y ceisiadau a ganiateir sy'n dangos effeithlonrwydd ynni uchel (boddhaol hyd at safonau, gofynion a thargedau adeiladu cenedlaethol). | Cyngor Sir Caerfyrddin<br><br>Cyfeirir at https://gov.wales/energy-efficiency-strategy |
| 4-5 Lleihau'r defnydd o ynni a hybu ffynonellau o ynni adnewyddadwy. | Faint o ynni a gynhyrchir yn y sir o ffynonellau adnewyddadwy drwy:<br><br>a) Nifer, a<br>b) Chapasiti gosod datblygiadau technoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel a ganiateir. | Cynnydd blynyddol yn a) a b) | CSC (Adran Gynllunio) |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | Yn ymwneud â'r *DM. 53 | | |
| **ACI5 – Dŵr** | | | |
| 5-1 Sicrhau bod ansawdd dŵr afonydd, llynnoedd, dŵr daear ac ardaloedd arfordirol yn cael ei wella a sicrhau bod ansawdd hydroforffoleg cyrff dŵr mor uchel â phosibl. | Dosbarthiad blynyddol Ansawdd Dŵr Ymdrochi ar gyfer safleoedd ymdrochi<br>a) Pen-bre<br>b) Pentywyn<br>yn Sir Gaerfyrddin | Cynnal dosbarthiad ansawdd dŵr rhagorol | Cynlluniau rheoli tynnu dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru<br>https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/water-available-in-our-catchments/?lang=en |
| | Nifer y cyrff dŵr â statws dosbarthu 'da' neu uwch o safbwynt<br>a) Statws ecolegol<br>b) Statws cemegol<br>(cyflwynwyd fel % o'r holl gyrff dŵr monitro) | a) Yn cynyddu<br>b) Yn cynyddu | Arsylwi Dyfroedd Cyfoeth Naturiol Cymru https://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/en/ |
| 5-2 Diogelu a chynnal adnoddau dŵr yn y gadwyn gyflenwi gyhoeddus a sicrhau bod digon o ddŵr ar gael ar gyfer yr amgylchedd ar hyd y flwyddyn | Argaeledd Adnoddau Dŵr Strategaeth Rheoli Tynnu DŵrDalgylch Bae Caerfyrddin | Sefydlog / Dim gostyngiad | Dogfen Gyfeirio:<br>https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/approved-documents/part-g-sanitation/?lang=en<br>CCC Building Control |
| | Yn achos yr holl geisiadau datblygu a ganiateir, nid ydynt yn cael effaith andwyol ar Barthau Diogelu Ffynhonnell (SPZs) ac maent yn cynnal Asesiad Risg Hydrogeolegol, pryd bynnag y bo angen. | Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'w effaith hydroddaearegol ac yn cynnwys lliniaru pryd bynnag y bo angen. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| 5-3 Lleihau llygredd gwasgaredig o ardaloedd trefol a gwledig. | % y safleoedd a ganiateir sy'n cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy neu reolaeth dŵr cynaliadwy arall. | Yn cynyddu | |
| | DM. 54 Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ansawdd Dŵr – Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Gwarchodedig<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais datblygu a ganiateir yn unol â SP16 a CCH4 (gan gynnwys Canllawiau Cynllunio Atodol cyfatebol), lle bo hynny'n briodol. | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Hydref/Tachwedd 2024 | |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | | Ar ôl Mabwysiadu: Caniateir pob cais datblygu yn unol â CCH4. | Cyfeirir yn benodol at https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/building-regulations-guidance-part-g-sanitation-hot-water-safety-and-water-efficiency.pdf |
| 5-4 Cynyddu effeithlonrwydd dŵr mewn datblygiadau newydd a datblygiadau wedi eu hadnewyddu | Nifer y tai a adeiladwyd sy'n cyflawni'r trothwy effeithlonrwydd dŵr a osodwyd gan y llywodraeth yn Rhan G o Atodlen 1 a rheoliad 36 i Reoliadau Adeiladu 2010.<br><br>* DM. 1 – Dangosydd sy'n ofynnol gan y Ddeddfwriaeth: Nifer yr aneddiadau ychwanegol ar y farchnad agored a'r tai fforddiadwy a adeiladwyd yn ardal y Cynllun (procsi – gan gymryd bod pob datblygiad yn cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu). | Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn. | |
| 5-5 Gwneud lle ar gyfer dŵr, a lleihau a chyfyngu cymaint â phosibl ar y perygl o lifogydd | Cyfeirir at ddangosyddion monitro o fewn 4-2. | | |
| | Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) mewn perygl canolig neu fawr o lifogydd o afonydd a'r môr | Sefydlog/Gostyngiad | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 32 https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Environment-and-Countryside/Flooding/environment-and-countryside-state-of-the-environment-our-local-environment-properties-at-risk-of-flooding |
| **ACI6 - Asedau Materol** | | | |
| 6-1 Cyfyngu gymaint â phosibl ar y defnydd o adnoddau cyfyngedig a hyrwyddo mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau a defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu | * DM. 59 – Dangosydd Lleol: Faint o fanc tir craig galed sydd | Cadw banc tir o 10 mlynedd o leiaf ar gyfer craig galed | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | * DM. 60 – Dangosydd lleol: Faint o fanc tir tywod a graean sydd | Cadw banc tir o 7 mlynedd o leiaf ar gyfer tywod a graean. | |
| 6-2 Hyrwyddo'r hierarchaeth wastraff, sef arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu | Canran y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio/ailgylchu/compostio (fesul Awdurdod Lleol) | Cynyddu'n flynyddol | StatsCymru https://statswales.gov.wales/Catalogue/Environment-and-Countryside/Waste-Management/Local-Authority-Municipal- |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | | | Waste/annualreuserecyclingcompostingrates-by-localauthority-year |
| 6-3 Annog y gwaith o ddiwallu anghenion yn lleol | * DM. 63 – Dangosydd Lleol: Monitro achosion o ganiatâd cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff | Cynnal capasiti digonol i ddiwallu angen lleol (yn unol â strategaethau a pholisïau'r Cyngor) | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | * = DM.27 – Cyflawni seilwaith allweddol sy'n ategu strategaeth y Cynllun | Monitro datblygiad seilwaith newydd, megis gwelliannau i ffyrdd a rheilffyrdd, cyfleustodau, a gwelliannau o ran bioamrywiaeth. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | * DM. 29 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Sicrhau bod Rhwymedigaethau Cynllunio yn cael eu trefnu yn unol â INF1 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol (ac yn ymwneud â NE4, NE3, NE1, PSD8, PSD6, SP9, AHOM2). | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Hydref/Tachwedd 2024<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a roddwyd yn cael ystyriaeth ddyledus i'r gofynion hyn fel rhagluniaeth gan y % o'r datblygiadau y gwnaed Rhwymedigaethau Cynllunio. | |
| | Canran y bobl sy’n fodlon eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a’r gwasanaethau y maent eu hangen | Cynnydd yng nghanran yr oedolion (16+) sy'n cytuno â'r datganiad hwn. | Dangosyddion Arolwg Cenedlaethol 25 https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Local-Area-and-Environment/percentageofpeoplesatisfiedwithaccesstofacilitiesandservices |
| 6-4 Hyrwyddo defnydd o adnoddau mwy cynaliadwy | Cyfanswm terfynol y defnydd o ynni ar lefel awdurdod lleol (ktoe) | Cynnydd mewn bio-ynni; Gostyngiad ym mhob | Yr Adran ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | (hyd nes bydd ceir trydan yn cael eu monitro'n fwy aml ar lefel awdurdod lleol) | ffynhonnell danwydd anadnewyddadwy arall. | https://www.gov.uk/government/statistics/total-final-energy-consumption-at-regional-and-local-authority-level-2005-to-2020 |
| | * DM. 55 Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gerbydau Trydan a Cherbydau Allyriadau Isel Iawn mewn Datblygiadau<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Sicrhau bod Pwyntiau Gwefru Trydan yn cael eu trefnu yn unol â CCH3 a Chanllawiau Cynllunio Atodol | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Haf 2025<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn | CSC (Yr Adran Gynllunio) |
| 6-5 Gwella integreiddiad gwahanol ddulliau trafnidiaeth | * DM. 56 – Dangosydd Lleol: Cynnydd tuag at weithredu cynllun ffyrdd a nodwyd | Gweithredu yn unol â'r amserlenni o ran cyflawni | |
| | * DM. 58 – Dangosydd Lleol: Gweithredu Cynlluniau Ffordd Llywodraeth Cymru – yn cynnwys Ffordd Osgoi Llandeilo | ddim yn berthnasol - gwybodaeth gyd-destunol | |
| 6-6 Hyrwyddo defnydd o ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy (e.e. beicio a cherdded) | * DM. 57 – Dangosydd Lleol: Faint o ganiatâd cynllunio a roddir i seilwaith cerdded a beicio | Cynnydd yn nifer y cynlluniau a ganiateir | |
| **ACI7 - Pridd** | | | |
| 7-1 Hyrwyddo'r gwaith o adnewyddu tir halogedig.<br><br>(tir a ddatblygwyd o'r blaen) | Faint o ddatblygiadau newydd (hectar) a ganiateir ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol (ailddatblygu ac addasu tir llwyd) a fynegir fel % o'r holl ddatblygiadau a ganiateir. | Cynnydd a chynnal | CSC (Adran Gynllunio) |
| 7-2 Osgoi colli pridd i arwynebau anathraidd a chyfyngu cymaint â phosibl ar erydiad pridd | Yn cael ei fonitro gan 5-3. | | |
| 7-3 Lleihau allyriadau SO2 ac NOx a llygredd nitradau o fyd amaeth | Dim dangosydd ar gael ar hyn o bryd. | | |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| **ACI8 - Treftadaeth Ddiwylliannol** | | | |
| 8-1 Diogelu asedau hanesyddol a diwylliannol a nodweddion unigryw lleol rhag effeithiau negyddol datblygu/adfywio a chefnogi gwelliannau iddynt | Nifer y datblygiadau a ganiatawyd sy’n cael effaith niweidiol ar adeiladau ac ardaloedd adeiledig neu o ddiddordeb hanesyddol a’u lleoliadau yn erbyn cyngor treftadaeth adeiledig. | Dim datblygiad wedi'i ganiatáu yn groes i gyngor treftadaeth adeiledig, a lle bo'n briodol, cymerir camau lliniaru dilynol. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | * DM. 50 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr Amgylchedd Adeiledig a Hanesyddol.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Sicrhau bod yr holl gynigion datblygu yn unol â SP15 a'r canllawiau cynllunio atodol, lle bo'n briodol. | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Rhagfyr 2025<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn | |
| | * DM. 49 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Archaeoleg<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Sicrhau bod yr holl gynigion datblygu yn unol â SP15 a'r canllawiau cynllunio atodol, lle bo'n briodol. | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Hydref/Tachwedd 2024<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn | |
| 8-2 Hyrwyddo dylunio o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r cymeriad lleol a nodweddion unigryw | Nifer y ceisiadau a wrthodwyd ar sail dylunio. | Ni chaniatawyd datblygiadau sy'n mynd yn groes i bolisïau CDLl diwygiedig. | CSC (Yr Adran Gynllunio) |
| **ACI9 – Tirwedd** | | | |
| 9-1 Diogelu'r dirwedd/trefwedd rhag effeithiau negyddol newid defnydd tir a'u gwella | DM. 48 Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gymeriad y Dirwedd.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Sicrhau bod yr holl gynigion datblygu yn unol â SP14 a'r canllawiau cynllunio atodol, lle bo'n briodol. | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Haf 2025.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a ganiateir yn rhoi | CSC |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | | ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn | |
| 9-2 Rhoi ystyriaeth i leoliadau sensitif wrth leoli datblygiadau a hyrwyddo gwaith dylunio o ansawdd uchel | Nifer y datblygiadau a ganiatawyd ag effaith niweidiol ar y dirwedd. | Ni chaniatawyd datblygiadau sy'n mynd yn groes i bolisi CDLl diwygiedig. | |
| 9-3 Annog defnydd priodol o dir adfeiliedig yn y dyfodol<br><br>(Tir y tybiwyd ei fod yn dir a ddatblygwyd o'r blaen) | Yn cael ei fonitro gan 7-1 | | |
| **ACI10 – Poblogaeth** | | | |
| 10-1 Sicrhau stoc addas, fforddiadwy o dai, gyda mynediad i gyfleusterau addysg a chyflogaeth | * DM. 13 – Dangosydd Allweddol: Lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd a fonitrwyd yn erbyn targed cyffredinol y cynllun<br>. | Darparu cyfanswm o 1700 o dai fforddiadwy erbyn 2033. Darparu tai fforddiadwy yn flynyddol. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | * DM. 14 – Dangosydd Allweddol: Deiliadaeth tai fforddiadwy a gwblhawyd. | Deiliadaeth wedi'i rhannu (cymdeithasol a rennir a chanolradd) yn unol â'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA). | |
| | * DM. 15 – Dangosydd Allweddol: Tueddiadau o ran y prif bethau sy'n dylanwadu ar hyfywedd ac amodau'r farchnad, megis prisiau tai, gwerthoedd tir, a chostau adeiladu. | Mae'r gofynion polisi yn adlewyrchu'r amgylchiadau economaidd presennol a hyfywedd ariannol. | Priswyr Cyngor |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | * DM. 16 – Dangosydd Lleol: Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy - trothwyon a thargedau canran ar gyfer pob safle tai a ddyrennir sydd wedi cael caniatâd. | Dylai canran y tai fforddiadwy a ganiateir ar ddyraniadau preswyl fod yn unol â Pholisi AHOM1. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| 10-2 Helpu i gadw pobl iau | Llai o allfudo ymhlith oedrannau<br>a) 0 – 14<br>b) 15 – 29<br>c) 30 – 44<br>sy'n byw yn Sir Gâr | Gostyngiad blynyddol | Mudo mewnol o awdurdodau lleol Cymru i weddill y DU – StatsCymru<br>https://statswales.gov.wales/v/MRid<br>Mudo rhwng Cymru a gweddill y DU yn ôl awdurdod lleol, llif, rhyw ac oedran (llyw.cymru) |
| 10-3 Hyrwyddo'r gwaith o gynnwys grwpiau dan anfantais a lleiafrifoedd yn y gymdeithas | % y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu â'i gilydd yn dda; a bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch. | Yn cynyddu | Llesiant Cymru: dangosyddion (Awdurdod Lleol)<br>Tabl \| Llesiant Cymru: dangosyddion \| Llesiant \| Pobl, cymunedau a chydraddoldeb \| Data \| Cartref - InfoBaseCymru |
| | * DM. 31 – Dangosydd Lleol: Safleoedd / lleiniau Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd a ddyrennir | Darparu'r lleiniau gofynnol a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| **ACI11 Y Gymraeg** | | | |
| 11-1 Annog twf yr iaith Gymraeg a'i diwylliant | * DM. 26 – Dangosydd Lleol: % y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg | Cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg yn y sir | Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 24<br>Arolwg Cenedlaethol Cymru<br>Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | * DM. 25 – Dangosydd Lleol: Ceisiadau cynllunio a gefnogir gan Gynlluniau Gweithredu y Gymraeg neu'r Asesiadau Effaith ar y Gymraeg | Mae pob cais cynllunio a gefnogir yn unol â Pholisi WL1. | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | * DM. 24 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar yr Iaith Gymraeg a Datblygiadau Newydd.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Sicrhau bod yr holl gynigion datblygu yn unol â SP8, WL1 a'r canllawiau cynllunio atodol, lle bo'n briodol. | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Hydref/Tachwedd 2024.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn | |
| | * DM. 37 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar hysbysebion (canllawiau ar ofynion dwyieithog) | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Haf 2025<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn | |
| **ACI12 – Iechyd a Llesiant** | | | |
| 12-1 Creu cyfleoedd i bobl fyw bywydau actif ac iach trwy gynllunio gweithgareddau | * DM. 30 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Sicrhau bod yr holl gynigion datblygu yn unol â SP7, INF2, a'r canllawiau cynllunio atodol, lle bo'n briodol. | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Haf 2025.<br><br>Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | % yr oedolion ddywedodd eu bod yn rhy drwm neu'n ordew | Yn gostwng | Iechyd (awdurdod lleol) \| Adroddiadau \| Cartref - InfoBaseCymru |
| 12-2 Darparu mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau iechyd a hamdden | Canran y bobl sy'n fodlon/fodlon iawn eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt | Yn cynyddu | Adroddiadau teithio llesol https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/teithio-ffyrdd-a-pharcio/teithio-llesol/#.W_LIpVNzyUk |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | Cyfeirir at 6-3: Canran y bobl sy’n fodlon eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a’r gwasanaethau y maent eu hangen | Gweler dangosydd perthnasol o fewn 6-3 | |
| 12-3 Annog cerdded neu feicio fel dull cludiant amgen | Yn cael ei fonitro gan ACI6 (6-6) * = MI.49 | | |
| 12-4 Hybu mynediad i dreftadaeth naturiol a diwylliannol Cymru | Yn cael ei fonitro gan ACI2 (2-2) * MI. 40, DM. 43 | | |
| | Canran y bobl sy’n bresennol neu sy’n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn (yn ôl Awdurdod Lleol). | Cynnydd blynyddol yng nghanran yr oedolion (16+) sy'n mynychu. | StatsCymru https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Sport-and-Recreation/percentageofpeoplewhoattendorparticipateinartcultureheritageactivities3ormoretimesayear-by-localauthority-year |
| **ACI13 - Addysg a Sgiliau** | | | |
| 13-1 Darparu cyfleusterau addysg a hyfforddiant hygyrch sy'n diwallu anghenion yr ardal yn y dyfodol | Pentre Awel – Cyflawni elfen parth un o'r safle. | Rhoi caniatâd i'r safle yn ystod cyfnod y Cynllun. | CSC |
| 13-2 Cynyddu lefelau llythrennedd (Cymraeg a Saesneg) a rhifedd | | | |
| 13-3 Hybu dysgu gydol oes | Lefel y cymhwyster uchaf sydd gan oedolion o oedran gweithio yng Nghymru (fesul Awdurdod Lleol). | Cynnydd blynyddol yng nghanran y bobl 18-64 oed sy'n dweud bod ganddynt gymhwyster lefel 3 +. | Llesiant Cymru: Dangosydd Cenedlaethol 8 https://gov.wales/wellbeing-wales-national-indicators |
| **ACI14 – Yr Economi** | | | |
| 14-1 Hybu twf economaidd cynaliadwy | Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) y pen (gwerth De-orllewin Cymru) | Yn cynyddu | |
| 14-2 Darparu cyfleoedd cyflogaeth o ansawdd da i bob rhan o'r boblogaeth | DM. 20 – Dangosydd Allweddol: Tir cyflogaeth a ddefnyddir yn erbyn dyraniadau cyflogaeth. | Ni roddwyd caniatâd ar dir cyflogaeth a ganiateir (hectar) ar safleoedd cyflogaeth a ddyrennir | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | Statws pobl gyflogedig yn yr Awdurdod Lleol | Cynnydd yn nifer y:<br>a) Cyfanswm mewn Cyflogaeth<br>b) Gweithwyr<br>c) Hunangyflogedig<br>d) Amser llawn<br>e) Rhan-amser | StatsCymru<br>https://statswales.gov.wales/v/MU8T |
| | * DM. 22 – Dangosydd Lleol: Tir cyflogaeth a gollir i ddefnyddiau tir eraill (yn cynnwys safleoedd cyflogaeth presennol a/neu arfaethedig a nodwyd) | Dim colled i ddefnyddiau eraill<br>oni bai gellir cyfiawnhau hynny drwy'r Polisi CDLl diwygiedig<br>. | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | * DM. 23 – Dangosydd Lleol: Caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddiau cyflogaeth y tu allan i safleoedd cyflogaeth presennol neu arfaethedig a nodwyd lle maent yn groes i ddarpariaethau Polisi EME4. | Sicrhau bod defnyddiau cyflogaeth y tu allan i safleoedd cyflogaeth presennol a/neu arfaethedig a nodwyd yn unol â Pholisi EME4 | |
| 14-3 Hybu busnesau cynaliadwy yng Nghymru | * DM. 4 – Dangosydd Lleol: Unedau Adwerthu Gweigion mewn eiddo masnachol | Lleihau cyfradd yr eiddo masnachol sy'n wag o fewn<br>terfynau<br>penodol canol trefi. | Archwiliad Manwerthu a Chanol y Dref |
| | * DM. 34 – Dangosydd Lleol: Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin | ddim yn berthnasol<br>- gwybodaeth gyd-destunol | Adroddiad STEAM a baratowyd gan GTS UK (Adroddiad Blynyddol Marchnata a'r Cyfryngau Cyngor Sir Caerfyrddin<br>) |
| | * DM. 35 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Wersylla Moethus Amgen | Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol erbyn Hydref/Tachwedd<br>2024 | Cyngor Sir Caerfyrddin |

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig | Dangosydd Monitro | Targed | Ffynhonnell Data |
|---|---|---|---|
| | Ar ôl Mabwysiadu: Sicrhau bod yr holl gynigion datblygu yn unol â SP11, VE1, VE2 a'r canllawiau cynllunio atodol, lle bo'n briodol. | Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais a ganiateir yn rhoi ystyriaeth briodol i'r gofynion hyn | |
| **ACI15 - Gwead Cymdeithas** | | | |
| 15-1 Gwella diogelwch a diogeledd pobl ac eiddo | Cyfartaledd lefelau troseddu blynyddol (Sir Gaerfyrddin) | Gostyngiad blynyddol | Heddlu DU https://www.police.uk/pu/performance/ |
| 15-2 Hyrwyddo dyluniad aneddiadau sy'n gwella gwead cymdeithas trwy ddileu rhwystrau a chreu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cadarnhaol | Canran y bobl sy'n cytuno bod cydlyniant cymunedol da yn eu hardal leol fesul awdurdod lleol a blwyddyn | Cynyddu'n flynyddol | Stats Cymru https://statswales.gov.wales/Catalogue/National-Survey-for-Wales/Local-Area-and-Environment/percentageofpeoplewhoagreethatthereisgoodcommunitycohesionintheirlocalarea-by-localauthority-year |
| | (1-4) * DM. 36 – Dangosydd Lleol: Llunio Canllawiau Cynllunio Atodol ar Greu Lleoedd a Lleoedd Cynaliadwy. Ar ôl Mabwysiadu: Mae pob cais datblygu a ganiateir yn unol â SP12 a Chanllawiau Cynllunio Atodol, lle bo hynny'n briodol. | (gweler 1-4) | CSC (Yr Adran Gynllunio) |
| 15-3 Hyrwyddo'r gallu i ddarparu tai fforddiadwy | Yn cael ei fonitro gan 10-1 | | |
| 15-4 Gwella hygyrchedd gwasanaethau, yn enwedig o safbwynt rhannau o'r gymdeithas sydd o dan anfantais | Cyfeirier at 6-3: Canran y bobl sy'n fodlon eu bod yn gallu cael gafael ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau y maent eu hangen | Gweler y dangosydd perthnasol o fewn 6-3 | |

# 9. Ymgynghori a'r Camau Nesaf

9.0.1 Bydd yr Adroddiad ACI hwn ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r CDLI diwygiedig Adnau am gyfnod o 8 wythnos yn ystod yr wythnos yn dechrau 13 Chwefror 2023. Mae crynodeb annhechnegol hefyd ar gael, yn ogystal â fersiwn lawn y ddogfen hon. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael gan Adain Blaengynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin neu gellir eu gweld ar-lein. Gellir ei archwilio hefyd yng Nghanolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor a llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod yr oriau agor a hysbysebir.

9.0.2 Sylwch fod yr adroddiad ACI hwn ar gyfer 2il fersiwn Adneuo'r CDLI diwygiedig ac mae'n disodli'r Adroddiad AS blaenorol a gyhoeddwyd yn wreiddiol ym mis Ionawr 2020. Er bod sylwadau blaenorol yn ymwneud ag adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi'u hystyried, ni fyddant yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i'r Arolygydd i'w harchwilio. Yn ogystal, ni fydd unrhyw sylwadau a gyflwynir mewn perthynas â'r CDLI Adneuo 1af i'w archwilio gan y cyhoedd yn cael eu hystyried na'u rolio drosodd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ac, felly, dylid ailgyflwyno unrhyw sylwadau a gyflwynwyd yn flaenorol os dymunwch iddynt eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad hwn.

9.0.3 Gellir mynegi eich barn ar Adroddiad yr ACI ar-lein trwy Dudalen Ymgynghori'r Cyngor. Fel arall, gellir lawrlwytho ffurflenni ymateb o'r wefan neu maent ar gael ar gais.

Os hoffech anfon eich barn yn ysgrifenedig, postiwch eich ffurflen ymateb i:

Adain Blaengynllunio
Adran Lle a Seilwaith
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
SA31 1LE

Neu anfonwch e-bost at: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Cofiwch gynnwys 'ACI' o fewn y llinell bwnc.

9.0.4 Rhaid derbyn sylwadau erbyn y dyddiad a'r amser perthnasol a nodir ar Dudalen Ymgynghori'r Cyngor. Ni fydd sylwadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

9.0.5 Er mwyn sicrhau bod gofynion y Gyfarwyddeb AAS yn cael eu bodloni, bydd angen ystyried pob newid pellach i'r CDLI Aneuo yn dilyn y broses ymgynghori ac archwilio ffurfiol. Felly, bydd Adroddiad ACI ychwanegol ar gyfer y fersiwn mabwysiedig o'r CDLI Aneuo yn cael ei gyhoeddi ar yr adeg hon.

Diwygiedig 2018-2033
Cynllun Datblygu Lleol

# Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI)

2il Gynllun Adneuo
Chwefror 2023

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council